

**CYNYDDU DEFNYDD CYMDEITHASOL O'R
GYMRAEG GAN BLANT A PHOBL IFANC
YSGOLION UWCHRADD GWYNEDD**

**Adroddiad ar yr arolwg
gan gwmni Trywydd**

Trywydd™

**ar gyfer
Cyngor Gwynedd**



Hydref 2014

CYNNWYS

	Tudalen
1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyflwyniad	6
3. Methodoleg yr Arolwg	10
4. Prif Ddarganfyddiadau'r Arolwg: Darlun Gwynedd Gyfan	12
5. Gweithdy Pobl Ifanc Gwynedd	46
6. Dulliau Mesur Effaith	50
7. Blaenoriaethau ac Argymhellion	52
Lefel Sirol	52
Lefel Ysgol	61
Atodiad	
Tabl Canlyniadau Holiadur Meintiol Disgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd-gyfan	87

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Yn dilyn y gwaith arloesol o sefydlu Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd i gynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg, daeth yn amserol cyfeirio sylw at y sector uwchradd a chynllunio dilyniant i ymdrechion y sector cynradd.

Ym mis Medi 2013 sefydlwyd Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg yn y Sector Uwchradd ac ym mis Mawrth 2014 comisiynodd y Gweithgor gwmni Trywydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd. Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar waith yr arolwg hwn a wnaed yn nhymor yr haf 2014. O safbwynt y comisiwn dan sylw, rhannwyd y gwaith fel a ganlyn:

- Cynnal arolwg cynhwysfawr o ddefnydd cyfredol pobl ifanc o'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth yn yr 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd, a chanfod y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y bobl ifanc;
- Cynllunio a chynnal gweithdy er mwyn cael mewnbwn y bobl ifanc eu hunain i gynllunio a datblygu dilyniant i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd;
- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, llunio cyfres o gynigion arloesol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg;
- Cyflwyno cynigion ynghylch sut i fesur llwyddiant unrhyw gynlluniau a weithredir, hynny yw, y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol o ganlyniad i unrhyw ymyraethau a weithredir.

Wrth ymateb i ofynion y briff, trefnwyd ymweliadau â holl ysgolion uwchradd Gwynedd am ddiwrnod cyfan yr un er mwyn cynnal yr arolwg ysgol-gyfan. Trefnwyd grwpiau ffocws eang a chynrychioliadol gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgolion, a chynhaliwyd holiadur meintiol electronig (drwy beiriannau Qwizdom) gyda disgyblion blwyddyn 9 ymhob ysgol. Yn ogystal â'r diwrnodau ymchwil, cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod cyfnod gyda staff Hunaniaith, Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, arweinwyr cymunedol yn y sir (yr Urdd, CFFI, Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir a'r Canolfannau Hamdden), a Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg Cyngor Gwynedd.

Mae'r canfyddiadau'n amrywio'n helaeth rhwng gwahanol ysgolion ac ardaloedd ond adnabuwyd saith prif faes i'r darganfyddiadau lefel sirol fel a ganlyn. Ymhelaethir ar y pwyntiau yng nghorff yr adroddiad hwn:

i) Diffinio natur ieithyddol yr ysgolion

- Mae ansicrwydd ymysg rhanddeiliaid ynglŷn â natur ieithyddol yr ysgolion. Nid yw'n eglur i'r rhanddeiliaid a yw'n Ysgol Gymraeg naturiol, yn Ysgol Ddwieithog neu'n Ysgol Saesneg (mewn ambell achos).
- Mae rhai ysgolion yn sensitif iawn o hyrwyddo'r Gymraeg rhag gelyniaethu rhieni.
- Mae angen eglurder ar lefel sirol ac ysgol ar natur ieithyddol yr ysgol.

ii) Y modd y mae'r ysgolion yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

- Mae angen bod yn glir am y manteision sy'n perthyn i addysg Gymraeg / Dwyieithog a rhannu'r rheini'n hygryw gyda rhieni a disgyblion.
- Mae angen mwy o gynllunio strategol a gweithredu bwriadus o ran defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.
- Rhaid i'r strategaeth gwmpasu'r holl fudd-ddeiliaid, ond yn arbennig y disgyblion eu hunain.

iii) Defnydd iaith a'r Cwricwlwm

Mae amrywiaethau o fewn ysgolion y sir o safbwynt:

Yr iaith a ddefnyddir mewn gwahanol sefyllfaoedd:

- Cymraeg yw'r brif / unig iaith
- Saesneg yw'r brif / unig iaith
- Dwyieithrwydd yn ei amryw ddiffiniad

Iaith ysgrifennu'r disgyblion yn y wers

- Pwy sy'n penderfynu

Beth yw polisi a threfn gweithredu yn sgysiau a thrafodaethau'r dosbarth

- Athro a disgyblion unigol/grŵp
- Disgybl a disgybl

Dilyniant Cynradd - Uwchradd

- Nid yw pob disgybl sy'n cyrraedd Lefel 4 yn y Gymraeg yn dilyn cwrs Cymraeg iaith gyntaf ym mlwyddyn 7

iv) Defnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth

- Mae'r ysgolion yn ficosom o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y cymunedau o'u cwmpas, ac mae'r ystod ieithyddol honno'n un eang iawn.
- Nid oes yr un ysgol sydd mewn sefyllfa gwbl 'ddiogel' o safbwynt y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr hirdymor.
- Un o'r heriau yw meithrin ymdeimlad o hunaniaeth Gymraeg / Gymreig a thanlinellu bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Ngwynedd.
- Darperir cyfoeth o weithgareddau allgyrsiol gan ysgolion, ond mae amrywiaeth ar draws y Sir ac mae eisiau atgyfnerthu'r ddarpariaeth.

v) *Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y plant*

Adnabuwyd y prif rai fel a ganlyn:

- y cartref / teulu
- ffrindiau a chyfoedion
- y gymuned leol
- eu hyder i ddefnyddio iaith
- arferion iaith (yn cynnwys yr ysgol gynradd)

vi) *Agweddau tuag at y Gymraeg*

- Ar y cyfan mae agweddau disgyblion tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol iawn. Cafwyd enghreifftiau unigol o agweddau heriol tuag at y Gymraeg (o blith disgyblion ac oedolion mewn ambell ysgol).
- Mae awydd cyffredinol gan ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol o ran annog defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, er eu bod yn ansicr o'r modd o wneud hyn.

vii) *Y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol*

- 57% o ddisgyblion yr arolwg meintiol sy'n defnyddio eu Cymraeg bob dydd y tu allan i fywyd yr ysgol mewn gwahanol gyd-destunau yng Ngwynedd.
- Mae gan y Clybiau Ieuenctid a'r Canolfannau Hamdden ddylanwad mawr ar y bobl ifanc, a rhaid rhoi sylw i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y manau hyn.
- Nid yw'r ddarpariaeth gymunedol cyfrwng Cymraeg yn gyson hygyrch ar draws y sir.

Er mwyn gwneud cyfiawnder â manylder yr arolwg ar lefel ysgol, lluniwyd adroddiadau cryno ar gyfer yr 14 ysgol unigol. Mae prif themâu'r holl arolygon ysgol yn bwydo argymhellion cyfansawdd yr adroddiad hwn ar lefel sirol / awdurdod addysg ac ar lefel ysgol (Adran 7). I ategu'r darganfyddiadau ansoddol, ceir canlyniadau llawn yr ystadegau meintiol cyfansawdd a gasglwyd drwy'r holiaduron gyda disgyblion blwyddyn 9 yn Atodiad 1.

Yn dilyn ymweliadau'r ysgolion, trefnwyd gweithdy diwrnod ar gyfer y disgyblion er mwyn casglu syniadau ymarferol a strategol ar ddulliau o ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu defnydd iaith. Roedd ymateb y disgyblion i her y Gymraeg ynghyd â'u syniadau strategol yn ysbrydoli a dylid sicrhau bod model o'r fath, gyda disgyblion yn ei arwain, yn rhan greiddiol o strategaeth iaith gymdeithasol Gwynedd yn y sector uwchradd.

Rhaid canmol Cyngor Gwynedd am ei benderfyniad i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn a hynny ar lefel awdurdod addysg a sir gyfan. Drwy gynllunio cyfannol gellid sicrhau gweithredu cynhwysfawr wedi ei dargedu'n benodol i weld canlyniadau cadarnhaol a fydd yn parhau i ddatblygu dinasyddion dwyieithog cyflawn i'r dyfodol.

2. CYFLWYNIAD

Mae Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd wedi bod ar waith ers ei lansio yng nghynhadledd yr C-Factor yn Nant Gwrtheyrn yn 2011, ac mae'r broses o ddilysu cyrhaeddiad yr ysgolion i gyflawni gofynion gwobr efydd y Siarter eisoes wedi ei weithredu. Prif amcan y Siarter yw cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg a hynny drwy gyfrwng cynllun gweithredu a chyfres o feini prawf y mae'n rhaid i'r ysgolion eu gweithredu er mwyn camu tua'r nod o ennill gwobr aur am sefydlu a gwreiddio arferion ieithyddol cryf a chadarnhaol ymysg y plant. Yn ganolog i'r Siarter hon mae'r egwyddor bod ymrwymiad ysgol gyfan, o'r llywodraethwyr i'r pennaeth, y gweithlu a'r disgyblion yn hollbwysig i sicrhau llwyddiant.

Erbyn hyn mae'r Siarter iaith yn weithredol yn holl ysgolion cynradd Gwynedd. Yn dilyn y gwaith arloesol hwn, daeth yn amserol cyfeirio sylw at y sector uwchradd a chynllunio dilyniant i ymdrechion y sector cynradd i gyflawni'r nod o gael y plant i siarad Cymraeg. Mae'r dasg o weithredu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector uwchradd wedi ei gynnwys fel ymrwymiad yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2013/14. Er mwyn cyflawni'r gofynion, sefydlwyd Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg yn y Sector Uwchradd ym mis Medi 2013. Comisiynodd y Gweithgor gwmni Trywydd i gynnal arolwg o sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol ymysg pobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd.

Mae Trywydd yn fenter gymdeithasol ac yn gwmni dielw sy'n cynnig gwasanaethau cynllunio iaith proffesiynol ac sydd bellach â swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Aberystwyth a Llandeilo. Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi gweithio'n agos gyda rhyw ddeugain o ysgolion uwchradd Cymraeg a dwyieithog ar hyd a lled Cymru gan wneud gwaith ymchwil manwl a gweithredu cynlluniau blaengar ac arloesol megis datblygu syniadaeth seicoleg iaith ymhlith disgyblion cynradd ac uwchradd a gweithredu'r Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Pobl Ifanc yn genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r Urdd. Yn ôl ei arfer, mae Trywydd wedi cynnull tîm cynhwysfawr at ei gilydd, sydd ag arbenigedd a phrofiad sylweddol yn y maes, i gyflawni'r comisiwn dan sylw.

Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar waith yr arolwg hwn a wnaed yn nhymor yr haf 2014. Nod y comisiwn oedd:

- Cynnal arolwg cynhwysfawr o ddefnydd cyfredol pobl ifanc o'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth a hynny ymhob un o'r 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd;
- Adnabod y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis iaith pobl ifanc yn gymdeithasol y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth;
- Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolwg, cyflwyno cynigion y gellir eu gweithredu er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg;
- Cyflwyno cynigion ynghylch sut i fesur llwyddiant unrhyw gynlluniau a weithredir, hynny yw, y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o gymharu â'r sefyllfa bresennol o ganlyniad i unrhyw ymyraethau a weithredir.

Mae'r comisiwn dan sylw yn cael ei wneud o fewn cyd-destun o lwyddiant gan y Cyngor. Drwy gydol yr arolwg, fe ddaeth llwyddiannau'r ysgolion yn glir ac yn gyffredinol mae mwyafrif yr ysgolion wedi dangos awydd i roi lle mwy blaenllaw i'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan eu disgyblion ac maent yn barod i groesawu dulliau o hybu'r Gymraeg yn y dyfodol. Drwyddi draw, mae'r Gymraeg i'w chlywed yn iaith gymdeithasol naturiol yn nifer helaeth yr ysgolion. Fodd bynnag, rhaidd pwysleisio nad oes yr un ysgol yr ymwelwyd â hi mewn sefyllfa ddiogel parthed defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, ac mae'r realiti o safbwynt cynnydd yn y defnydd o Saesneg gan ddisgyblion o gylch yr ysgol yn un sy'n wynebu pob ysgol i raddau gwahanol.

Er mwyn cefnogi'r nod yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd i ddatblygu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, mae'r Cyngor i'w ganmol am ei weledigaeth i weithredu yn awr ar lefel strategol, sir-gyfan, yn hytrach na gadael y gwaith cynllunio iaith hollbwysig hwn i fymrwys ysgol unigol. Mae unrhyw gynnydd neu sefyllfa iach o ran defnydd cymdeithasol y Gymraeg gan y bobl ifanc yn rhai o ysgolion uwchradd Gwynedd ar hyn o bryd i'w ganmol mewn cyfnod lle na fu cynllunio iaith ar lefel strategol ar waith mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yng Nghymru yn hanesyddol. Dyma gyfle i Wunedd arloesi a rhagwelir y gall fod yma ddeunydd i'w weithredu maes o law ar lefel genedlaethol.

Yng Nghyfrifiad 2011 roedd gan 65% o breswylwyr Gwynedd y gallu i siarad Cymraeg. Serch hyn mae gan yr awdurdod ganran uchel iawn o'i disgyblion sy'n dilyn cyrsiau, yn cael eu hasesu ac yn sefyll arholiadau allanol yn y Gymraeg (iaith gyntaf). Mae hyn yn agwedd hynod ganmoladwy ac yn dysteb i agwedd a disgwyliadau cadarnhaol Cyngor Gwynedd a'i hysgolion tuag at y Gymraeg. Yn 2013 roedd y niferoedd a aseswyd yn y Gymraeg iaith gyntaf fel a ganlyn:

Cyfnod Sylfaen:	97.5%
Cyfnod Allweddol 2:	99.2%
Cyfnod Allweddol 3:	82.5%
Cyfnod Allweddol 4 - TGAU Iaith Gyntaf:	80.4%

Parthed llwyddiannau eto, wrth drafod Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd gyda phenaethiaid cynradd yn yr arolwg hwn, mae'r sector yn canmol y gwaith hwnnw ac yn gweld ei fod wedi eu cynorthwyo i annog y defnydd o'r Gymraeg yn eu hysgolion. Mae'r cyd-destun cadarnhaol hwn i'w glodfori. Hyderwn y bydd ein hargymhellion ar ddiwedd y ddogfen hon yn gymorth i Gyngor Gwynedd barhau â'i waith arloesol ym maes datblygu'r defnydd o'r Gymraeg, gan ymestyn nawr i'r sector uwchradd.

Hanfod addysg, yn anad dim yw adeiladu ar seiliau'r hyn a ddysgwyd eisoes. Mae caffael iaith yn dilyn yr un egwyddor; os yw disgybl yn cyrraedd diwedd ei gyfnod yn yr ysgol gynradd yn hyderus a rhugl ei ddefnydd o'r Gymraeg, rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y sector uwchradd yn adeiladu ar y seiliau hynny, ac yn creu pob cyfle posib i aeddfedu'r lefel honno o hyder a rhuglder, drwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio o gylch yr ysgol, ynghyd ag yn y gwersi.

Ceir enghreifftiau niferus yn yr Arolwg hwn ac mewn ardaloedd eraill yng Nghymru o ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg yn gostwng yn sylweddol ar hyd eu taith drwy'r ysgol uwchradd; o ystyried y gwaith clodwiw a wneir drwy ymdrechion Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, mae dyletswydd addysgol a swyddogol ar yr holl ysgolion uwchradd i sicrhau eu bod yn adeiladu ar hyn.

Sonnir hefyd drwy gydol yr adroddiad am 'ddwyieithrwydd'. Mae'n fwriad bod disgyblion yn cyrraedd diwedd yr ysgol uwchradd yn gwbl ddwyieithog yn ysgolion y sir; golyga hynny bod yn gwbl rugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar, yn ysgrifenedig, wrth wrando a deall.

Gan gofio bod carfan o'r disgyblion nad ydynt yn dod i gyswllt â'r Gymraeg y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, rhaid rhoi statws a sylw teilwng i ddefnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, er mwyn gwireddu'r dwyieithrwydd hwnnw yn llawn. Fe ddaeth yn amlwg yn yr arolwg nad oes cynllunio strategol ar waith ar hyn o bryd yn yr ysgolion parthed y Gymraeg, ac i bob pwrpas mae ffawd ieithyddol disgyblion, o safbwynt datblygu sgiliau rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ddibynnol ar fymrwyl ysgolion a natur yr ardaloedd y'u lleolir ynddynt. Er bod gan ysgolion eu Polisi Iaith nid oes tystiolaeth fod hyn yn ganolog weithredol yng ngwaith yr ysgol.

Yn ogystal, o gofio lleoliad strategol y gwaith hwn yng Ngwynedd a'r cyfleoedd economaidd yn y sir i gyflogi unigolion sy'n rhugl yn y Gymraeg, mae'n hollbwysig i'r ysgolion gefnogi a pharatoi'r disgyblion at hyn drwy roi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau llafar a chymdeithasol yn y Gymraeg.

O safbwynt y comisiwn dan sylw, rhannwyd y gwaith yn dair agwedd fel a ganlyn:

Agwedd 1

Cynnal arolwg, ymgynghori a chydweithio gyda holl fudd-ddeiliaid yr ysgolion uwchradd dan sylw er mwyn canfod y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y bobl ifanc

Agwedd 2

Cynllunio a chynnal gweithdy er mwyn cael mewnbwn y bobl ifanc eu hunain i gynllunio a datblygu dilyniant i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Agwedd 3

Llunio cyfres o gynigion arloesol, amrywiol a manwl fyddai'n fodd o geisio ymateb i'r ffactorau hynny a adnabuwyd fel y rhai sydd yn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg i'w treialu fel arbrawf cenedlaethol yn y sector uwchradd yng Ngwynedd

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein hymateb i'r briff uchod, a'r hyn a geir yng nghorff yr adroddiad yw'r darlun sirol. Mae sefyllfa defnydd iaith a chanlyniadau'r arolwg ymhob ysgol unigol yn amrywio i raddau gwahanol; rhennir prif ddarganfyddiadau'r ymchwil ysgol-gyfan ac argymhellion penodol gyda'r ysgolion yn unigol.

Er bod pob ysgol ar yr un daith o ran gweledigaeth y sir i gynyddu defnydd cymdeithasol y Gymraeg gan ddisgyblion, cydnabyddir bod pob ysgol ar safleoedd a chyfnodau gwahanol ar y daith honno. Yr her fydd yn wynebu Gwynedd cyn rhoi cynlluniau ar waith i hybu'r Gymraeg, fydd rhannu'r weledigaeth honno gyda phob ysgol uwchradd, er mwyn sicrhau gweledigaeth ar y cyd a pherchnogaeth gan holl ysgolion uwchradd y sir a gwarantu cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan ddisgyblion ar lefel strategol.

3. METHODOLEG YR AROLWG

3.1 Wrth ymateb i ofynion y briff, trefnwyd ymweliadau â holl ysgolion uwchradd Gwynedd am ddiwrnod cyfan yr un er mwyn cynnal yr arolwg ysgol-gyfan. Rhannwyd y tîm ymchwil yn ystod yr ymweliadau yn ôl arbenigedd, gyda rhai yn treulio'r diwrnod yn cyfweld â grwpiau ffocws o blith yr oedolion, ac eraill yn cyfweld â grwpiau ffocws o blith y disgyblion.

Cyn y diwrnodau ymchwil ac yn y broses o wneud ymchwil pen desg, casglwyd amryw ddogfennau gan yr ysgolion sydd yn cyfathrebu negeseuon mewnol ac allanol, er mwyn edrych yn benodol ar y sylw a roddir i ddefnydd iaith ynddynt. Astudiwyd dogfennau eraill yn ogystal, gan gynnwys Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd, Adroddiadau Estyn diweddaraf yr Ysgolion, ac Asesiad Ardrowiad Ieithyddol Cynllun Trefniadaeth Ysgolion Cynradd Gwynedd.

3.2 Gofynnwyd i bob ysgol drefnu'r grwpiau ffocws isod yn ystod y diwrnodau ymchwil:

- Y Tîm Rheoli
- Staff Addysgu (Croestoriad: profiad dysgu, pwnc, oed, rhyw)
- Staff Cefnogi/Ategol
- Rhieni
- Llywodraethwyr
- Penaethiaid Ysgolion Cynradd y dalgylchoedd
- Croestoriad o ddisgyblion o flwyddyn 7, 9 a 10
- Croestoriad o ddisgyblion y chweched dosbarth (yn yr ysgolion perthnasol)

Gofynnwyd i ysgolion drefnu sampl o ddisgyblion i'w holi a fyddai'n ficrocosm o'r flwyddyn dan sylw; gofynnwyd am groestoriad o ran iaith y cartref, bechgyn/merched, ac ar gais Cyngor Gwynedd, cynnwys digon o ddisgyblion sydd yn debygol o aros yn eu hardal ar ôl gorffen yn yr ysgol. Defnyddiwyd themâu ymholi a oedd wedi'u nodi yn y briff yn brif sail ar gyfer cwestiynau'r grwpiau ffocws a'r holiaduron meintiol. Yn ogystal, o ran yr holiaduron meintiol, cymharwyd y cwestiynau â'r rhai a geir yn Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd. Gofynnwyd yr un cwestiynau i bob ysgol, a rhoddwyd yr un cyfle i bob ysgol drefnu'r holl grwpiau ffocws uchod ar gyfer yr ymweliad. Erbyn diwedd yr arolwg, roedd y sampl yn cynnwys cyfanswm o tua:

- 400 o ddisgyblion mewn grwpiau ffocws;
- 772 o ddisgyblion yn ymateb drwy declynnau Qwizdom;
- 350 o oedolion mewn grwpiau ffocws a chyfarfodydd amrywiol.

3.3 Oherwydd natur y grwpiau ffocws, sail ansoddol sydd i ganlyniadau'r arolwg hwn yn bennaf. Fodd bynnag, cynhaliwyd yr holiadur meintiol electronig (drwy'r peiriannau Qwizdom) gyda chohort cyfan o ddisgyblion ymhob ysgol.

Penderfynwyd targedu disgyblion blwyddyn 9 er cysondeb i bob ysgol. Roedd hyn yn gyfle i holi cyfres o gwestiynau i'r disgyblion, gan ddilyn yr un themâu â chwestiynau'r grwpiau ffocws, gan ganolbwyntio ar gwestiynau am eu defnydd o ieithoedd o gylch yr ysgol, y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu defnydd iaith, eu hagweddau at iaith, a'u defnydd o iaith yn y cartref a'r gymuned. Ceir ymatebion cyfansawdd holl ysgolion Gwynedd yn yr atodiad (sampl o 772 disgybl), ac amlygir rhai enghreifftiau yng nghorff yr adroddiad hwn. Mae hyn yn rhoi gwaelodlin o sampl disgyblion yr un oed dros Wynedd gyfan ar adeg yr arolwg. Rhaid pwysleisio y ceir amrywiadau mawr yn atebion y disgyblion i'r cwestiynau fesul ysgol, sydd ynddynt eu hunain yn amlygu themâu a blaenoriaethau y gall yr ysgolion unigol ganolbwyntio arnynt i gychwyn. Rhennir yr ystadegau ysgol-gyfan hyn gyda phob ysgol yn unigol.

- 3.4 Yn ogystal â'r diwrnodau ymchwil, cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol yn ystod cyfnod yr arolwg gyda staff Hunaniaith, Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, arweinwyr cymunedol yn y sir (yr Urdd, CFFI, Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor Sir a'r Canolfannau Hamdden), a Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Cymdeithasol o'r Gymraeg Cyngor Gwynedd.
- 3.5 Un egwyddor fu'n sail i'n methodoleg oedd gonestrwydd ieithyddol, a'r angen i'r ysgolion fod mor agored a gonest â phosib yn eu hymatebion. Rhannwyd yr egwyddor hon ar ddechrau pob grŵp ffocws, er mwyn sicrhau dilysrwydd ymatebion y rhai a holwyd mewn pwnc sydd yn gallu bod yn un personol ac emosiynol. Roedd hyn yn arbennig o wir yn y gwaith ymchwil a wnaed gyda'r disgyblion, a threuliyd cryn amser ar y cychwyn yn sicrhau eu bod yn deall nod ac amcan ein gwaith yn yr ysgol, a phwysigrwydd eu cyfraniad gonest hwy i'r drafodaeth, a deilliannau'r gwaith ymchwil.
- 3.6 Yn dilyn ymweliadau'r ysgolion, trefnwyd gweithdy diwrnod ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd er mwyn ymchwilio'n fanylach, ac er mwyn dechrau casglu syniadau ymarferol a strategol gan ddisgyblion yr ysgolion ar ddulliau o ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu defnydd iaith. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i dri chynrychiolydd o bob ysgol uwchradd (un disgybl o bob cyfnod allweddol) ynghyd â Phencampwr y Gymraeg o blith staff yr ysgolion. Gwahoddiwyd pob ysgol yn y sir, a mynychwyd y diwrnod gan 11 ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am y gweithdy yn adran 5 y ddogfen hon, ac mae prif argymhellion y bobl ifanc a gyflwynwyd inni yn y gweithdy wedi'u cynnwys yn yr Argymhellion ar ddiwedd y ddogfen. Rhaid pwysleisio cymaint oedd gwerth cynnal gweithdy o'r fath; roedd ymateb y disgyblion i her y Gymraeg ynghyd â'u syniadau strategol yn ysbrydoli.

Dylid sicrhau bod model o'r fath, gyda disgyblion yn ei arwain, yn rhan greiddiol o strategaeth iaith gymdeithasol Gwynedd yn y sector uwchradd.

4. PRIF DDARGANFYDDIADAU'R AROLWG: DARLUN GWYNEDD GYFAN

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i brif ddarganfyddiadau'r arolwg ar draws y sir. Mae hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd drwy'r holl fudd-ddeiliaid a restrwyd yn adran fethodoleg yr adroddiad. Sylwer mai prif ddarganfyddiadau yw'r rhain (crynodeb o'r wybodaeth ansoddol a meintiol) ac mae'r ystadegau a'r darganfyddiadau'n amrywio'n helaeth rhwng ysgolion.

Er mwyn gwneud cyfiawnder â manylder yr arolwg ar lefel ysgol unigol, lluniwyd atodiadau cryno ar gyfer pob ysgol unigol. Mae prif themâu'r holl arolygon ysgol yn bwydo argymhellion cyfansawdd yr adroddiad hwn.

Rhennir y bennod hon ar ddarganfyddiadau Gwynedd-gyfan fel a ganlyn:

- 4.1 Diffinio natur ieithyddol yr ysgolion
- 4.2 Y modd y mae'r ysgolion yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
- 4.3 Defnydd iaith a'r Cwricwlwm
- 4.4 Defnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth
- 4.5 Y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y plant
- 4.6 Agweddau tuag at y Gymraeg
- 4.7 Y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol
 - ffactorau dan reolaeth y Cyngor Sir
 - ffactorau eraill

Ar ddiwedd pob maes yn y bennod hon, rhoddir blaenoriaethau ar lefel sirol ac ysgol, a cheir argymhellion manwl ar gyfer gweithredu ar y blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

I ategu'r darganfyddiadau ansoddol a geir yn y bennod hon, amlygir rhai graffiau/data, sef ystadegau meintiol a gasglwyd drwy'r sesiynau Qwisdom gyda disgyblion blwyddyn 9 Gwynedd gyfan.

Ceir copi llawn o'r holl ymatebion hyn yn y tabl yn Atodiad 1, a rhennir yr holl ystadegau sirol cyfansawdd gyda phob ysgol, ynghyd â'u hystadegau unigol hwy fel ysgol maes o law. Gwelir copi o'r holl graffiau yn Atodiad 2 hefyd.

4.1. Diffinio Natur Ieithyddol yr Ysgolion

Yn gyffredinol, er bod yr ysgolion yn diffinio'u hunain yn rhai dwyieithog, nid yw'n gwbl eglur i bawb beth yw goblygiadau hynny o safbwynt defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae cryn aneglurder mewn nifer o ysgolion p'un ai bod yr ysgol yn un ddwyieithog, yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ymddengys nad yw'n eglur ym mhob ysgol p'un ai'r disgyblion sydd yn dewis yr iaith a ddefnyddir ganddynt yn y dosbarth (rhwng disgybl a disgybl, ac weithiau rhwng athro a disgybl) a chanfyddir bod hyn i fyny i fymrwyr athrawon mewn sawl achos. Mae cymhlethdodau'n bodoli o safbwynt disgwyliadau rhieni, staff a'r disgyblion eu hunain o ran defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa 'ddwyieithog'.

Mae 'dwyieithrwydd' yn cael effaith ar ganfyddiad disgyblion o Gymreictod yr ysgol a gall danseilio unrhyw ymdrechion i hybu'r Gymraeg os nad yw disgwyliadau defnydd iaith yn cael eu cytuno a'u deall gan bawb.

Yn ogystal, roedd sensitifrwydd yn bodoli parthed gor-hyrwyddo'r Gymraeg mewn rhai ysgolion, rhag gelyniaethu rhieni mewn ambell achos, ac roedd y ffaith fod yr ysgol yn 'ddwyieithog' yn cael ei gynnig fel cyfiawnhad dros y pwyll yma.

Rydym felly'n cydnabod yr her o ddiffinio lefelau ieithyddol yr ysgolion ar draws y sir, ond credwn fod angen i hyn fod yn nod gweithredu eglur i Gyngor Gwynedd er mwyn gallu cyfathrebu ag ysgolion, a gosod cyd-destun a disgwyliadau eglur i'r Gymraeg cyn gweithredu.

Blaenoriaethau Thema 1: Diffinio Natur Ieithyddol yr Ysgolion

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

Y1.1 - mae angen i bob ysgol sicrhau eu bod yn glir beth yw lefel ieithyddol y ddarpariaeth a gynigir ganddynt.

Lefel Sirol:

S1.1 - mae angen diffinio categori neu lefel ieithyddol glir i bob ysgol.


4.2 Y Modd y Mae'r Ysgolion yn Hyrwyddo ac yn Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg

Cafwyd ymdeimlad cryf ar draws nifer o ysgolion, a hynny o blith grwpiau ffocws disgyblion ac oedolion fel ei gilydd, fod ysgolion, er gwaetha'r awydd i fod yn rhagweithiol parthed defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth, yn ansicr ac yn ddihyder ynghylch y ffordd orau o fynd ati i wneud hyn. Cesglir bod hyn yn deillio o ddiffyg angen nifer o ysgolion Gwynedd yn hanesyddol i ysgogi defnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal, nodwyd gan nifer (disgyblion a staff) y byddai rhai rhieni'n bryderus pe bai ymdrechion ar waith i Gymreigio ysgolion ymhellach am y byddai hynny'n andwyol i 'ddwyeithrwydd' eu plant, ac yn benodol eu gafael ar y Saesneg.

O'r herwydd awgrymwyd y byddai rhai rhieni am chwilio am ysgol uwchradd amgen fyddai'n caniatáu mwy o bwyslais ar addysgu cyfrwng Saesneg ac yn caniatáu defnydd helaethech o'r Saesneg o gylich yr ysgol, pe bai'r ysgol am weithredu ymhellach i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn sefyllfa gymhleth iawn a sensitif i'r sir ymafael â hi, ond mae'n rhaid rhoi sylw i hyn, gan ystyried y neges a'r genhadaeth ehangach i rieni parthed manteision y Gymraeg. Mae'n debygol bod hyn wedi bod yn un o'r ffactorau sydd wedi atal rhai ysgolion rhag hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach yn y blynyddoedd diwethaf, gan ofni ymateb i sensitifrwydd rhieni at iaith heb fod gan yr ysgolion y mandad a'r hyder i weithredu.

Yn yr arolwg hefyd, roedd tuedd gan bobl i ystyried bod gweithredu i hybu'r Gymraeg yn rhywbeth negyddol a allai fod yn gysylltiedig â chosbi, ond mae angen ei weld fel rhywbeth adeiladol i helpu datblygu sgiliau'r disgyblion. Gwerthfawrogir bod angen gweithredu yn sensitif wrth ddatblygu hyn ond drwy wneud hynny mewn perthynas â'r manteision i ddisgyblion gellir datblygu'r agwedd hon mewn cyddestun cadarnhaol. Ar hyn o bryd, ar y cyfan, nid yw'n ymddangos bod y disgwyliad i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg o gylich yr ysgol yn ddigon eglur i ddisgyblion. Caiff hyn ei gadarnhau yn yr ymchwil feintiol isod:

Oes gan yr ysgol reolau clir o ran siarad Cymraeg y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth?
(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



Yn hyn o beth felly, heblaw ambell eithriad o du staff penodol ac adrannau Cymraeg, nid yw'n ymddangos ar y cyfan fod yma ymdrechion ysgol-gyfan i fod yn rhagweithiol wrth annog defnyddio'r Gymraeg ar draws yr ysgol ar hyn o bryd; yn yr ysgolion hynny lle'r mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio gan ddisgyblion y tu hwnt i ffiniau'r ysgol, mae hyn yn digwydd yn gwbl naturiol am mai dyma yw iaith naturiol nifer helaeth cartrefi'r plant a'r gymuned leol. Mae disgyblion yn ymwybodol o'r rheol/egwyddor iaith yn y wers Gymraeg, ond ymddengys nad oes egwyddor neu ddisgwyliad i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r wers Gymraeg yn bodoli. Heb osod ffiniau eglur i ddisgyblion, nid oes cynllun ar waith felly i ddiogelu sefyllfa'r Gymraeg.

Dangoswyd awydd gan nifer o fudd-ddeiliaid, gan gynnwys oedolion a disgyblion, i'r ysgolion ddechrau gweithredu'n fwy strategol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg mewn modd rhagweithiol, er mwyn diogelu'r dyfodol. Prin iawn oedd yr enghreifftiau o arfer da presennol ymysg ysgolion o ymdrechion strategol i hybu'r Gymraeg. O safbwynt ymdrechion presennol yr ysgolion, rhaid edrych ar rôl yr holl fudd-ddeiliaid. Dyma rai prif bwyntiau a nodwyd yn yr arolwg:

i) Disgyblion yr Ysgol

Ar hyn o bryd, heb strategaethau ysgol-gyfan yn eu lle, ymddengys mai'r disgyblion eu hunain sydd â'r grym wrth benderfynu pa iaith i'w defnyddio yn gymdeithasol o gylch yr ysgol. Ar un llaw, amlyga hyn nad yw ysgolion wedi bod yn rhagweithiol ar lefel ysgol-gyfan er newid y sefyllfa. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos potensial disgyblion i weddnewid y sefyllfa pe bai cynllunio bwriadus ar waith gyda'r disgyblion yn rhan greiddiol o hynny. Er mwyn i unrhyw strategaeth lwyddo, ni ellir gorbwysleisio pa mor hanfodol yw ymrwymo'r disgyblion eu hunain yn y broses o hybu'r Gymraeg yn gymdeithasol o gylch yr ysgol. Ceir trafodaeth ymhellach ar hyn wrth ymdrin â'r syniadau a ddaeth drwy weithdy Pobl Ifanc Gwynedd yn Nant Gwrtheyrn (Adran 5).

Mae dylanwad pobl ifanc h9n yr ysgol ar ddisgyblion iau wedi derbyn ymateb cymysg yn yr ymchwil. Nid yw disgyblion h9n yr ysgol yn teimlo bob tro bod ganddynt ddylanwad dros y disgyblion iau, er bod y disgyblion iau hynny'n dangos eu bod yn gyffredinol dilyn patrymau a thueddiadau defnydd iaith y disgyblion h9n. Yn yr achosion lle mae gan ysgol chweched dosbarth, gellid gwella rôl y disgyblion h9n wrth fod yn fentoriaid a modelau rôl i'r disgyblion iau. Nodwyd fodd bynnag yn yr arolwg yr awydd gan aelodau'r chweched dosbarth i fod yn fwy rhagweithiol a derbyn mwy o gyfrifoldeb i hybu'r Gymraeg ar draws yr ysgol, a gellir gwneud hyn, er enghraifft o dan adain y BAC.

Mae systemau 'Bydis iaith' ar waith, neu wedi bod ar waith mewn rhai ysgolion. Y nod yw defnyddio disgyblion h9n i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd iaith y disgyblion iau. Roedd enghreifftiau o gryfderau a gwendidau systemau o'r fath. Gwelwn botensial defnyddio mentoriaid, ond rhaid mireinio'r systemau presennol, hyfforddi'r disgyblion ar ddisgwyliadau'r rôl a sicrhau gweithrediad gan bawb.

ii) Uwch Dîm Rheoli

Ymddengys bod llawer o drafod y Gymraeg fel pwnc ac mewn perthynas â safonau mewn arholiadau ond nid oes digon o drafod strategaeth i ddatblygu'r defnydd o'r iaith yn gymdeithasol. Mae sawl un wedi nodi mor braf oedd cael trafod defnydd iaith yn yr arolwg hwn ac nad oeddynt wedi trafod defnydd o'r Gymraeg yn y cyd-destun hwn o'r blaen. Nodwyd yr angen i drafod y defnydd o'r Gymraeg ar lefel penaethiaid sirol, fforwm sydd eisoes yn bodoli er mwyn hyrwyddo arferion da a chynnal strategaeth gydlynus.

Mewn rhai ysgolion, 'gofalus' oedd dynesiad y Tîm Rheoli tuag at strategaeth i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd hyn yn awgrymu bod angen rhagor o arweiniad iddynt gan y Cyngor Sir, a rhagor o arweiniad a hyder i weithredu.

iii) Staff Addysgu

Mewn sawl ysgol, cyfeiriwyd at enghreifftiau o staff unigol sy'n ymdrechu i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi, a thu hwnt i'r dosbarth. Cafwyd ambell enghraifft o ysgolion yn defnyddio system wobrwyo am ymdrechion i ddefnyddio'r Gymraeg. Cymysg yw'r farn ymysg ysgolion ynglŷn â gwerth gwobrwyo. Roedd yr enghreifftiau gorau o arfer da yn cynnwys ymestyn y system wobrwyo fel bod disgyblion yn cael yr hawl i wobrwyo staff sy'n ddysgwyr Cymraeg am eu hymdrechion i siarad Cymraeg yn yr ysgol, ac ymdrechion i ddefnyddio'r system wobrwyo yn y gymuned, gyda gweithwyr siopau lleol yn rhoi tocynnau iaith i ddisgyblion sy'n defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Ymddengys bod systemau gwobrwyo'n cael eu ffafrio yn yr ysgolion lle mae'r defnydd o Saesneg yn helaethach. Nodwyd gan nifer yr ymdrechion mewn rhai ysgolion i gynnal gweithgareddau hybu Cymreictod yn yr ysgol, megis Eisteddfod yr Ysgol, radio ysgol, ac ymweliadau gan fandiau o'r sin roc Gymraeg, sy'n cyfrannu at naws ac ethos Gymraeg a Chymreig yr ysgol.

Tra bod hyn i'w ganmol, mae'r ymdrechion hyn yn anghyson iawn ar draws yr ysgolion. Staff yr ysgol yw ei hadnodd bwysicaf; yn y pendraw beth bynnag fydd y disgwyliadau a osodir gan yr ysgolion ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg o gylch yr ysgol, rhaid sicrhau bod pob aelod o staff yn rhoi'r egwyddor ar waith a gweithredu yn gyson i gadarnhau'r neges. Cafwyd sawl enghraifft gan ddisgyblion a staff bod Saesneg yn cael ei chaniatáu i raddau helaeth ar y coridorau ac mewn gwersi, a bod hyn yn dibynnu ar yr athro, neu'r pwnc dan sylw.

Mae gweithredu'r egwyddor o gryfhau'r defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg yn gofyn am eglurhad o'r disgwyliadau, ffiniau eglur i bawb a chymau penodol sy'n glir ac wedi'u cytuno o flaen llaw gan y sawl fydd yn eu gweithredu ac i'r sawl yr effeithir arnynt. **Er mwyn newid arferion iaith, bydd angen i'r ysgol roi strategaeth gydlynus a chytunedig ar waith, a sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth yw eu rôl o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.**

Pa bynnag ffordd y bydd ysgol yn penderfynu annog defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth, yn y coridor, ar yr iard ac mewn mannau eraill, gan gynnwys teithiau ysgol, bydd angen sicrhau bod y camau a weithredir yn rhai eglur a chyson, gyda phob un aelod o'r staff addysgu ac atodol yn ymdrin ag achosion yn ddiwahân, gyda chyfuniad o'r cadernid a'r sensitifrwydd priodol gyda phwyslais ar y cynhaliol ac nid cosbi fel y cyfryw.

Mae defnydd a chyfrwng iaith athrawon gyda disgyblion yn yr ysgolion yn anghyson ar draws y sir. Soniwyd am enghreifftiau, a chlywyd enghreifftiau byw ein hunain yn ystod ein hymweliad, o staff a disgyblion a oedd yn medru'r Gymraeg yn siarad Saesneg â'i gilydd ar y coridor. Daeth i'r amlwg hefyd fod ambell aelod o staff mewn ambell ysgol, sydd yn medru'r Gymraeg, yn siarad Saesneg â'i gilydd yng nghlyw'r plant ar goridau'r ysgol. Mae hyn yn gallu arwain at negeseuon cymysg i ddisgyblion o safbwynt yr hyn sydd yn dderbyniol o gylch yr ysgol.

Mae rôl athro yn ehangach hefyd ac un thema a amlygwyd oedd yr angen i athrawon hyrwyddo dilyniant addysg Gymraeg o'r uwchradd i addysg bellach ac/neu uwch. Mae angen eglurder pellach ar y disgwyliad hwn a'r arweiniad y dylid ei roi gan athrawon i ddisgyblion ar fanteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hastudiaethau addysg uwch.

Nodwyd mewn rhai achosion fod disgyblion yn dewis astudio pynciau, megis y gwyddorau, drwy gyfrwng y Saesneg oherwydd eu bod o'r farn nad oes modd astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel addysg uwch. Cafwyd enghraifft unigol o athro'r gwyddorau yn annog disgyblion blwyddyn 10 i astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn yr uwchradd er mwyn gallu parhau â'u hastudiaethau yn y brifysgol. Mae dadleuon o'r fath yn gynyddol ddi-sail gyda datblygiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond mae angen sicrhau bod trafodaethau ar hyn yn cael eu hatgyfnerthu gan staff, ac yn cael eu cyfathrebu i'r disgyblion yn ddigon cynnar yn eu gyrfa yn yr ysgol ac yn fanteisiol cyn gynhared â blwyddyn 9.

iv) Llywodraethwyr

Mae ymwneud y Llywodraethwyr â'r Gymraeg ar lefel strategol yn amrywio fesul ysgol. Mae mwyafrif helaeth y cyrff llywodraethu'n gefnogol i'r Gymraeg, ond prin yw'r cyrff sydd yn trafod defnydd iaith yn rheolaidd ar lefel strategol yn yr ysgol. Roedd peth ansicrwydd ymysg nifer o benaethiaid o roi'r mater hwn gerbron y llywodraethwyr, a chafwyd ambell enghraifft unigol o lywodraethwyr gwrth-Gymraeg; y peryg yw y gallant, heb roi'r gefnogaeth briodol i'r ysgol, lesteirio ymdrechion ysgol-gyfan i symud ymlaen.

Mae angen i'r ysgolion ddatblygu rôl y llywodraethwyr mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn cryfhau gweledigaeth a strategaeth yr ysgol mewn perthynas â hyn.

v) Staff Atodol / Cynorthwyol

Cafwyd enghreifftiau mewn rhai ysgolion o staff atodol sy'n gwneud gwaith arbennig o dda wrth ddefnyddio eu Cymraeg yn yr ysgol. Fodd bynnag mae enghreifftiau o staff atodol nad ydynt yn siarad Cymraeg â'i gilydd er eu bod yn medru'r Gymraeg, a hefyd staff sy'n medru'r Gymraeg yn siarad Saesneg â'i gilydd o flaen plant.

Wrth benodi staff, er bod disgwyl, bron ym mhob ysgol, iddynt fedru siarad Cymraeg, nid oes strategaeth ddigon cadarn yn ei lle i fynnu bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio gan yr holl staff atodol/cynorthwyol; (er bod y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd yn gadarn eu bwriadau o blaid y Gymraeg).

vi) Rhieni

Gofynnwyd i gael gweld grwpiau ffocws o blith rhieni'r ysgolion i'w cyfweld ar gyfer yr arolwg. Llwyddwyd i weld sampl yn nifer helaeth yr ysgolion a chafwyd trafodaethau da gyda rhieni o safbwynt eu hymwneud hwy â'r ysgol mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â defnydd iaith eu plant. Roedd y rhan fwyaf a gyfwelwyd yn gefnogol iawn i'r Gymraeg ac yn awyddus i weld yr ysgol yn datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ymhellach, ond am fod rhai ymhlith y sampl hefyd yn llywodraethwyr neu'n aelodau o staff, ni ellir bod yn gwbl sicr bod y sampl yn gynrychioladol iawn o gorff y rhieni ym mhob achos. Trwy wahanol grwpiau ffocws, gwyddys bod rhieni ym mhob ysgol nad ydynt mor gefnogol â hynny i ymdrechion ysgolion i hybu defnyddio'r Gymraeg, ac mae angen sicrhau bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth gan y Sir er mwyn cael hyder i ymateb yn gadarnhaol parthed unrhyw ddisgwyliad i ddefnyddio'r Gymraeg a pharhau ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd, mae budd-ddeiliaid ysgolion (rhai yn cynnwys yr athrawon a'r disgyblion eu hunain) yn ymwybodol iawn o rym a dylanwad rhieni ar ysgolion mewn perthynas â defnydd disgyblion o'r Gymraeg. Maen nhw'n ymwybodol o ymateb sensitif ysgolion i hyn, a'u bod yn cael eu hatal rhag hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o ganlyniad i'r nerfuswydd yma. Beth bynnag yw'r genhadaeth ieithyddol, darganfuwyd bod angen gwella'r dulliau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref ar hyd gyrfa'r disgybl, gan ddefnyddio rhieni eu hunain lle y bo modd, i ddangos gwerth dwyieithrwydd i'r plant o safbwynt addysgol ac economaidd ond hefyd o ran manteision cymdeithasol a diwylliannol. Mae angen manteisio ymhellach ar y cyfleoedd pontio allweddol yng ngyrfa eu plant yn yr ysgol (cynradd/uwchradd a rhwng cyfnodau allweddol) i gyfleu negeseuon o'r fath yn hyderus i rieni.

Daeth i'r amlwg yn yr arolwg bod carfan helaeth o rieni mewn rhannau o Wynedd nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn y cartref gyda'u plant, er eu bod yn rhugl yn y Gymraeg eu hunain. Mae'r ymddygiad ieithyddol yma, ynghyd ag unrhyw werthoedd ieithyddol a diwylliannol a gyflwynir i'r plant yn y cartref drwy eu rhieni, yn brif ffactor sy'n dylanwadu ar ymddygiad ieithyddol y plant yn yr ysgol, a rhaid mynd i'r afael â hyn ar lefel sirol.

O safbwynt rhieni di-gymraeg, byddai'n gaffaeliad petai'r ysgol (ar y cyd efallai â Chonsortiw m lleol Cymraeg i Oedolion) yn medru cynnig gwersi dysgu Cymraeg i rieni, o bosib ar y cyd ag ysgolion eraill ar draws yr ardal.

Blaenoriaethau Thema 2: Y Modd y Mae'r Ysgolion yn Hyrwyddo ac yn Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

- Y2.1** - cynllunio a gweithredu'n fwriadus i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu strategaeth ysgol-gyfan uchelgeisiol i sicrhau ac i hyrwyddo ymhellach statws cytûn a chydabyddedig i'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgolion, i gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan yr holl ddisgyblion a staff
- Y2.2** - datblygu cyfleoedd i alluogi a sbarduno pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol, gan gynnwys holl fudd-ddeiliaid yr ysgol yn rhan o'r strategaeth gan roi iddynt ddyletswyddau penodol
- Y2.3** - sicrhau bod y disgyblion eu hunain yn chwarae rôl greiddiol yn y broses o hybu'r Gymraeg yn gymdeithasol o gylich yr ysgol
- Y2.4** - sicrhau rôl strategol ieithyddol i'r Corff Llywodraethol
- Y2.5** - sicrhau arweiniad ac ymrwymiad gan bob aelod o'r Tîm Rheoli Hÿn
- Y2.6** - diffinio yn fwy trylwyr rôl a chyfrifoldeb pob aelod o'r staff addysgu ynghylch datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol/ffurfiol ar draws yr ysgol
- Y2.7** - diffinio yn fwy trylwyr rôl a chyfrifoldeb pob aelod o'r staff atodol ynghylch datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol/ffurfiol ar draws yr ysgol
- Y2.8** - cynnwys rhieni yn ffurfiol yn natblygiadau'r ysgol parthed hybu'r Gymraeg yn gymdeithasol o gylich yr ysgol
- Y2.9** - parhau i gynnal partneriaeth agos gyda'r sector cynradd a chanolbwyntio ymhellach ar drafod trosglwyddo, dilyniant a pharhad ieithyddol

Lefel Sirol:

- S2.1** - sicrhau ymrwymiad holl ysgolion uwchradd Gwynedd i gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, gan osod nodau penodol i sicrhau bod pob ysgol uwchradd yn mynd tua'r un cyfeiriad ar gontiniwm ieithyddol
- S2.2** - sicrhau cefnogaeth a chyfleoedd priodol i staff ddysgu'r Gymraeg neu wella eu sgiliau presennol ar sail anghenion pob ysgol

4.3 Defnydd iaith a'r Cwricwlwm


Er nad oedd yn rhan o'r briff i ystyried defnydd o'r Gymraeg mewn gwersi a'r Cwricwlwm, teimlir bod angen rhoi sylw i'r pwynt hwn am fod gan ddefnydd iaith disgyblion yn y gwersi berthynas agos a'u defnydd o iaith y tu hwnt i'r dosbarth.

Mae nifer o ysgolion Gwynedd yn cyflwyno gwersi'n ddwyieithog; fodd bynnag mae'r egwyddor hon yn gallu peri dryswch i ddisgyblion a staff parthed yr hyn sy'n ddisgwyliedig o ran defnyddio'r Gymraeg neu Saesneg yn y cyd-destunau hynny (o ran disgybl-athro a disgybl-disgybl). Heblaw am wersi pwnc Cymraeg, nid oedd hi'n eglur yn un o'r ysgolion p'un ai bod rheol neu egwyddor iaith yn bodoli yn yr ystafell ddosbarth. Yn hyn o beth ac mewn sefyllfaoedd ble mae'r defnydd o'r Gymraeg yn fregus, mae defnyddio Saesneg ar lafar yn y dosbarth yn dod yn duedd gynyddol.

Cydnabyddir cymhlethdod - a delfryd uchelgeisiol - y sefyllfa addysgu dwyieithog, i'r staff ac i'r disgyblion, ac mae'r ymdrech i gynnal sgwrsiau a rhoi nodiadau yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefyllfa ddwyieithog i'w ganmol. Fodd bynnag, rhestrwyd nifer o enghreifftiau lle mae dysgu dwyieithog yn peri dryswch, a chasglwyd canfyddiad bod athrawon yn ailadrodd ar lafar yn ddwyieithog, bod yna rai plant cwbl rugl yn y Gymraeg sy'n cael astudio drwy gyfrwng y Saesneg a bod angen gwella'r sgwrs parthed cyfrwng yr astudio.

O safbwynt iaith plant â'i gilydd yn y dosbarth, mae hyn yn gymhleth ac yn amrywio dipyn fesul ysgol. Yn gyffredinol ar draws Gwynedd, y wers Gymraeg yw'r unig lle lle mae'r plant yn teimlo bod rheol iaith yn bod, a bod rhaid siarad Cymraeg (er y cafwyd enghreifftiau mewn rhai ysgolion o hynny'n cael ei herio). Nodwyd bod pynciau eraill, heblaw'r pwnc Saesneg, yn niwlog o safbwynt y disgwyliadau ar blant i siarad Cymraeg â'i gilydd, ac ar y cyfan nid yw athrawon yn herio'r defnydd o Saesneg ac nid ydynt yn llwyr ymwybodol sut mae ymdrin â'r sefyllfa. Mae'r cwestiynau meintiol a holwyd i flwyddyn 9 yn cadarnhau hyn:

Heblaw am y pwnc 'Saesneg', pa iaith wyt ti'n ei siarad mewn gwersi gyda dy ffrindiau fel arfer? (Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



O safbwynt dewis cyfrwng astudio'r disgyblion, cafwyd sawl enghraifft o arfer da gydag ysgolion yn cynllunio hyn yn strategol ac yn sicrhau dilyniant naturiol fel bod y rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg barhau yn parhau â'u hastudiaethau yn y Gymraeg yn yr uwchradd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir ym mhob ysgol, a chafwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Saesneg, er iddynt fod yn rhugl yn y Gymraeg. Gwelwn gyswllt cryf rhwng defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth a'i defnyddio o gylch yr ysgol, felly mae angen edrych ar bob ffordd o gynorthwyo'r disgyblion i gael cyswllt â'r Gymraeg.

Er bod nifer aruchel y disgyblion (yn y mwyafrif mawr o ysgolion) sydd yn astudio Cymraeg iaith gyntaf i'w ganmol, gwelwyd sawl enghraifft o ddisgyblion sydd yn rhugl yn y Gymraeg yn dewis astudio Cymraeg fel ail iaith yn yr uwchradd. Mae hyn yn fater sydd wedi ymddangos ar hyd a lled Cymru dros y blynyddoedd ac sy'n dal i godi yng Ngwynedd; mae rhieni a disgyblion yn gweld Cymraeg fel ail iaith yn opsiwn mwy deniadol, am eu bod o'r farn ei bod yn fwy tebygol y bydd y disgybl yn cael graddau gwell na phetai'n astudio Cymraeg iaith Gyntaf. Mae'r ddadl gan rieni fod hyn yn ymddangos yn well ar CV eu plentyn yn golygu felly bod carfannau o ddisgyblion rhugl yn y Gymraeg yn astudio Cymraeg fel ail iaith yn ysgolion Gwynedd. Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i ddisgyblion ddod yn gwbl rugl a hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg, dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi ysgolion â'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn egluro manteision astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn llawn i ddisgyblion a rhieni.

Blaenoriaethau Thema 3: Defnydd Iaith a'r Cwricwlwm

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

- Y3.1** - mae angen eglurder ar ddisgwyliadau'r ysgolion mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi dwyieithog
- Y3.2** - mae angen eglurder pellach ar ddewis cyfrwng iaith astudio a sefyll arholiadau'r disgyblion gan werthu manteision dwyieithrwydd a darpariaethau addysg uwch cyfrwng Cymraeg
- Y3.3** - cynnwys materion ieithyddol penodol mewn agweddau cwricwlaidd megis ABCh, ADCDFE a CEB (dan adain y Bac Cymreig)

Lefel Sirol:

- S3.1** - sefydlu strwythur/polisi cadarnach i atal colled ieithyddol rhwng cyfnodau allweddol ac yn benodol CA2 - CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a chontinwmm ieithyddol cadarn

4.4 Defnydd iaith Disgyblion y Tu Hwnt i'r Dosbarth

Hanfod yr arolwg hwn oedd edrych ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth, gan adnabod y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu defnydd iaith a chynnig argymhellion ar ddulliau o fynd i'r afael â hyn.

Yr hyn a geir o dan y pennawd hwn yw'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg wrth drafod defnydd cymdeithasol y Gymraeg gan ddisgyblion, a oedd yn ganlyniad i drafodaethau pob grŵp ffocws (oedolion a disgyblion), ynghyd â chanlyniadau cwestiynau meintiol blwyddyn 9.

Mae'r darn isod yn ymwneud â defnydd y Gymraeg gan ddisgyblion yn yr ysgol, ac nid yw'n ymhél â'r gymuned. Rhoddwn sylw i ddefnydd iaith disgyblion y tu hwnt i'r dosbarth o safbwynt:

- Adnabod y disgyblion sy'n dueddol o siarad Cymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol
- Y cyswllt rhwng defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac oed y disgybl
- Cyd-destunau anffurfiol yr ysgol
- Dwysedd y gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg presennol

Adnabod y disgyblion sy'n dueddol o siarad Cymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol

Yn gyffredinol, mae cyswllt cryf rhwng defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o gylch yr ysgol a hyfywedd y Gymraeg yn y gymuned ehangach sy'n gwasanaethu'r ysgolion hynny. Mae'r ffaith bod carfannau o ddisgyblion yn dod o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei harddel yn y gymuned gan ganran uchel o bobl yn ffactor dylanwadol iawn ar ddewis iaith y disgyblion hynny â'i gilydd yn yr ysgol. Gwelir arwyddion cynnar o ddirywiad ieithyddol mewn sawl ysgol ac ardal lle'r oedd y Gymraeg yn hanesyddol yn gryf, ac felly mae'r sefyllfa a fu'n gadarn yng Ngwynedd bellach yn cael ei herio.

Mae ambell ysgol yn eithriad i hyn gyda rhai disgyblion yn teithio o'r tu hwnt i ddalgylch naturiol yr ysgol er mwyn dewis addysg sy'n cynnig llai o Gymraeg. Mewn rhai ardaloedd mae'r iaith sydd yn datblygu yn y sector cynradd yn fater i'w ganmol gyda nifer y disgyblion yn cael Lefel 4 yn y Gymraeg, ond mae angen sicrhau dilyniant i hyn yn y sector uwchradd. Mae nifer o rieni symudol mewn ardaloedd penodol oherwydd eu swyddi, ac mae hyn yn medru gwneud y sefyllfa'n fwy heriol i'r ysgol.

Gellir gweld patrwm cryf rhwng y Gymraeg a siaredir gan ddisgyblion o gylch yr ysgol ac iaith y cartref. Mae canran y disgyblion sy'n dod o gartrefi Cymraeg yn cymharu'n uchel ag ysgolion eraill yng Nghymru. O ran disgyblion blwyddyn 9 a holwyd ar draws y sir gyfan, nodwyd gan 44% mai Cymraeg oedd prif iaith eu

cartref (mae hyn yn amrywio o 72% mewn un ysgol i 9%, gydag 8 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd o 44%). Yn yr ysgolion hynny lle mae carfan uchel o ddisgyblion a chanddynt gyswllt â'r Gymraeg yn y cartref, mae modd dadlau bod mwy o debygolrwydd symud tuag at sefyllfa yn y lleoliadau hynny lle y bydd y mwyafrif yn defnyddio eu Cymraeg yn naturiol o gylch yr ysgol. Yn amlwg, mae hyn yn ffactor anos dylanwadu arno. Yn yr ysgolion hynny lle mae nifer helaeth o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith, mae'r Gymraeg i'w chlywed yn gwbl naturiol ar draws yr ysgol, a hynny am mai'r Gymraeg yw'r iaith gyffredin a naturiol iddynt. Mewn ychydig o ysgolion, mae'r Gymraeg yn iaith gymdeithasol fwyafrifol mewn sawl cyd-destun gwahanol, â phocedi o Saesneg yn cael ei siarad gan griwiau penodol.

Mae enghreifftiau ym mhob ysgol o ddisgyblion, sy'n dod o gartrefi lle mae o leiaf un rhiant yn medru'r Gymraeg, yn dewis siarad Saesneg yn gyson â chriw penodol neu ffrindiau unigol. I'r gwrthwyneb mae enghreifftiau o ddisgyblion lle nad oes ganddynt riant sy'n medru'r Gymraeg, yn dewis siarad Cymraeg gyda chriw penodol neu ffrind unigol yn yr ysgol. Cafwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn nodi mai criwiau arbennig sy'n debygol o siarad Cymraeg â'i gilydd, e.e. bechgyn sy'n dueddol o ddod o gefndiroedd gwledig. Mae'r holl ysgolion yn unigryw a chanddynt eu carfannau penodol o ddisgyblion sy'n dueddol o ffafrio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Er bod tueddiadau a phatrymau defnydd iaith yn amlygu eu hun yn yr ysgolion, y gwir yw ei bod yn amhosib casglu pwy sydd yn debygol o ddefnyddio iaith benodol â'i gilydd; mae nifer o ffactorau'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y plant, ac fe'u hystyrir yn y bennod nesaf.

Mae hyn yn cyffwrdd ar un thema a ddarganfuwyd yn yr arolwg sef bod tuedd gan ddisgyblion, yn ddjarwybod o bosib, i osod eu cyd-ddisgyblion mewn carfannau ieithyddol penodol, a bod hyn yn gallu bod yn duedd gan athrawon hefyd. Yn hyn o beth, o safbwynt disgwyliadau ar ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg o gylch yr ysgol, casglwyd bod tuedd mewn rhai ysgolion i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg beidio â chymysgu i'r un graddau â disgyblion o gartrefi Cymraeg. Yn y grwpiau ffocws, enwyd y criwiau'n rhai 'Cymraeg' a rhai 'Saesneg'. Mae'r duedd hon o ddisgyblion yn carfanu ei gilydd yn batrwm a geir mewn rhai ardaloedd eraill yng Nghymru, yn enwedig pan fydd ysgol yn denu disgyblion o'r wlad ac o'r dref, neu o gymunedau ieithyddol gwahanol. Yr hyn sy'n bryder yn hyn o beth yw nad yw disgyblion yn rhoi cyfle i'r rhai sydd wedi'u carfanu yn rhai 'Saesneg' i ddefnyddio eu Cymraeg, ac mae tuedd gan ddisgyblion sy'n fwy cadarn eu Cymraeg ildio i'r rhai sy'n siarad Saesneg. Rhaid gofyn i ba raddau y mae'r rhai llai hyderus eu Cymraeg wedi'u cynnwys yn llawn ym mywyd Cymraeg yr ysgol.

Ceir carfan o hwyrddyfodiaid mewn nifer o ysgolion Gwynedd, ac er gwaethaf ymdrechion clodwiw'r Canolfannau i Hwyrddyfodiaid i drochi'r disgyblion yn y Gymraeg, mae effaith mewnfudo yn sicr yn dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion yn gyffredinol o gylch yr ysgol. Nodwyd gan rai hwyrddyfodiaid yn yr ymchwil nad

ydynt o'r farn eu bod yn derbyn y gefnogaeth ieithyddol angenrheidiol wedi dychwelyd i'r ysgolion uwchradd o'r Canolfannau Hwyrddyfodiaid, ac mae hyn yn sicr yn ffactor sy'n dylanwadu ar eu hyder i ddefnyddio'r iaith. Nodwyd mewn sawl ysgol bod disgyblion sydd yn gadarn eu Cymraeg yn gwatwar acenion ac ymdrechion disgyblion llai hyderus eu Cymraeg.

Nodwyd gan ddisgyblion mewn rhai ysgolion eu bod o'r farn bod athrawon yn rhoi disgwyliaid gwahanol ar ddisgyblion o ran defnydd o'r Gymraeg, a bod hynny'n gallu bod yn ddibynnol ar eu setiau dysgu. Nodwyd bod mwy o ddisgwyliaid bod disgyblion yn y setiau uwch yn defnyddio eu Cymraeg na'r rhai yn y setiau is. Mae hyn yn amlwg yn faes cymhleth, ond o safbwynt bod yn gynhwysol wrth ystyried defnyddio'r Gymraeg a rhoi'r cyfleoedd gorau i bawb ddod yn gwbl hyderus a rhugl mewn iaith ynghyd â meithrin agweddau iach at yr iaith honno, mae'n rhaid ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hyn.

Mae angen cefnogaeth felly o du'r athrawon, a chan y disgyblion eu hunain, ac amlygwyd yn yr arolwg wir angen i agor sgwrs onest ac agored ymysg disgyblion a staff yr ysgolion er mwyn rhoi cyfle i bawb ystyried themâu parthed eu hunaniaeth, perchnogaeth a defnydd holl ddisgyblion Gwynedd o'u hieithoedd a'u dinasyddiaeth sifig yn y sir.

Mae angen llunio datganiad cenhadaeth clir er mwyn gwreiddio normau yng nghydestun perthynas dinasyddion Gwynedd â'r Gymraeg. Byddai'r normau yn rhai cynhwysol a hir-arhosol.

Byddai hyn yn gosod sail ar gyfer unrhyw syniadau ymarferol fydd yn cael eu gweithredu mewn ysgolion ac yn y gymuned.

Fel rhan o'r datganiad gellid sefydlu cyfres o egwyddorion cadarn a chlr sy'n tanlinellu bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Ngwynedd, waeth beth fo cefndir y disgybl. Mae'n etifeddiaeth gyffredin i bawb sydd wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt.

Y cyswllt rhwng defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac oed y disgybl

Cynhaliwyd grwpiau ffocws â chriwiau o ddisgyblion o flynyddoedd 7, 9 a 10 yn yr arolwg ym mhob ysgol. Yn gyffredinol, ac eithrio'r disgyblion hynny sydd yn arddel eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ar lefel uchel, gyson ar hyd y blynyddoedd ysgol, gwelwyd patrwm bod defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn dirywio ar hyd taith disgybl drwy'r ysgol.


Wrth edrych yn ôl ar eu cyfnod yn yr ysgol, nodwyd gan ddisgyblion h9n yr ysgol mai'r disgyblion mwyaf tebygol o siarad Cymraeg â'i gilydd oedd disgyblion blwyddyn 7 ac 8, ac mae disgyblion h9n yn gallu gweld y dirywiad ac yn cydnabod eu bod, fel cohort, wedi newid eu defnydd iaith o'r Gymraeg i'r Saesneg dros gyfnod

o amser. Yn ogystal, wrth holi blynyddoedd iau yr ysgol, maent o'r farn y bydd eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn dirywio erbyn iddynt gyrraedd blynyddoedd hŷn yr ysgol. Y prif reswm am hyn yw am eu bod yn gweld y patrwm hwn eisoes ar waith; os mai Saesneg yw iaith fwyafrifol y disgyblion hŷn, disgyblion sydd yn rhai dylanwadol yng nghyd-destun yr ysgol, mae hyn yn effeithio'n andwyol ar ddefnydd y rhai iau o'r Gymraeg. Yn yr achosion mwyaf eithafol, mae defnydd cymdeithasol y Gymraeg yn gostwng yn sylweddol yn dilyn wythnosau cyntaf y disgybl ym mlwyddyn 7, am fod y disgybl hwnnw am gydweddu â'r hyn sydd yn dderbyniol ymhlith ei ch/gyfoedion hŷn.

Holwyd disgyblion Blwyddyn 9 am eu defnydd o'r Gymraeg ers blwyddyn 7. Dengys y graff isod y patrwm ar draws ysgolion Gwynedd. Noder bod y ganran a ddwedodd eu bod bellach yn siarad llai o Gymraeg ym mlwyddyn 9 o'i gymharu â'u cyfnod ym mlwyddyn 7 yn uwch na'r ffigur isod o 13% mewn 10 o ysgolion y sir.

Y tu allan i'r ystafell ddosbarth, faint o Gymraeg wyt ti'n ei siarad nawr i gymharu â dy gyfnod ym mlwyddyn 7?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)




Yn y trafodaethau, daeth i'r amlwg bod disgyblion hŷn yn ymwybodol bod eu dewis nhw o iaith o gylch yr ysgol yn cael effaith ar ddewis iaith y disgyblion iau; dylid manteisio ar hyn drwy weithio gyda'r disgyblion hŷn mewn modd strategol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg gyda disgyblion iau, ac wrth ddisgyblion hŷn, dylem feddwl am flynyddoedd 10 i fyny, nid y chweched yn unig (lle ceir chweched dosbarth).

Cyd-destunau anffurfiol yr ysgol

Ac eithrio'r ysgolion hynny lle mae'r Gymraeg yn gwbl naturiol i garfan helaeth o ddisgyblion, yn gyffredinol ar draws y sir, mae defnydd cymdeithasol y Gymraeg gryfaf yn y cyd-destunau mwyaf ffurfiol lle mae ffiniau a disgwyliadau ieithyddol yr ysgol wedi'u gosod yn eglur i bawb, ac wedi eu rhoi ar waith mewn modd cyson. Mae ymatebion blwyddyn 9 yn creu darlun o ddefnydd cymdeithasol y disgyblion ar draws yr ysgol.

Pan nad oes athrawon yn agos, pa iaith wyt ti fel arfer yn ei siarad â dy ffrindiau ar goridau'r ysgol?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)




O ran y nifer a nododd eu bod yn siarad Cymraeg â'u ffrindiau ar y coridorau, i gymharu â'r ffigur Gwynedd-gyfan uchod o 32%, mae'r ganran yn 8 o ysgolion y sir yn uwch na'r ffigur hwn, gyda 65% mewn un ysgol yn nodi mai Cymraeg sy'n cael ei siarad ymysg ffrindiau o gylich ar hyd y coridorau, a hynny nid am fod athrawon o gwmpas. Yn yr ysgolion oedd â'r canrannau uchaf yn dewis siarad Cymraeg â'i gilydd ar y coridor, roedd y lefel hon o Gymraeg yn parhau o'r wers i'r coridor, sydd eto'n atgyfnerthu naturioldeb y sefyllfa mewn ambell ysgol.

O ran y ganran a nododd eu bod yn siarad Cymraeg â'u ffrindiau ar iard yr ysgol, i gymharu â'r ffigur Gwynedd-gyfan uchod o 30%, mae'r ganran yn 8 o ysgolion y sir yn uwch na'r ffigur hwn, gyda 62% mewn un ysgol yn nodi mai Cymraeg sy'n cael ei siarad ymysg ffrindiau ar yr iard, a hynny nid am fod athrawon o gwmpas.

Pan nad oes athrawon yn agos, pa iaith wyt ti fel arfer yn ei siarad â dy ffrindiau ar iard yr ysgol?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)




O ran ffigurau Gwynedd gyfan felly, nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng defnydd y Gymraeg gan ddisgyblion ar yr iard, a'u defnydd ohoni ar goridorau'r ysgol pan nad oes athrawon yn bresennol. Difyr yw nodi bod cynnydd o 12% yn nifer y disgyblion sy'n siarad Cymraeg â'u ffrindiau yng nghlyw'r athrawon y tu hwnt i'r dosbarth, er nad oes cyfundrefn ysgol-gyfan i hyrwyddo'r Gymraeg yn bodoli ar hyn o bryd; pe bai pob athro'n cael ei ymbweru i ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol yn hyderus, gellid dadlau y byddai modd codi'r ganran hon.

Holwyd y disgyblion am ethos yr ysgolion. Dyma farn blwyddyn 9 Gwynedd gyfan:

Sut fyddet ti'n disgrifio naws ac awyrgylch cyffredinol yr ysgol?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



Eto, mae canfyddiad y disgyblion o naws ac ethos yr ysgolion yn amrywio fesul ysgol; o ran naws **Gymraeg a Chymreig** yn bennaf, mae'r ffigur yn uwch na'r 38% yng Ngwynedd-gyfan yn 8 o'r ysgolion. Ar y llaw arall mae canrannau 5 ysgol yn uwch na'r ffigur o 11% Gwynedd-gyfan sy'n nodi mai naws ac awyrgylch Saesneg/Seisnig sydd gan yr ysgol. Nododd y disgyblion yn yr arolwg eu canfyddiad o Gymreictod eu hysgol nhw i'w gymharu â gweddill ysgolion y sir, ac yn gyffredinol roeddent yn gydnaws â'r realiti a brofwyd yn ystod y diwrnodau ymchwil.

Dwysedd y gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg presennol

Wrth ystyried defnyddio'r Gymraeg yn naturiol y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth, casglwyd enghreifftiau lu o weithgareddau a chlybiau amrywiol yr ysgolion. Mae'r enghreifftiau'n helaeth ac yn cynnwys gweithgareddau i bob oed, megis clybiau coginio, clybiau cerdded, cyfeiriannu drwy gyfrwng y Gymraeg, garddio, radio ysgol, chwaraeon, etc.


Tra bod hyn i'w ganmol wrth iddynt roi cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn awyrgylch hamddenol, rhaid sicrhau bod disgwyliad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithgareddau hyn yn cael ei gadarnhau. Mewn nifer o enghreifftiau lle mae'r

Gymraeg yn cael ei hystyried yn 'ddiogel' o gyloch yr ysgol, mae'r defnydd o Gymraeg gan ddisgyblion yn y gweithgareddau hyn yn dilyn yr un patrwm yn gyffredinol. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau o rai ysgolion yn cynnig gweithgareddau, weithiau trwy bartneriaethau â mudiadau ieuencid lleol, lle mae'r plant yn gallu defnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.


Dyma farn disgyblion blwyddyn 9 am y gweithgareddau allgyrsiol hyn:

Faint o gyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth yn yr ysgol?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



A fyddet ti'n hoffi bod mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth yn yr ysgol? (Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



Gellir egluro'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion Gwynedd ar ei ffurf fwyaf syml yn y darlun isod. Mae amrywiaethau wrth reswm fesul ysgol, ond mae'r darlun isod yn egluro bod defnydd disgyblion o'r Gymraeg ar ei gryfaf fel arfer yn y sefyllfaoedd ffurfiol, pan fydd y disgwiliadau o ran defnyddio'r Gymraeg yn cael eu gwneud yn gwbl glir iddynt. Wrth fynd lawr y rhestr o sefyllfaoedd mae'r defnydd yn gwanhau.

Model presennol defnydd o'r Gymraeg yn ysgolion uwchradd Gwynedd

Defnydd o'r Gymraeg ar ei Chryfaf / Sefyllfaoedd Ffurfiol

- Gwersi pwnc Cymraeg (laith athro-disgybl yn y wers)
- laith athro – athro o gylch yr ysgol
- Mewn gwersi dwyieithog (laith athro-disgybl yn y wers ddwyieithog ac iaith athro-disgybl y tu hwnt i'r dosbarth)
- Mewn gwersi dwyieithog (laith disgybl-disgybl mewn gwersi dwyieithog)
- laith disgybl-disgybl y tu hwnt i'r dosbarth o fewn adeilad yr ysgol (ar hyd y coridorau/ clybiau/yn y ffreutur)
- laith disgybl-disgybl ar iard yr ysgol
- laith disgybl – disgybl ar deithiau ysgol

Defnydd o'r Gymraeg ar ei Gwannaf / Sefyllfaoedd Anffurfiol

Mae'r uchod yn ddarlun cyffredinol o batrymau defnydd iaith o gylch yr ysgol ar hyn o bryd, ond hyd yn oed ar gyfer yr ysgolion hynny lle mae'r defnydd o Gymraeg yn gymharol hyfyw, nid yw'r un ysgol yr ymwelwyd â hi mewn sefyllfa ddiogel parthed defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion; mae pob ysgol naill ai'n wynebu her sylweddol eisoes o safbwynt y cynnydd yn y defnydd o Saesneg, neu'n debygol o wynebu'r her yn y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i newidiadau cymdeithasol na ellid eu rheoli gan weithrediad yr ysgol yn unig, ond y gellid ymdopi â nhw yn well pe bai cyfundrefn ysgol-gyfan yn ei lle parthed hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'n bwysig nodi ar y cyfan, mai nad ar sail ymdrechion yr ysgol i fod yn rhagweithiol y mae'r disgyblion yn dewis siarad Cymraeg â'i gilydd, ond oherwydd ei bod yn hollol naturiol iddyn nhw wneud hynny. Mewn sawl achos, dadleuwyd na fu rheswm i roi system hybu'r Gymraeg ar waith am fod sefyllfa'r Gymraeg wedi bod yn ddigon diogel hyd yma.

Yr her o hyn ymlaen fydd sicrhau bod y Gymraeg yn ennill ei phriod le yn y cyd-destunau anffurfiol a chymdeithasol o gylch pob ysgol, er mwyn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion fyw'r Gymraeg.

Blaenoriaethau Thema 4: Defnydd Iaith Disgyblion y Tu Hwnt i'r Dosbarth

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

Y4.1 - mae angen sicrhau bod y disgyblion eu hunain yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros y sefyllfa, o safbwynt adnabod yr angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ogystal â chynnal gweithgareddau

Y4.2 - mae angen sicrhau dwysedd digonol o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg a chlybiau cyn ac ar ôl ysgol gan ddatblygu ar y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion

Lefel Sirol:

S4.1 - mae angen parhau i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn y sector uwchradd gan bwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg er mwyn datblygu sgiliau dwyieithog rhugl a chyfartal


4.5 Y Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Ddefnydd Iaith y Disgyblion

Un o brif themâu'r arolwg oedd ceisio adnabod y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y disgyblion o gylch yr ysgol. Yn yr adran hon, ceisiwn roi sylw i bob ffactor gan eu gosod fesul blaenoriaeth.

Drwy gydol y grwpiau ffocws, trafodwyd y pwnc hwn er mwyn adnabod a chael trafodaeth ddwysach ar y ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion. Mae'r pwyntiau a godwyd yn cael eu hadlewyrchu yn ogystal isod yn y cwestiwn meintiol a ofynnwyd i bob disgybl ym mlwyddyn 9 drwy'r peiriannau Qwizdom:

Y tu allan i'r ysgol, wyt ti'n meddwl bod rhai o'r canlynol yn dylanwadu ar dy ddewis di o iaith?

(Roedd hawl dewis mwy nag un ateb. Nid canrannau sydd isod ond niferoedd)




Rhaid sicrhau felly bod y cyfan o'r rhain, ynghyd â ffactorau eraill a adnabuwyd isod, yn cael eu targedu wrth hybu'r Gymraeg.

Mae'r prif ganlyniad uchod yn tanlinellu un o brif ddarganfyddiadau'r grwpiau ffocws hefyd, sef bod dylanwad y cartref ac iaith y cartref yn gryf iawn ar ymddygiad ieithyddol y bobl ifanc. Mae'n naturiol bod iaith y cartref yn un o'r prif ddylanwadau, am fod y teulu a'r cartref yn fodd o gyflwyno gwerthoedd ieithyddol a diwylliannol i'r plant o oed cynnar iawn, ac yn cael eu hatgyfnerthu ganddynt dros gyfnod o amser. Mae canfyddiad y bobl ifanc o'r Gymraeg a'i diwylliant fel arfer yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf yn y cartref, ac yn rhan o sefydlu arferion a gwerthoedd y bobl ifanc tuag at y Gymraeg.

Dengys yr arolwg bod cyswllt cryf rhwng iaith y cartref a'r iaith a siaredir yn yr ysgol gan y bobl ifanc. Gellir dadlau hefyd ei bod yn fwy tebygol y bydd person ifanc yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol os yw ei afael ar yr iaith yn gadarn drwy fod ganddo gyswllt â'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod trafodaethau'r grwpiau ffocws hefyd wedi amlygu nad yw disgybl o gartref Cymraeg o reidrwydd yn defnyddio'r Gymraeg gyda phawb yn yr ysgol, a cheir enghreifftiau i'r gwrthwyneb o ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg yn dewis siarad Cymraeg gyda chyfeillion yn yr ysgol. Mae'r sefyllfa'n gymhleth iawn, ond mae'r cartref a'r teulu'n parhau yn brif ddylanwad; os ydym o ddifrif am drafod datblygu taith y bobl ifanc ar hyd continwwm ieithyddol lle mae pawb yn cael y cyfle i fyw'r Gymraeg a dod yn gwbl hyderus a rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae'n rhaid cynnwys y cartref a'r teulu yn y sgwrs hollbwysig honno, a hynny ymhell cyn i ddisgybl gyrraedd yr ysgol, ac ar gyfnodau allweddol drwy yrfa disgybl yn yr ysgol.

Mae natur ieithyddol teuluoedd ein cymunedau yn amrywio ac mae nifer cynyddol o deuluoedd yn gymysg eu hiaith bellach. Daeth i'r amlwg yn ystod yr arolwg bod sawl achos lle mae gan ddisgybl o leiaf un rhiant sydd yn medru'r Gymraeg, ond am wahanol resymau, nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg gyda'r plentyn yn y cartref.

Os oes gen ti riant sy'n gallu siarad Cymraeg, wyt ti'n siarad Cymraeg gyda nhw fel arfer? (Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



Mae hyn yn ffenomen sy'n cael ei weld ar draws Cymru, ond mae'n bwysig nodi'r duedd hon wrth iddi ymddangos ar sawl achlysur drwy sgwrsiau yn y grwpiau ffocws gyda'r disgyblion. Mae 37% o'r sampl uchod dros Wynedd gyfan yn nodi nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg bob amser gyda'r rhiant/gwarcheidwad sydd yn medru'r Gymraeg yn y cartref. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei sefydlu'n arfer rhwng rhiant a phlentyn yn y cartref (mewn cartrefi cymysg eu hiaith neu beidio), rhaid sicrhau bod y rhiant sy'n medru'r Gymraeg yn sefydlu'r arfer o'r cychwyn cyntaf ac yn ddigon cadarn eu bwriad i ddefnyddio'r Gymraeg o hynny ymlaen. Gellir dadlau nad yw byth yn rhy hwyr i fedru newid ymddygiad ieithyddol, a bod cyfleoedd newydd ar gael i gyflwyno'r Gymraeg drwy weithgareddau penodol newydd neu gyfnodau newydd ym mywyd y cartref.

Mae angen sicrhau bod unrhyw werthoedd a chenhadaeth y bydd y sir a'r ysgol am eu trafod gyda disgyblion yn y broses o gefnogi eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg o hyn ymlaen, yn derbyn cefnogaeth ac ymrwymiad llwyr gan y cartref. Mae angen strategaeth gynnar a thymor hir, yn cynnwys gwaith wedi'i gydlynu gyda sefydliadau megis TWF, Mudiad Ysgolion Meithrin, Ysgolion Cynradd, Ysgolion Uwchradd, Addysg Bellach, Addysg Uwch a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel bod patrwm ieithyddol Cymraeg yn cael ei gychwyn o'r crud ar ffurf pecyn cyflawn. Cydnabyddir y gall hyn fod yn heriol mewn rhai achosion; er gwaethaf y gefnogaeth gyffredinol a gafwyd o du'r rhieni a holwyd yn yr arolwg, daethpwyd ar draws barn fod rhai rhieni yn y sir nad ydynt mor bybyr dros addysg Gymraeg, ac mae rhai ysgolion yn sensitif ac ymwybodol iawn o'r agwedd hon. Mae'r farn hyd yn oed yn atal rhai ysgolion rhag gweithredu'n gadarnhaol ar hyn o bryd i hyrwyddo'r Gymraeg, a rhaid sicrhau bod sgwrs a thrafodaeth yn digwydd ar lefel y cartref yn syth ar genhadaeth ieithyddol yr ysgol a'r sir.

Ffactor arall sy'n cael ei adnabod yn yr arolwg yw dylanwad cyfoedion neu gyfeillion ar iaith ffrindiau, fel sy'n cael ei gadarnhau yn y graff bar uchod. Cafwyd trafodaeth ar hyn eisoes yn yr adroddiad (4.4) ond ni ellir gorbwysleisio dylanwad unigolion a chriwiau o ffrindiau ar iaith y disgyblion eraill. Mae'r cysyniad mai "*un ffrind y mae'n cymryd i newid iaith sgwrs ffrindiau*" yn cael ei gadarnhau droeon mewn grwpiau ffocws yn ystod yr arolwg, gyda'r farn yn gryf fod criw o ffrindiau fyddai fel arfer yn siarad Cymraeg â'i gilydd yn troi i'r Saesneg o flaen rhai ffrindiau i fod yn gwrtais am eu bod hwythau'n fwy cyffyrddus yn siarad Saesneg, ac er mwyn sicrhau bod y cyfeillion hynny'n deall y sgwrs ac yn rhan lawn o'r drafodaeth. Ar y pwynt hwn, rhaid parchu sensitifrwyd y sefyllfa a derbyn mai anodd yw newid patrwm iaith criw o ffrindiau sydd wedi ei hen sefydlu os na allwn gynnig cyfle iddynt drafod dewisiadau ieithyddol yn agored, a chael cyfleoedd i fyw'r Gymraeg a dod i gyswllt â Chymraeg cymdeithasol. Mae unigolion ifanc dylanwadol yn ein hysgolion, a gellir gweithio gyda'r rhain i fod yn 'gatalyddion' cadarnhaol i hybu'r Gymraeg.

Pwynt hollbwysig arall yw dylanwad criwiau gwahanol o gyfoedion ar ei gilydd yn yr ysgolion mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg. Soniwyd eisoes fod yma garfannau o ddisgyblion yn yr ysgolion; rhai yn hyderus eu Cymraeg ac sy'n dod o gartrefi Cymraeg, ac eraill sydd naill ai'n ddysgwyr neu'n rhai nad ydynt yn dewis siarad Cymraeg â'u ffrindiau. Gwelwyd disgyblion yn cyfeirio at y rhai 'Cymraeg' yn eu plith a'r rhai 'Saesneg'. Cyn i unrhyw strategaeth iaith lwyddo o ddifrif, mae'n rhaid sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld yn rhywbeth sy'n perthyn i bawb yng Ngwynedd, a bod y rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio eu Cymraeg yn cael eu hystyried yn siaradwyr Cymraeg, waeth beth fo iaith cartref y disgybl a'u hymlyniad presennol at y Gymraeg. Yn hyn o beth, pwysleisiwn yr angen i lunio datganiad cenhadaeth clir a fyddai'n sail i unrhyw strategaeth iaith; er mwyn gwreiddio normau yng nghyd-destun perthynas dinasyddion Gwynedd â'r Gymraeg. Byddai'r normau yn rhai sy'n cynnwys pawb ac yn rhai parhaol. Y nod yw y byddai hyn yn gosod sail ar gyfer unrhyw syniadau ymarferol fydd yn cael eu gweithredu mewn ysgolion ac yn y gymuned. Fel rhan o'r datganiad dylid sefydlu cyfres o


egwyddorion cadarn a chlir sy'n tanlinellu bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Ngwynedd, waeth beth fo cefndir y disgybl. Mae'n etifeddiaeth gyffredin i bawb sydd wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt. Yn gynwysedig yn hyn hefyd sicrhau bod strategaeth yn ei lle gan ddisgyblion i gymathu hwyrdyfodiaid yng ngweithgarwch Cymraeg yr ysgol.

Mae iaith y gymuned leol wedi'i nodi gan y disgyblion yn ddylanwad ar eu defnydd o'r Gymraeg. Po fwyaf y clywir yr iaith yn y gymuned, y mwyaf tebygol y bydd i fod yn cael ei defnyddio gan y disgyblion. Mae effaith sosio-ieithyddol unigryw cymunedau'r ysgolion yn cael effaith ar ddefnydd iaith y disgyblion y tu hwnt i'r ysgol, ac mae'r ffactorau hyn yn cynnwys effaith mewnfudo a'r diwydiant twristiaeth ar rai ardaloedd penodol. Mae gwaith pellach i'w wneud ar lefel sirol i sicrhau bod cyswllt y bobl ifanc â'r Gymraeg yn y gymuned ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir.

Ffactor arall a adnabuwyd yn rhan o'r arolwg sydd yn cael effaith ar ddefnydd iaith disgyblion yw eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg, a pha mor gyffyrddus maent yn defnyddio un iaith neu'r llall. Mae disgybl sydd yn llai hyderus ei ddefnyddio o'r Gymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio Saesneg mewn cyd-destunau anffurfiol gyda chriw o ffrindiau. Wedi dweud hynny, mae darlun Gwynedd-gyfan (sampl blwyddyn 9) yn gymharol gadarnhaol:

Pa mor hyderus wyt ti'n siarad Cymraeg?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



O ran bod yn 'hyderus iawn' roedd 8 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd uchod o 51%. O safbwynt creu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth, rhaid edrych ar hyn o bryd ar gysondeb yr arlwy honno ar draws ysgolion Gwynedd, gan ddadlau nad oes digon yn cael ei wneud yn rhagweithiol er mwyn cynnig y cyfleoedd hynny i'r disgyblion siarad Cymraeg anffurfiol gyda'u ffrindiau, gan sicrhau mai Cymraeg yw prif iaith y gweithgareddau. Os nad oes cywair na geirfa anffurfiol gan rai disgyblion, rhaid sicrhau bod yr ysgol yn creu'r cyfleoedd hyn i fyw'r Gymraeg a dod i gyswllt â Chymraeg anffurfiol y tu hwnt i'r dosbarth.

O ran y pwynt hwn ar hyder, nodwyd gan ddisgyblion a staff bod diffyg hyder gan rai staff i siarad Cymraeg â disgyblion, ac mae diffyg hyder yn bodoli ymysg rhai aelodau o staff parthed hybu'r Gymraeg a'u cyfrifoldebau nhw i wneud hynny. Rhaid cynnal trafodaeth gyda'r staff a sicrhau hyfforddiant penodol i'w cefnogi.

Ffactor arall a adnabuwyd oedd iaith yr ysgolion cynradd. Drwy gydol yr arolwg, roedd disgyblion ac athrawon yn medru adnabod yr ysgolion cynradd sy'n gweithredu fwyaf cadarnhaol o safbwynt y Gymraeg yn y dalgylch, gan adnabod iaith criwiau o ddisgyblion yr ysgol uwchradd yn seiliedig ar eu hysgol gynradd. Mae'n debygol y bydd y patrwm hwn o anghysondeb yn y modd y mae ysgolion cynradd wedi mynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg yn newid dros y blynyddoedd nesaf yn dilyn llwyddiant Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd. Dylid nodi ei bod wedi dod i'r amlwg fod rhai o'r penaethiaid cynradd mewn ambell ysgol yn rhwystredig iawn ar adeg yr arolwg am y cwmp sy'n digwydd yn nefnydd y disgyblion o'r Gymraeg ar ôl iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd. Teimlir bod yr holl waith da y mae'r cynradd yn ei wneud i annog y Gymraeg yn cael ei golli heb fod strategaeth gyflawn yn bodoli eto yn yr uwchradd. Rhaid cydnabod nad ymdrech neu ddiffyg ymdrech yr ysgol uwchradd yn unig sydd ar fai yn hyn o beth, a bod disgyblion yn eu harddegau hefyd yn wynebu cyfnodau o wrthryfela yn erbyn materion o bob math, gan gynnwys iaith. Mae hyn yn cryfhau'r rhesymwaith dros greu strategaeth er mwyn cefnogi'r disgyblion i ddod yn gwbl ddwyieithog.

Ynghyd â'r pwyntiau uchod, drwy gydol yr arolwg, adnabuwyd nifer o ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion o gylch yr ysgol. Nodir isod yr holl gydrannau a adnabuwyd fydd yn gymorth i greu sefyllfa lle mae'r Gymraeg yn hyfyw o gylch yr ysgol. Dadleuwn eu bod oll yn bethau mae modd eu newid o fewn ysgol.

Ffactorau Ysgol-gyfan sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith disgyblion o gylch yr ysgol: Gosod y nod

Strategaeth ysgol-gyfan gadarnhaol, gref yn bodoli i hybu'r defnydd o'r Gymraeg (mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol), sydd wedi ei deall gan bawb, a'i harwain gan yr Uwch Dîm Rheoli a'i chefnogi gan y Corff Llywodraethu

Yr holl staff yn gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol ac yn ymwybodol o'u rôl

Cyfleoedd i staff a disgyblion drafod iaith a hunaniaeth er mwyn rhoi cyfle i bawb feithrin agweddau iach at y Gymraeg

Yr ysgol wedi llwyddo i gymathu mewn fudwyr (ar ôl cyfnod yn y Ganolfan Iaith) gyda Chymry Cymraeg cadarn

Cyfleoedd i ddisgyblion o bob oed fyw'r Gymraeg a defnyddio Cymraeg anffurfiol o gylch yr ysgol Disgyblion hŷn a chatalyddion dylanwadol yn cael eu defnyddio i hybu'r Gymraeg

Perthynas ragweithiol a llwyddiannus gyda mudiadau a sefydliadau yn y gymuned leol i gefnogi Cymreictod yr ysgol

Manteision y Gymraeg yn cael eu cyfathrebu'n eglur i'r holl fudd-ddeiliaid trwy gydol cyfnod y disgybl yn yr ysgol ac wrth bontio i'r ysgol

Perthynas adeiladol gyda rhieni'r ysgol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg a manteision y Gymraeg

Blaenoriaethau Thema 5: Y Ffactorau sy'n Dylanwadu ar Ddefnydd iaith y Disgyblion

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

Y5.1 - Cynyddu hyder yn nefnydd y Gymraeg gan ddisgyblion a staff yr ysgol

Y5.2 - Targedu'r prif ddylanwadau ar ddefnydd iaith y disgyblion fel y nodwyd yn yr arolwg

Lefel Sirol:

S5.1 - Llunio Datganiad Cenhadaeth er mwyn gwreiddio normau yng nghyd-destun perthynas dinasyddion Gwynedd â'r Gymraeg. Byddai'r normau hyn yn rhai cynhwysol a hir-arhosol

S5.2 - Sicrhau fod y Datganiad Cenhadaeth yn sail ar gyfer unrhyw syniadau ymarferol fydd yn cael eu gweithredu mewn ysgolion ac yn y gymuned. Fel rhan o'r Datganiad gellid sefydlu cyfres o egwyddorion cadarn a chlir sy'n tanlinellu bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Ngwynedd, waeth beth fo cefndir y disgyblion. Mae'n etifeddiaeth gyffredin i bawb sydd wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt

4.6 Agweddau Tuag at y Gymraeg

i) Disgyblion


Yn gyffredinol, mae agweddau'r disgyblion tuag at y Gymraeg yn gadarnhaol iawn ar draws ysgolion Gwynedd, ac mae'r disgyblion yn falch eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac yn gweld y Gymraeg yn berthnasol i'w bywydau. Mewn ambell ysgol lle mae'r Gymraeg yn iaith gwbl naturiol ac yn cael ei defnyddio'n helaeth ym mhob cyd-destun, nid oedd y disgyblion o reidrwydd yn arddangos y balchder hwn yn gryf iawn; nid oedd yr iaith yn cael ei hystyried ganddynt yn rhywbeth emosiynol, ond yn hytrach yn ffordd naturiol o fyw. Yn gyffredinol ar draws yr ysgolion, er bod agweddau'n iach tuag at y Gymraeg, nid ydynt o reidrwydd yn troi'n arfer ieithyddol bob tro.

Ar y cyfan, prin iawn yw'r disgyblion yn yr ysgolion a chanddynt agweddau sy'n ymddangos yn negyddol neu'n heriol at y Gymraeg. Wedi dweud hynny, cafwyd enghreifftiau unigol o ddisgyblion a oedd yn teimlo bod gan garfannau mawr o ddisgyblion yn eu hysgol agweddau negyddol at y Gymraeg a dylanwad mawr yn hyn o beth, a bod hyn yn gallu arwain at sefyllfa lle bod y plant naturiol Gymraeg yn gwrthod siarad Cymraeg yn yr ysgol, rhag tynnu sylw atynt eu hunain. Mae hyn eto'n cadarnhau bod angen mynd i'r afael â'r carfannau sy'n gallu digwydd rhwng y disgyblion Cymraeg a Saesneg (y siaradwyr Cymraeg naturiol, hyderus a'r di-Gymraeg dylanwadol). Daw hyn â ni'n ôl at yr angen i greu cyd-ddealltwriaeth a chenhadaeth am ddinasyddiaeth sifig yng Ngwynedd, hunaniaeth a seicoleg y Gymraeg a'r camau ysgol-gyfan sydd angen eu cymryd i newid a chefnogi hyn.


Serch hyn, mewn achosion lle mae'r Gymraeg yn gryf iawn, nid ydynt yn gweld Saesneg yn fgythiad o gwbl ac mae'r Cymry Cymraeg yn hyderus iawn ac yn y mwyafrif mewn ysgolion o'r fath. Yn yr holiadur meintiol i flwyddyn 9, gofynnwyd i'r disgyblion ymateb i'r cwestiynau isod:

Pa mor falch wyt ti dy fod yn gallu siarad Cymraeg?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



A wyt ti'n gobeithio y byddi di'n dal i siarad Cymraeg pan fyddi di'n tyfu i fyny?
(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



O edrych ar y ddau graff uchod, gwelir bod dros dri chwarter y sampl yn eithaf balch neu'n falch iawn eu bod yn medru'r Gymraeg, gyda 6% yn unig ddim yn poeni o gwbl. Ond yn yr ail graff gwelir bod 35% o'r bobl ifanc (sy'n gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd) naill ai ddim yn siŵr neu ddim yn gobeithio y byddant yn siarad Cymraeg ar ôl tyfu i fyny. Yn ogystal â'r her y mae'r agwedd hon yn ei gosod i ysgolion sy'n ceisio annog defnydd cymdeithasol yn yr ysgol, rhaid cwestiynu hefyd pa mor rhugl fydd y disgyblion hyn os ydynt yn colli gafael ar yr iaith ar hyn o bryd, a chyswllt hyn â hyder i ddefnyddio iaith a'u tebygolrwydd o ddefnyddio'r Gymraeg yn sgil hynny. Mae cyfleoedd pendant yn cael eu hamlygu i dargedu'r garfan ansicr o 24% er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael pobl cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn awr ac i ystyried eu defnydd iaith ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

ii) Agweddau Budd-ddeiliaid Eraill

Drwy gydol grwpiau ffocws yr arolwg, profwyd agweddau rhanddeiliaid eraill yr ysgolion parthed y Gymraeg. Yn gyffredinol, roedd y grwpiau cyfan yn dangos awydd i symud yr ysgol ar hyd continwmm ieithyddol o ran annog defnydd cymdeithasol y Gymraeg, ond nid pob ysgol oedd yn teimlo'n sicr a hyderus o'r ffordd orau o fynd ati.

Daethpwyd ar draws agweddau ychydig yn fwy gwrthwynebus tuag at y Gymraeg mewn rhai achosion, a hynny o ran ambell aelod o Gorff Llywodraethol ysgolion, staff ac ambell riant. Mae'r agweddau hyn at iaith yn naturiol ynghlwm â gwerthoedd yr unigolion, ac felly rhaid derbyn y bydd gan bawb agweddau a chanfyddiadau gwahanol am fuddion y Gymraeg. Fodd bynnag, wrth i ni ystyried ffyrdd o annog defnyddio'r Gymraeg yng Ngwynedd, rhaid rhoi sylw i'r agweddau mwy gwrthwynebus hyn a chael ffyrdd o ymdrin â'r maes mewn modd cadarnhaol.

Yn hyn o beth, bydd angen gwneud gwaith i egluro cenhadaeth y sir, megis datblygu unigolion cwbl ddwyieithog erbyn gadael yr ysgol ac ystyried pob person ifanc yng Ngwynedd yn siaradwyr yr iaith Gymraeg, ac egluro manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y Gymraeg.

Bydd hyn oll, maes o law, yn cynorthwyo ysgolion i gael mandad i weithredu i hybu'r Gymraeg, os yw'r holl fudd-ddeiliaid yn credu yn yr un genhadaeth.

Blaenoriaethau Thema 6: Agweddau Tuag at y Gymraeg

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

Y6.1 - sicrhau prosesau a gweithgareddau i feithrin agweddau iach tuag at y Gymraeg

Y6.2 - creu cyfleoedd i gynnal deialog onest am hunaniaeth, Cymreictod a defnydd iaith ar lefel ysgol-gyfan

Y6.3 - sicrhau perchnogaeth a chefnogaeth y disgyblion am unrhyw faterion wrth fynd ati i weithredu er lles y Gymraeg

Lefel Sirol:

S6.1 - marchnata'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd yn gadarnhaol i holl drigolion Gwynedd


4.7 Y Gymraeg y Tu Hwnt i'r Ysgol

Trafodwyd defnydd iaith y disgyblion yn y gymuned gyda phob grŵp ffocws, a bu hefyd yn drafodaeth yn y gweithdy cynllunio yn Nant Gwrtheyrn. Er mwyn diogelu defnydd iaith Gymraeg cwbl naturiol ymysg plant a phobl ifanc yn yr ysgolion, rhaid sicrhau partneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned, ac ni ellir disgwyl y bydd ymdrechion ysgol yn unig yn ddigon er mwyn sicrhau defnydd naturiol o'r Gymraeg yn anffurfiol heb fod y bobl ifanc yn gweld cyfleoedd real i fyw eu bywydau yn Gymraeg. O ystyried y prif ddylanwadau a nodwyd eisoes gan y disgyblion, gwelwn y gymdogaeth a'r gymuned ehangach a'r teulu yn bartneriaid allweddol yn yr ymdrech i hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan bobl ifanc yng Ngwynedd.

Fel y gwelir isod, Mae'r darlun cyffredinol yn y sir yn rhoi gwaelodlin gadarnhaol o safbwynt cyswllt y bobl ifanc â'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol, gyda 57% o ddisgyblion yr arolwg yn siarad Cymraeg bob dydd y tu allan i fywyd yr ysgol. Dim ond 14% o'r sampl sydd yn dweud nad ydynt byth yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.


Pa mor aml wyt ti'n siarad Cymraeg y tu allan i fywyd yr ysgol?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)



Holwyd disgyblion blwyddyn 9 ynglŷn â'u defnydd mewn gwahanol beuoedd yn y gymuned fel y dangosir isod. Mae'n ddarlun cadarnhaol, a dim ond 150 o ddisgyblion o'r sampl sy'n dweud nad ydynt byth yn defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol. Rhaid cofio mai blwyddyn 9 yn unig yw'r sampl hwn, ac felly mae'r gwir niferoedd ym mhob ysgol yn debygol o fod yn uwch na hyn. Rhaid sicrhau ar lefel sirol, bod cyfleoedd deniadol yn cael eu cynnig er mwyn i bawb weld y Gymraeg yn berthnasol i'w bywydau a bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol a chymdeithasol.

**Ym mha sefyllfa oedd wyt ti'n siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol fel arfer?
(roedd hawl dewis mwy nag un ateb - nid canrannau sydd isod ond niferoedd)
(Nifer yn y sampl: 724)**



i) Ffactorau dan reolaeth y Cyngor Sir

Un thema a godwyd mewn nifer o ysgolion, y mae'n rhaid rhoi sylw iddi, oedd Canolfannau Hamdden a Chlybiau Ieuencid y sir. Nodwyd ar sawl achlysur bod disgyblion yn mynychu clybiau pêl-droed, rygbi, pêl-rwyd neu wersi nofio yn y Canolfannau Hamdden, a chafwyd enghreifftiau o ddisgyblion yn mynychu clybiau ieuencid yn yr ardal. Wrth holi am ddefnydd iaith arweinwyr y clybiau a'r cymdeithasau dan sylw, cafwyd nifer o enghreifftiau gan ddisgyblion o staff y sefydliadau dan sylw a oedd yn medru'r Gymraeg yn siarad Saesneg â'r plant. Trafodwyd hyn gyda Hunaniaith yn ystod yr arolwg. Deallwn fod ychydig o waith ymwybyddiaeth iaith wedi'i wneud eisoes gyda swyddogion Clybiau Ieuencid Gwynedd, ond mae'n amlwg nad yw'r Gymraeg yn cael ei chynnig yn ddigon rhagweithiol gan y swyddogion hynny sy'n medru'r Gymraeg ar draws yr ardal.

Mewn un rhan o'r arolwg, trafodwyd y sefyllfa gyda rheolwr y Gwasanaeth Ieuencid a'r Canolfannau Hamdden. Cadarnhaodd fod pob swyddog yn medru'r Gymraeg a'i fod yn sgil hanfodol ar gyfer y swydd ond nad oes monitro swyddogol yn digwydd o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Mae arweinyddion clybiau ieuencid i gyd yn medru'r Gymraeg ond eto nid oedd modd cadarnhau eu defnydd o'r Gymraeg. Maent yn ceisio cael siaradwyr Cymraeg i wneud sesiynau yn y clybiau, ond nid yw'n bosib bob tro ac weithiau rhaid defnyddio pobl ddi-Gymraeg, gydag arweinydd y clwb yno i annog y Gymraeg. Nodwyd bod pobl ifanc yn ymwybodol iawn o Gymreictod o fewn ffiniau'r ysgol ond eu bod y tu allan i'r ysgol am wrthryfela yn erbyn y Gymraeg; ffactor sy'n gallu amharu ar iaith y gweithgareddau.

Mae gan swyddogion ieuenctid ac arweinwyr cymunedol ddylanwad mawr dros bobl ifanc, ac felly mae angen edrych ar ddarpariaeth gymunedol y sefydliadau hyn yn fanwl a chynnig cynllun cadarnhaol a chymorth iddynt ddefnyddio'u Cymraeg ymysg ei gilydd a chyda'r bobl ifanc.

Rhaid ystyried effaith polisïau cynllunio a pholisïau economaidd y Cyngor Sir ar gymunedau cynhenid Gymraeg a hynny ar sefyllfa ieithyddol ysgolion y sir, am fod ganddynt y grym i gryfhau neu i wanhau sefyllfa'r ysgol.

ii) Ffactorau nad ydynt dan reolaeth y Cyngor Sir

Nodwyd mewn rhai ardaloedd bod rhai clybiau pêl-droed a rygbi lleol yn dilyn yr un duedd, sef nad yw'r hyfforddwyr sy'n medru'r Gymraeg yn defnyddio eu Cymraeg gyda'r plant. Efallai y bydd dylanwad Cyngor Gwynedd ar y sefydliadau lleol hyn yn llai pwerus, ond mae'n bosib trwy bartneriaeth gyda Hunaniaith a/neu'r ysgol, y gellid rhoi cynlluniau penodol ar waith i hybu'r Gymraeg mewn clybiau lleol.

O ran amser hamdden y bobl ifanc yn eu cymunedau, felly, y prif weithgarwch a nodwyd gan bobl ifanc ar draws Gwynedd oedd amryw glybiau a gweithgareddau chwaraeon, Clybiau Ieuenctid yr Awdurdod Lleol, Clybiau Ffermwyr Ifanc a Chanolfannau Hamdden. O safbwynt y gallu i fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r ysgol, mae hyn yn amrywio ar draws y Sir. Cafwyd enghreifftiau o ddiffyg darpariaeth Gymraeg yn gyfan gwbl mewn rhai ardaloedd, gydag ardaloedd eraill yn byrlymu â gweithgarwch Cymraeg. Mae'r Clybiau Ffermwyr Ifanc wedi cael eu nodi ar sawl achlysur yn yr arolwg fel enghraifft o weithgarwch llwyddiannus cyfrwng Cymraeg. Yn gyffredinol hefyd, cafwyd galw gan ddisgyblion am ragor o gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg mewn gweithgareddau cymunedol ar draws yr ardal.

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda swyddogion o'r Urdd a'r CFFI yn ogystal. O ran gweithgarwch yr Urdd yn gymunedol, nodwyd ganddynt fod hyn yn cynnwys darparu adrannau ac aelwydydd, cystadlaethau chwaraeon, eisteddfodau, teithiau i Lan-llyn ac amryw o lefydd eraill. Mae'r rhai sy'n mynychu gweithgareddau'r Urdd fel arfer yn dewis dod achos bod nhw'n rhugl a hyderus yn y Gymraeg. Mae ambell un yn siarad Saesneg ond maent fel arfer yn cael eu bodd gan y Cymry Cymraeg. O safbwynt cyswllt ar gyfer yr Urdd â phob ysgol, soniwyd bod angen cryfhau hyn gan godi ymwybyddiaeth yr holl staff o gyfleoedd yr Urdd. Pe bai mwy o gyllid ar gael nodwyd y byddent am gael rhagor o rôl o fewn yr ysgolion.

O ran y CFFI, mae gweinyddiaeth y mudiad yn yr ardal yn gwbl Gymraeg ac mae pob dim yn ei gynnal yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes galw iddynt wneud pethau'n ddwyieithog. Nodwyd nad oes angen monitro'r sefyllfa ar hyn o bryd, am fod y staff yn siaradwyr Cymraeg a'r holl wirfoddolwyr hefyd yn siarad Cymraeg.

Nodwyd mewn sgwrs gyda'r Urdd eu bod hwythau a'r CFFI yn mynychu fforwm iaith a drefnir gan Hunaniaith ond nad yw'r gwasanaeth ieuenctid yn rhan ohono. Mae pob partner yn cael y cyfle i adrodd ar weithgareddau, a nodwyd y byddai'n dda gallu trefnu mwy ar y cyd.

Nodwyd gan yr Urdd a'r CFFI mai ffrindiau oedd y prif ffactor o ran dylanwadu ar ddefnydd iaith pobl ifanc tu allan i'r ysgol. Mae'r sgwrs yn dueddol o droi i'r Saesneg os oes un ffrind llai hyderus yn y gr*ip. Nodwyd bod cyfryngau cymdeithasol yn her am fod pobl ifanc yn dueddol o ddefnyddio Saesneg ar Facebook a Twitter.

Nodwyd delwedd y Gymraeg hefyd fel her, gyda rhai pobl ifanc yn credu ei bod yn llai c*I i siarad Cymraeg. Roedd pawb yn gytŷn ei fod yn anodd iawn newid arferion iaith pobl, patrymau yn cael ei sefydlu yn ifanc iawn.

O safbwynt cyfleoedd cyffredinol i bobl ifanc yn y gymuned, nodwyd bod pob mudiad ieuenctid wrthi'n mapio'r ddarpariaeth ar hyn o bryd ac mae'r mudiadau'n cydweithio. Fodd bynnag mae diffyg arian ac adnoddau dynol yn heriau sy'n wynebu mudiadau wrth geisio ehangu eu darpariaeth ym mhob rhan o'r sir.

iii) Y Cyfryngau a Chyfryngau Cymdeithasol

Yn gyffredinol fe ddengys yr arolwg bod cyfrwng iaith disgyblion ar blatfformau megis Twitter a Facebook fel arfer yn adlewyrchu iaith eu perthynas â'r ffrindiau dan sylw. Byddai dau ffrind sy'n siarad Cymraeg â'i gilydd yn debygol o wneud sylwadau yn Gymraeg wrth ei gilydd ar Facebook. Roedd hyn yn arbennig o wir am iaith negeseuon testun at ffrindiau sy'n medru'r Gymraeg, am fod yr iaith yn bersonol rhwng y ddau berson hwnnw. Dywedodd disgyblion bod mwy o dueddiad tua'r iaith Saesneg ar Facebook, gan fod y cylch ffrindiau sy'n craffu ar y dudalen yn ehangach na neges destun 1:1.


Wedi dweud hynny, rhaid rhoi sylw i'r ffaith nad yw defnydd iaith pobl ifanc yn perthyn i beuoedd penodol, sefydlog bob tro. Am fod dylanwad y Saesneg yn gryf ar fywydau'r mwyafrif ohonom, mae'n naturiol bod Cyfnewid Codau Iaith, neu *Code Switching* yn digwydd, yn ddiarwybod i raddau helaeth, wrth i bobl ifanc heddiw gyfathrebu.

Yr hyn a welwyd mewn sawl achos yn yr arolwg oedd bod y bobl ifanc yn cyfnewid yn ôl a 'mlaen rhwng y Gymraeg a'r Saesneg (geiriau ac ymadroddion hirach mewn rhai achosion) wrth sgwrsio â'i gilydd ac wrth gyfathrebu yn electronig.

Caiff yr arfer yma o gyfnewid codau iaith ei ddangos yn glir i ni yn eu defnydd o negeseuon testun, yn y graff isod.

Wrth anfon neges destun at ffrindiau sy'n gallu siarad Cymraeg, pa iaith wyt ti'n debygol o'i defnyddio?

(Sampl: Holl ddisgyblion Blwyddyn 9 Gwynedd gyfan)




Er bod nifer helaeth yn dewis cyfathrebu yn Gymraeg, mae'r uchod yn batrwm o gymhlethdod y sefyllfa ieithyddol.

Holwyd y bobl ifanc hefyd am eu hymwybyddiaeth o gerddoriaeth a theledu Cymraeg, a'u hymwneud â'r rhain gartref. Mae disgyblion yn ymwybodol o raglenni Cymraeg drwy S4C a Clic, ac roedd rhaglenni poblogaidd ym mhob ysgol yn cynnwys C'mon Midffild, Stwnsh, Y Gwyll, Sgorio, ynghyd â rhaglen Tudur Owen ac C2 ar Radio Cymru ac eraill mewn ambell ardal yn nodi Radio Refail, Heart FM a Capital FM. Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth ar draws y Sir gan ddisgyblion nad oes digon o raglenni addas ar y teledu ar gyfer pobl ifanc. Holwyd y cwestiwn meintiol canlynol i'r disgyblion.

O edrych ar y graff isod, o safbwynt edrych ar ddylanwad y cyfryngau ar ddefnydd iaith y disgyblion, rhaid rhoi sylw i'r ffaith nad yw dros hanner y disgyblion yn gwylio rhaglenni Cymraeg gartref. Wedi dweud hynny, mae 31% ohonynt yn treulio chwarter eu hamser gwylio teledu yn gwylio rhaglenni Cymraeg, a'r 11% sy'n weddill yn treulio hyd at 50%-100% o'u hamser gwylio teledu yn gwylio rhaglenni Cymraeg.

Fodd bynnag, mae angen gwaith i godi ymwybyddiaeth am raglenni Cymraeg yn y cartref, a sicrhau bod llais a barn pobl ifanc o bob rhan o Gymru'n cael ei adlewyrchu yn y rhaglenni a gomisiynir.

O'r holl amser rwyd ti'n treulio yn edrych ar raglenni ar y teledu/we, faint o'r amser hwnnw sydd ar raglenni Cymraeg?



Blaenoriaethau Thema 7: Y Gymraeg y Tu Hwnt i'r Ysgol

Wrth grynhoi canfyddiadau'r thema hon, credwn fod y prif flaenoriaethau fel a ganlyn, ar lefel ysgol a lefel sirol. Nodir yr argymhellion i gyd-fynd â'r blaenoriaethau yn adran 7 o'r adroddiad hwn.

Lefel Ysgol:

Y7.1 - datblygu dimensiwn cymunedol ac esgor ar gyfleoedd i ddisgyblion, yn enw'r ysgol, i ryngweithio gyda chymdeithasau a mudiadau lleol, er mwyn i'r disgyblion gael pob cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg (yn enwedig y llai sicr / llai hyderus) mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r ysgol

Y7.2 - hyrwyddo a marchnata'r darpariaethau cymunedol Cymraeg sydd ar gan Gyngor Gwynedd a mudiadau eraill

Lefel Sirol:

S7.1 - sicrhau bod Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol gyda rhaglen lawn o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg

S7.2 - sicrhau bod Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol gyda rhaglen lawn o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg

S7.3 - sicrhau strategaeth sirol er mwyn creu cyfleoedd i bob person ifanc yng Ngwynedd fedru defnyddio gwasanaethau cymunedol yn Gymraeg, ym mha bynnag ran o'r sir y maent yn byw ynddi

S7.4 - sicrhau bod polisi tai a chynllunio Cyngor Gwynedd yn ystyried ardrawiad datblygiadau tai a mewnlifiad ar y Gymraeg yng nghymunedau'r sir. Yn ei dro, ystyried yr effaith hwnnw ar iaith gymdeithasol disgyblion yr ysgolion lleol

5. GWEITHDY POBL IFANC GWYNEDD, NANT GWRTHEYRN

Trefnwyd gweithdy diwrnod yn Nant Gwrtheyrn ar ddiwedd tymor yr haf er mwyn cael mewnbwn pobl ifanc Gwynedd i ddatblygu dilyniant i'r Siarter Iaith Cynradd.

Y nod oedd ymchwilio'n fanylach, a dechrau casglu syniadau ymarferol a strategol gan ddisgyblion yr ysgolion ar ddulliau o ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu defnydd iaith. Penderfynwyd estyn gwahoddiad i dri chynrychiolydd o bob ysgol uwchradd (un disgybl o bob cyfnod allweddol) ynghyd â Phencampwr y Gymraeg o blith staff yr ysgolion. Gwahoddwyd pob ysgol yn y sir, a mynychwyd y diwrnod gan 11 ysgol.

Mae prif argymhellion y bobl ifanc a gyflwynwyd inni yn y gweithdy wedi'u cynnwys yn yr Argymhellion ar ddiwedd y ddogfen hon. Rhaid pwysleisio cymaint oedd gwerth cynnal gweithdy o'r fath; roedd ymateb y disgyblion i her y Gymraeg ynghyd â'u syniadau strategol yn ysbrydoli.

Argymhellwn yn sicr fod angen trefnu fforwm o'r fath yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod llais y disgybl wrth wraidd unrhyw strategaeth i hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd, a'u bod yn rhan ganolog o unrhyw gynlluniau i'r dyfodol er mwyn sicrhau perchnogaeth lawn, yn unol â'u dymuniad.

Dyma rannu rhai o brif argymhellion y bobl ifanc yn ystod y diwrnod. Yn dilyn trafodaethau helaeth yn y bore am eu defnydd presennol o'r Gymraeg ac i ymateb i rai heriau ieithyddol a osodwyd iddynt, gofynnwyd iddynt fesul grŵp i roi gwybod y math o rôl y dylai'r budd-ddeiliaid isod ei gael wrth hybu'r Gymraeg ar lefel ysgol-gyfan. Rhoddwyd cyfle i bob grŵp drafod pob thema.

Argymhellion Ysgol-gyfan y Disgyblion

(Cyfeirir atynt yn y Prif Argymhellion yn adran 7 hefyd)

5.1 Rôl Athrawon

- Mae angen delio â'r defnydd o Gymraeg a Saesneg drwy wneud pethau ymarferol ac agor sgwrs am y Gymraeg. Canolbwyntio ar ymateb yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol.
- Mae angen trafod gyda'r disgyblion pam fod yr iaith yn bwysig, gan gyflwyno'r manteision a cheisio cysylltu'r Gymraeg â manteision economaidd
- Dylai athrawon gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg os yw'r disgybl yn deall Cymraeg, a pheidio troi i'r Saesneg gyda disgyblion ail-iaith
- Hybu ac annog y disgyblion i siarad Cymraeg
- Sefydlu uned iaith sirol i'r athrawon er mwyn gwella eu sgiliau/hyder Cymraeg

5.2 Rôl Rhieni

Nodwyd ganddynt mai rhieni sydd â'r dylanwad mwyaf

- Cynnig cefnogaeth ac anogaeth i rieni di-Gymraeg.
- Y Sir/ yr ysgol i sefydlu Cyrsiau Cymraeg i rieni.
- Ceisio annog rhieni i danlinellu pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg i'w plant a phwysleisio cyswllt hyn â datblygiad eu plant. Angen i rieni wybod mwy am bwysigrwydd yr iaith pan mae'r plant yn fach
- Angen bod y rhieni yn dangos esiampl drwy siarad Cymraeg gartref
- Ni ddylai ysgolion gael eu dylanwadu gan agweddau gwrth-Gymreig rhai rhieni-angen hyder ar yr ysgolion er mwyn peidio â chyfaddawdu ar yr iaith
- Dylai rhieni hybu plant i ddarllen Cymraeg, gwyllo ambell i raglen Cymraeg a hybu cerddoriaeth
- Cymraeg, eu hannog i fynd i glybiau Cymraeg e.e.nofio, pêl-droed

5.3 Mudiadau Cymunedol

- Arweinwyr mudiadau cymunedol i fynd ar sesiwn ymwybyddiaeth iaith.
- Gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar benodiad swyddi mewn mudiadau cymunedol (*hyn eisoes yn digwydd i raddau helaeth*)
- Llywodraeth Cymru a'r Cyngor i roi cymorth ariannol i fusnesau cymunedol sy'n cynnig gweithgareddau yn y Gymraeg.
- Gwneud pob gweithgaredd hamdden/cymdeithasol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceisio hybu'r sector breifat hefyd.
- Sicrhau bod teuluoedd di-Gymraeg yn cael cyswllt â gweithgareddau cymdeithasol a hamdden Cymraeg er mwyn iddynt ddysgu Cymraeg.
- Angen rhagor o glybiau cyfrwng Cymraeg ym mhob rhan o'r sir – nid yw'r rhai presennol yn cael eu marchnata'n ddigonol chwaith.

5.4 Rôl Disgyblion

- Angen i ysgolion ddod at ei gilydd i siarad am y Gymraeg
- Sefydlu grŵp newydd yn canolbwyntio ar y Gymraeg yn unig
- Penodi swyddog iaith yn yr ysgolion i hybu'r Gymraeg
- Dylai'r disgyblion eu hunain wneud ymdrech i siarad Cymraeg os yw hi'n ysgol Gymraeg
- Datblygu Cymraeg Anffurfiol: Gwersi anffurfiol i ddisgyblion sgwrsio yn y Gymraeg.
- Angen i'r disgyblion gychwyn sgwrs yn y Gymraeg.
- Cyflwyno pwnc trafod i ddisgyblion: a yw unigolion yn deall yr effaith y mae un yn cael ar iaith criw cyfan?
- Angen rheolau pendant ynglŷn â siarad Cymraeg

- Angen i holl weithgareddau'r ysgol fod ar gael yn Gymraeg
- Mwy o glybiau Cymraeg a chyfleoedd i siarad Cymraeg yn anffurfiol yn yr ysgol
- Angen i ddisgyblion hyderus siarad Cymraeg gyda disgyblion llai hyderus
- Diwylliant: Sefydlu radio ysgol a chynnal gigs Cymraeg. Potensial cynnal radio Gwynedd-gyfan?
- Siarad Cymraeg yn syth gyda phlant newydd sy'n dod i fyny i'r ysgol ag yn ystod wythnos pontio er mwyn sefydlu arferion iaith
- Cael 15 munud amser cofrestru i gael gwersi Cymraeg ychwanegol.
- Hyrwyddo'r Gymraeg ar lefel weledol o gylch yr ysgol (Bathodynau, posteri, hysbysebion, cyhoeddiadau i hyrwyddo pobl i siarad Cymraeg)

5.5 Rôl Cyngor yr Ysgol

Yn gyffredinol, cytunwyd nad yw Cyngor yr ysgol yn dylanwadu ar ddefnydd iaith

- Angen sicrhau statws, dylanwad ac effeithiolrwydd y Cyngor, ac ehangu ar y pynciau trafod i roi lle i ddefnydd iaith
- Angen strategaeth iaith gan y cyngor ysgol neu fanifesto/cynllun iaith sy'n cynnwys rhieni, disgyblion, athrawon, staff eraill a'r gymuned.
- Yr ysgol i weithredu ar syniadau'r ysgol.
- Disgyblion i ddod â materion gerbron y Cyngor ee yr iaith mae'r athrawon yn ei ddefnyddio gyda'r disgyblion.
- Cyngor yr ysgol i gael yr hawl i wahodd mudiadau iaith i ddod mewn.
- Angen rhoi llais i ddisgyblion llai hyderus eu Cymraeg.
- Angen mwy o anogaeth i siarad Cymraeg yn ystod yr awr ginio ac amser egwyl.
- Dylai pob gweithgaredd a drefnir trwy'r ysgol fod yn Gymraeg.

5.6 Rôl Staff Eraill

Disgwyliadau:

- Angen sefydlu cyfansoddiad iaith.
- Angen i'r staff ddangos esiampl
- Angen i bawb gael Cymraeg syml (dim disgwyl cyweiriau iaith ffurfiol bob tro)
- Ymgyrch cael staff i ddechrau'r sgwrs yn Gymraeg
- Gwobrwyo staff sydd yn gwneud ymdrech yn y Gymraeg
- Gyrru'r athrawon ar gyrsiau iddynt ddysgu

Y Gymraeg yn Gyntaf:

- Bathodynau 'dwi'n siarad Cymraeg' i'r staff
- Posteri i atgoffa pawb yn yr ysgol i gychwyn y sgwrs yn Gymraeg
- Cychwyn bob sgwrs gyda bob disgybl yn Gymraeg.
- Dod o hyd i ddulliau hwyl i gael staff y ffreutur i siarad Cymraeg a gosod esiampl
- Staff yn gorfod siarad Cymraeg gyda disgyblion os ydynt yn gallu.

Sgiliau iaith Gymraeg y Staff:

- Yr un rheolau pendant i staff a'r disgyblion o ran y Gymraeg
- Sefydlu uned iaith/'bootcamp' i staff.
- Dylai fod yn orfodol i holl staff yr ysgol i unai fod yn rhugl neu ddysgu Cymraeg.
- Dylai'r ysgol roi cefnogaeth i holl staff yr ysgol sydd eisiau dysgu Cymraeg i wneud hyn.

6. DULLIAU MESUR EFFAITH

Awgrymir y camau isod fel man cychwyn i fesur effaith cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn ysgolion uwchradd Gwynedd.

- 6.1 AALI i fyfyrion ar yr argymhellion ac yn sgil hynny i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r ymchwil (o fewn 3 mis i weithredu Cynllun Peilot - gweler isod).
- 6.2 Monitro penodol ar flwyddyn 7 yn nhymor yr Hydref 2015 er mwyn sicrhau parhad i'r gwaith sydd wedi ei wneud yn y Siarter Iaith yn y Cynradd. Ystyried defnyddio'r cydlynwyr iaith sydd eisoes yn bodoli rhwng y Cynradd a'r Uwchradd i fonitro hyn.
- 6.3 AALI (trwy swyddogion her) yn trafod themâu penodol ysgolion unigol gyda hwy (o fewn 6 mis).
- 6.4 Rhoi ystyriaeth i weithredu naill ai ar lefel Ysgol-gyfan o'r cychwyn neu fesul Cyfnod Allweddol - CA3 i ddechrau gyda dilyniant i CA4 a'r Chweched Dosbarth dros gyfnod o dair blynedd (2014-17).
- 6.5 Rhedeg Cynllun Peilot am gyfnod o flwyddyn mewn dwy ysgol, gan ddilyn 100 o ddisgyblion (2014-2015). Dewis ysgolion ar sail potensial/addewid i arddangos cynnydd a, thrwy hynny, i fod yn Ysgolion Arweiniol a fydd yn barod i raeadru eu harferion gorau a'u profiadau gyda'r ysgolion eraill. Gall y ddwy ysgol fod ar safleoedd gwahanol ar y 'continwmm' defnydd iaith presennol.
- 6.6 AALI i gefnogi ysgolion i greu Cynllun Gweithredu o dan adain y fframwaith gan gynnwys cynnig arlwy o hyfforddiant perthnasol, gan ymgorffori prif themâu yr Adroddiad Sirol, tra hefyd yn gwneud defnydd o'r adborth ysgol-benodol a gynigiwyd gan ddeilliannau'r ymchwil (erbyn Haf 2015).
- 6.7 Y Cynllun Gweithredu i fod yn rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol ac felly yn cael ei fonitro gan y Corff Llywodraethol a gan swyddogion yr awdurdod. Yr agwedd hon wedi ei lunio ar gyfer blwyddyn addysgol 2015-16.
- 6.8 Llywodraethwr dynodedig, Pencampwr Iaith o blith y staff a chynrychiolydd y Disgyblion ar y cyd yn monitro datblygiadau ieithyddol (yn unol â'r Cynllun Gweithredu) ac yn adrodd yn ffurfiol i'r Corff Llywodraethol.
- 6.9 AALI i gefnogi'r ysgolion wrth weithredu eu cynlluniau - cytuno ar ba flaenoriaethau i'w gosod ym mha drefn ar gyfer yr ysgol unigol. Gellir cyplysu hyn gyda nodau'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Canolbwyntio i ddechrau ar enillion cyflym i'w cyflawni o fewn blwyddyn e.e. cadarnhau ethos Gymraeg drwy sefydlu/gryfhau'r defnydd o'r iaith yn y cyfathrebu beunyddiol, gweithgareddau ysgol-gyfan, gweinyddu, arwyddion a phosteri, dogfennau a gwefannau (2014-2015).

6.10 Monitro'r canlyniadau ac arfarnu cynnydd, gan ddefnyddio amryw o ddulliau (yn barhaol), megis:

- Llunio Teclyn Hunan-asesu (tymhorol) - datblygu offeryn newydd a fydd yn mesur / meintioli defnydd anffurfiol o'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol
- Holiaduron Camau Defnydd Iaith (Llywodraeth Cymru) a / neu arolygon barn, yn benodol i gynnwys Llais y Disgybl (yn dymhorol)
- Ailymgynnull Grwpiau Ffocws (ymhen deunaw mis)
- Mesur canrannau sy'n sefyll Cymraeg Iaith Gyntaf (blynyddol)
- Mesur canrannau sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg (blynyddol)
- Cofnodi nifer y staff a gafodd gyfle i ddysgu/gloywi eu Cymraeg (blynyddol)

6.11 Yn gyffredinol (ac yn barhaus) arfarnu cynnydd drwy graffu ar:

- a) safonau
- b) defnydd
 - yn yr ysgol
 - yn y gymuned
- c) arweinyddiaeth

6.12 Ymarferwyr allanol i achredu lefel y Gymraeg gydag ymweliad i bob ysgol (bob dwy flynedd ar ôl cychwyn y Strategaeth).

Awgrymir y gellir trefnu'r pwyntiau uchod mewn tabl / matrices sydd yn nodi'r camau dros amser, megis isod:

Amser	AALI	Ysgolion
Tymor yr Hydref 2014	Llunio Cynllun Gweithredu Sirol	Myfyrio ar yr adroddiad a'r adroddiad ysgol-benodol
Tymor y Gwanwyn 2015	Lansio'r Cynllun Gweithredu	Monitro Defnydd iaith B7, gan adeiladu ar waith y Siarter Cynradd a sicrhau dilyniant Cyhoeddi Cynllun Gweithredu a'i ymgorffori'n rhan o'r CDY
Tymor yr Haf 2015	Penderfynu ar ysgolion peilot/ysgolion arweiniol Arolygu creu'r cynlluniau ysgol	Gweithredu enillion cyflym
Tymor yr Hydref 2015	Monitro'r gweithredu	Gweithredu'n parhau
Tymor y Gwanwyn 2016	ac yn y blaen (gan gwmpasu pwyntiau 1-12	
Tymor yr Haf 2016	uchod fan hyn a thraw)	

7. BLAENORIAETHAU AC ARGYMHELLION

7.1 Blaenoriaethau ac Argymhellion Lefel Sirol

Yn dilyn prif ddarganfyddiadau'r arolwg, rydym wedi blaenoriaethu'r prif themâu, a rhoi iddynt argymhellion ar gyfer eu gweithredu. Isod, rhestrir argymhellion lefel sirol at sylw Cyngor Gwynedd. Ceir argymhellion lefel Ysgol-gyfan mewn tabl ar wahân.

Blaenoriaeth	Argymhelliad	Gyda Chydweithrediad	Sut y gwyddom ein bod wedi cyrraedd y nod
1. Diffinio Natur Ieithyddol yr Ysgolion			
1.1 Mae angen diffinio categori neu lefel ieithyddol glir i bob ysgol.	<p>Mae angen i'r Cyngor ddiffinio'r nod a lefel ieithyddol eglur i bob ysgol er mwyn osgoi dryswch, a chynorthwyo'r ysgolion i ddatblygu ethos Gymraeg gan beri iddynt symud yn sylweddol ar hyd y continwmm ieithyddol.</p> <p>Sicrhau bod yr agweddau hyn yn ymblethu i strategaeth laith uwchradd y sir pan fydd y strategaeth honno'n cael ei datblygu.</p>	Ysgolion a Chynghorwyr	Cyfeiriad ieithyddol clir ar gyfer y dyfodol wedi ei bennu ar gyfer pob ysgol, fel bod yr holl ysgolion yn deall beth yw'r gofynion ar eu cyfer nhw'n unigol o ran gwireddu'r polisi sirol.

<p><u>2: Y Modd y Mae'r Ysgolion yn Hyrwyddo ac yn Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg</u></p>	<p>Sefydlu strategaeth ieithyddol uwchradd er mwyn parhau â'r gwaith arloesol sydd wedi ei wneud gyda'r Siarter Iaith yn y cynradd. Yr ysgolion i weithredu'r strategaeth a lunnir ar y cyd rhwng yr holl randdeiliaid</p> <p>Cynnwys hwn fel rhan o briff Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg.</p> <p>Rhoi eitem agenda benodol i'r Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd gan gydweithio'n agos â'r Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg</p>	<p>Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg Cyngor Gwynedd Penaethiaid Hunaniaith</p>	<p>Cyd-ddealltwriaeth wedi ei ennill o'r angen i godi lefelau defnydd iaith disgyblion ym mhob ysgol, ynghyd â dealltwriaeth lawn ar y modd o wneud hynny.</p>
---	--	---	--

	<p>Ysgolion i fonitro cynnydd drwy drefniant cytunedig. Defnyddio teclyn mesur defnydd iaith (ee Camau Defnydd Iaith Llywodraeth Cymru/addasiad o declyn mesur defnydd iaith Siarter Iaith Cynradd) ar ddechrau bob tymor gyda chohort penodol o ddisgyblion.</p> <p><i>(gellid treialu hyn â 100 o ddisgyblion mewn 2 ysgol beilot dros gyfnod penodol o amser – ar y cyd â Hunaniaith).</i></p> <p><i>Gweler Adran 6 yn yr Adroddiad ar Fesur Effaith</i></p> <p>Sefydlu Fforwm Pobl Ifanc Gwynedd fyddai'n cyfarfod yn dymhorol er mwyn rhoi mewnbwn i'r bobl ifanc ar ddulliau o gynyddu defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth. Bydd angen i drafodaethau a phenderfyniadau'r fforwm fwydo i mewn i strategaeth a goruchwyliaeth y Gweithgor/Fforwm uchod. Byddai hyn yn rhoi statws i farn y bobl ifanc.</p>	<p>Croestoriad o 3 disgybl o bob ysgol uwchradd yng Ngwynedd, Hunaniaith a swyddog perthnasol o'r Adran Addysg a chynrychiolaeth gymunedol. Pencampwyr y Gymraeg ym mhob ysgol.</p>	<p>Ysgolion wedi monitro cynnydd drwy drefniant cytunedig ac adrodd ar gynnydd.</p> <p>Y bobl ifanc yn rhan greiddiol o lywio strategaeth iaith yr ysgolion yng Ngwynedd.</p> <p>Negeseuon ac ymgyrchoedd y fforwm wedi'u cyfathrebu'n glir i randdeiliaid pob ysgol.</p> <p>Yr AALI yn monitro datblygu a gweithredu'r argymhellion lefel-ysgol (ceir mewn dogfen ar wahân) yn yr holl ysgolion.</p>
--	---	---	---

<p>2.2 Sicrhau cefnogaeth a chyfleoedd priodol i staff ddysgu'r Gymraeg neu wella eu sgiliau presennol ar sail anghenion pob ysgol</p>	<p>Mae tystiolaeth fod amryw o staff am ddysgu'r iaith neu wella'u sgiliau, ac er na all ysgol bob amser ddarparu ar gyfer pawb, gall flaenoriaethu a phenderfynu pa garfan o staff – ar sail rhaglen dreigl – ddylai gael cyfle i dderbyn hyfforddiant; byddai gwneud hynny o fewn yr oriau gwaith yn gaffaeliad, ac er mwyn cyflawni hynny gallai'r Awdurdod ystyried roi cymorth ychwanegol a phenodol i ysgolion sydd â gwaelodlin isel o ran y Gymraeg, er mwyn rhoi momentwm i'r datblygiadau.</p>		<p>Cymorth wedi ei drefnu i helpu staff i ddysgu'r iaith neu wella'u sgiliau.</p> <p>Cymorth ychwanegol a phenodol i helpu staff mewn ysgolion sydd â gwaelodlin isel o ran y Gymraeg fel bod staff yn medru dysgu'r iaith neu wella'u sgiliau.</p>
<p>3: Defnydd iaith a'r Cwricwlwm</p>			
<p>3.1 Sefydlu strwythur/polisi cadarnach i atal colled ieithyddol rhwng cyfnodau allweddol ac yn benodol CA2 - CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a chontinwmm ieithyddol cadarn</p>	<p>Sicrhau dilyniant ieithyddol rhwng CA2 a CA3 drwy bolisi trosglwyddo cadarn cynradd/uwchradd.</p>	<p>Ysgolion Cynradd ac Uwchradd</p>	<p>Lleihad yn y golled sy'n astudio Cymraeg iaith Gyntaf rhwng cyfnodau allweddol a chynnydd yn niferoedd y disgyblion sy'n astudio arholiadau pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Monitro cynnydd yn flynyddol.</p>

4: Defnydd iaith disgyblion o gylch yr ysgol			
<p>4.1 Mae angen parhau i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth i hwyrddyfodiaid yn y sector uwchradd gan bwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg er mwyn datblygu sgiliau dwyieithog rhugl a chyfartal</p>	<p>Datblygu strategaeth fwy pendant i ysgolion wrth iddynt groesawu hwyrddyfodiaid yn ôl o'r Canolfannau Iaith, er mwyn cynnal ac adeiladu ar y gwaith da a wneir yno, drwy gynnig rhagor o ôl-ofalaeth a phob cyfle i'r bobl ifanc hynny fagu rhagor o hyder wrth ddefnyddio'u Gymraeg gyda'u cyfoedion a chyda staff yr ysgol. Rhoi sylw yn ogystal i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Ystyried paru'r disgybl gyda disgybl/aelod o staff dysgu/ategol er mwyn datblygu hyder wrth siarad yn gymdeithasol.</p>	<p>Canolfannau Iaith Uwchradd</p>	<p>Strategaeth ôl-ofal a chynnal hwyrddyfodiaid yn weithredol ac yn effeithiol ac yn cael ei fonitro</p>
5: Y Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith y disgyblion			
<p>5.1 Llunio Datganiad Cenhadaeth er mwyn gwreiddio normau yng nghydestun perthynas dinasyddion Gwynedd â'r Gymraeg. Byddai'r normau hyn yn rhai cynhwysol a hir-arhosol</p>	<p>Llunio Datganiad Cenhadaeth sydd â chynrychiolaeth o blith y disgyblion, staff yr ysgolion, Hunaniaeth a Swyddogion y Sir.</p>	<p>Fforwm Pobl Ifanc Gwynedd/Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Anffurfiol o'r Gymraeg</p>	<p>Pob person ifanc yng Ngwynedd yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth am y Gymraeg, beth bynnag yw iaith y cartref, a'u hymlyniad presennol tuag at y Gymraeg.</p>

<p>5.2 Sicrhau bod y Datganiad Cenhadaeth yn sail ar gyfer unrhyw syniadau ymarferol fydd yn cael eu gweithredu mewn ysgolion ac yn y gymuned. Fel rhan o'r Datganiad gellid sefydlu cyfres o egwyddorion cadarn a chlr sy'n tanlinellu bod y Gymraeg yn iaith i bawb yng Ngwynedd, waeth beth fo cefndir y disgyblion. Mae'n etifeddiaeth gyffredin i bawb sydd wedi dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt</p>	<p>Fel rhan o'r egwyddorion, dylid talu sylw penodol at feysydd megis Dinasyddiaeth a'r Gymraeg fel mater sifig; Rôl a chyfrifoldeb y gwahanol fudd-ddeiliaid ledled Gwynedd ac yn genedlaethol; Dathlu amrywiaeth ieithyddol a sefydlu normau sy'n cynnwys pawb.</p>	<p>Fforwm Pobl Ifanc Gwynedd/Gweithgor Cynyddu'r Defnydd Anffurfiol o'r Gymraeg</p>	<p>Bydd y rhai nad ydynt mor hyderus â hynny yn eu defnydd o'r Gymraeg wedi'u hymbweru i wneud penderfyniadau am eu dewisiadau ieithyddol. Golyga hyn eu bod yn dilyn y continwwm ieithyddol i'r cyfeiriad cywir, er mwyn dod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>
<p>6: Agweddau tuag at y Gymraeg</p>	<p>Parhau â gwaith da Hunaniaith a datblygu rhaglen farchnata gan dargedu gwahanol sectorau dros gyfnod penodol.</p>	<p>Hunaniaith</p>	<p>Datblygu dulliau mesur effaith gan dracio unigolion a chynnal grwpiau ffocws i adnabod newidiadau mewn ymddygiad ieithyddol ac agweddau tuag at y Gymraeg.</p>
<p>6.1 Marchnata'r Gymraeg a manteision dwyieithrwydd yn gadarnhaol i holl drigolion Gwynedd</p>	<p>Parhau â gwaith da Hunaniaith a datblygu rhaglen farchnata gan dargedu gwahanol sectorau dros gyfnod penodol.</p>	<p>Hunaniaith</p>	<p>Datblygu dulliau mesur effaith gan dracio unigolion a chynnal grwpiau ffocws i adnabod newidiadau mewn ymddygiad ieithyddol ac agweddau tuag at y Gymraeg.</p>
<p>7: Y Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol</p>	<p>Dylai'r Cyngor roi arweiniad cadarn, nodi disgwyliadau eglur a darparu hyfforddiant perthnasol i weithwyr Canolfannau Hamdden y Sir wrth geisio normaleiddio'r Gymraeg mewn Canolfannau Hamdden.</p>	<p>Canolfannau Hamdden, Adrannau Addysg Gorfforol Ysgolion, Hunaniaith</p>	<p>Staff Canolfannau Hamdden yn deall beth yw cenhadaeth, nod ac amcan y Sir parthed defnyddio'r Gymraeg, beth yw'r disgwyliadau ohonynt hwy fel arweinwyr parthed y Gymraeg ac yn hyderus wrth gynnig y Gymraeg mewn gweithgareddau.</p>
<p>7.1 Sicrhau bod Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol gyda rhaglen lawn o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Dylai'r Cyngor roi arweiniad cadarn, nodi disgwyliadau eglur a darparu hyfforddiant perthnasol i weithwyr Canolfannau Hamdden y Sir wrth geisio normaleiddio'r Gymraeg mewn Canolfannau Hamdden.</p>	<p>Canolfannau Hamdden, Adrannau Addysg Gorfforol Ysgolion, Hunaniaith</p>	<p>Staff Canolfannau Hamdden yn deall beth yw cenhadaeth, nod ac amcan y Sir parthed defnyddio'r Gymraeg, beth yw'r disgwyliadau ohonynt hwy fel arweinwyr parthed y Gymraeg ac yn hyderus wrth gynnig y Gymraeg mewn gweithgareddau.</p>

	<p>Ymddengys fod polisi i gyflogi Cymry Cymraeg ond nid yw hyn bob amser yn arwain at y defnydd o'r Gymraeg ganddynt.</p> <p>Yn gyffredinol gallai Gwynedd fapio a llunio gweledigaeth gydlynus i sicrhau bod lle cyflawn i'r Gymraeg yn y gweithgareddau cymunedol a geir yn ardal/dalgylchoedd ysgolion yr Awdurdod.</p> <p>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith wedi ei drefnu i'r staff er mwyn deall gwerth eu cyfraniad o safbwynt y Gymraeg a'u helpu i gynllunio sesiynau dwyieithog.</p> <p>Sicrhau bod staff Canolfannau Hamdden y sir yn ymrwmo i'w dyletswydd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda phobl ifanc yn y Canolfannau Hamdden hyn.</p>	<p>Rheolwyr a staff Canolfannau Hamdden Gwynedd, Adrannau Addysg Gorfforol Ysgolion Gwynedd</p>	<p>Byddant yn gallu ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol cymhleth a chreu ethos Gymraeg i'w gweithgareddau.</p> <p>Manylion llawn am gyfrwng iaith sesiynau mewn Canolfannau Hamdden yn cael eu bwydo yn ôl i'r Awdurdod</p> <p>Gweledigaeth a chenhadaeth parthed defnydd iaith wedi ei mapio'n gydlynus ac wedi ei dosbarthu ar draws holl ardaloedd y Sir.</p> <p>Yr holl staff/hyfforddwyr yn cynnig y Gymraeg yn gyntaf ym mhob Canolfan Hamdden. Hyfforddwyr wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol cymysg er mwyn sicrhau lle blaenllaw i'r Gymraeg.</p> <p>Hyfforddiant iaith wedi ei ddarparu i staff sydd angen cyrraedd lefelau priodol yn y Gymraeg.</p>
--	---	---	---

<p>7.2 Sicrhau bod Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol gyda rhaglen lawn o weithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg</p>	<p>Angen i'r Cyngor roi arweiniad cadarn a hyfforddiant perthnasol i weithwyr Clybiau Ieuenctid y sir wrth geisio normaleiddio'r Gymraeg mewn Clybiau Ieuenctid ar draws y sir.</p>	<p>Y Gwasanaeth Ieuenctid, Hunaniaith</p>	<p>Staff y Gwasanaeth Ieuenctid /hyfforddwyr yn deall beth yw cenhadaeth, nod ac amcan y Sir parthed defnyddio'r Gymraeg, beth yw'r disgwyliadau ohonynt hwy fel arweinwyr parthed y Gymraeg ac yn hyderus wrth gynnig y Gymraeg mewn gweithgareddau.</p>
	<p>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith wedi ei drefnu i'r staff er mwyn deall gwerth eu cyfraniad o safbwynt y Gymraeg a'u helpu i gynllunio sesiynau dwyieithog.</p>	<p>Swyddog Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb dros weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg; Y Gwasanaeth Ieuenctid.</p>	<p>Byddant yn gallu ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol cymhleth a chreu ethos Gymraeg i'w gweithgareddau.</p>
	<p>Cynnal archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg hyfforddwyr er mwyn sicrhau bod hyfforddwyr yn ddigon hyderus i gynnal gweithgareddau Cymraeg ym mhob rhan o Wunedd.</p>	<p>Swyddog Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb dros weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg; Y Gwasanaeth Ieuenctid.</p>	<p>Pobl ifanc yn ymwybodol bod y gweithgareddau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a bod y swyddogion ieuenctid yn rhagweithiol wrth ddefnyddio'u Cymraeg gyda'r bobl ifanc.</p>
	<p>Sicrhau bod gan staff y Gwasanaeth Ieuenctid 'lefel iaith Gymraeg briodol' yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor. Sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswydd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda phlant a phobl ifanc.</p>	<p>Swyddog Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb dros weithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg; Y Gwasanaeth Ieuenctid.</p>	<p>Hyfforddiant iaith wedi ei ddarparu i staff sydd angen cyrraedd lefelau priodol yn y Gymraeg Fel yr uchod.</p>

<p>7.3 Sicrhau strategaeth sirol er mwyn creu cyfleoedd i bob person ifanc yng Ngwynedd fedru defnyddio gwasanaethau cymunedol yn Gymraeg, ym mha bynnag ran o'r sir y maent yn byw ynddi</p>	<p>Nid yw'n ymddangos fod gan bob ysgol fynediad neu gefnogaeth weithredol gyson gan fudiadau cymunedol. Byddai'n fuddiol iawn llunio gweledigaeth a chydlynu gweithgareddau i sicrhau bod lle cyflawnach i'r Gymraeg yn y gweithgareddau a ddarperir yn ardal yr ysgol.</p> <p>Ystyried ar y cyd â'r Urdd y posibilrwydd o leoli swyddfeydd y mudiad mewn ysgolion.</p>	<p>Hunaniaith, Yr Urdd a mudiadau cymunedol eraill</p>	<p>Hunaniaith/y Cyngor wedi darparu gweledigaeth, ac yn sgil hynny cefnogaeth i ysgolion gan gydlynu gweithgareddau er sicrhau lle cyflawnach i'r Gymraeg yn ardaloedd yr ysgolion.</p> <p>Trafodaethau wedi digwydd ar y cyd â'r Urdd gyda'r bwriad o leoli swyddfeydd y mudiad mewn ysgolion.</p>
<p>7.4 Sicrhau bod polisi tai a chynllunio Cyngor Gwynedd yn ystyried ardrawiad datblygiadau tai a mewnlifiad ar y Gymraeg yng nghymunedau'r sir. Yn ei dro, ystyried yr effaith hwnnw ar iaith gymdeithasol disgyblion yr ysgolion lleol</p>	<p>Mae angen i'r Cyngor roi sylw manwl i effaith mewnfudo a datblygu tai ar y Gymraeg yng nghymunedau'r Sir. Mae'r newid sosio-ieithyddol hwn yn rhannau o'r sir yn cael effaith andwyol maes o law ar ymdrechion ysgolion i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o gylch yr ysgol.</p>	<p>Yr Adran Gynllunio Hunaniaith</p>	<p>Yr Adran Gynllunio/Cyngor Gwynedd yn ystyried ardrawiad ieithyddol datblygiadau tai posib, ac effaith hynny ar ymdrechion ysgolion i annog defnyddio'r Gymraeg.</p>

7.2 Blaenoriaethau ac Argymhellion Lefel Ysgol: Drafft Ymgynghorol

Yn dilyn prif ddarganfyddiadau'r arolwg, rydym wedi blaenoriaethu'r prif themâu, a rhoi iddynt argymhellion ar gyfer eu gweithredu. Isod, rhestrir argymhellion lefel ysgol at sylw'r holl ysgolion gyda'i gilydd. Fe fydd rhai argymhellion eisoes ar waith mewn ambell ysgol; cynigir yr isod fel pecyn cyflawn i bawb. Manylir ar rai argymhellion penodol yn atodiadau unigol yr ysgolion.

Blaenoriaeth	Argymhelliad	Gyda Chydweithrediad	Sut y gwyddom ein bod wedi cyrraedd y nod
1: Diffinio Natur Ieithyddol yr Ysgolion			
Mae angen i'r holl ysgolion sicrhau eu bod yn glir beth yw lefel ieithyddol y ddarpariaeth a gynigir ganddynt	Mae angen i bob ysgol ar eu diffiniad ieithyddol gyda'r AALI gan hyrwyddo hynny'n briodol gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol.	AALI	Ysgolion yn eglur ynghylch sut i ddiffinio'r ysgol o safbwynt lefel ieithyddol, ac yn hyrwyddo a chyfathrebu hyn yn glir gyda'r holl fudd-ddeiliaid
2: Y Modd y Mae'r Ysgolion Hyrwyddo ac yn Hwyluso'r Defnydd o'r Gymraeg			
2.1 Cynllunio a gweithredu'n fwriadus i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy greu strategaeth ysgol-gyfan uchelgeisiol i sicrhau ac i hyrwyddo ymhellach statws cytûn a chydabyddedig i'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgolion, i gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan yr holl ddisgyblion a staff.	Mabwysiadu Strategaeth Ysgol-gyfan, sy'n bwydo Strategaeth Iaith Gwynedd ar gyfer datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn y sector uwchradd. Ymgorffori'r strategaeth yng Nghynlluniau Datblygu/Gwella Ysgol yr holl ysgolion.	AALI Holl fudd-ddeiliaid yr ysgol	Pob Ysgol yn rhannu'r un weledigaeth o gynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, ac yn dangos cynnydd drwy: Creu strategaeth a'i rhannu gydag ysgolion eraill mewn fforwm agored ac iddo gerrig milltir pendant. Offerynnau monitro, gan gynnwys holiaduron a grwpiau ffocws disgyblion, wedi'u datblygu.

	<p>Cytuno ar neges a chenhadaeth i ysgolion annog defnyddio'r Gymraeg ym mhob ysgol yn y sir, a'u cael i berchnogi hyn (gweler y cyfeiriad ato yn y Blaenoriaethau Sirol). Tawelu ofnau'r ysgolion ynglŷn â sut mae gweithredu'n gadarnhaol i hybu'r Gymraeg. Sefydlu gweledigaeth ar y cyd sydd yn rhoi pwyslais ar hybu'r Gymraeg, a gwneud hynny heb danseilio safonau yn yr iaith Saesneg.</p> <p>Ysgolion yn gweithredu'n rhagweithiol ac yn gadarnhaol i hybu'r Gymraeg a diffinio rolau pawb yn eglur. Trefnu hyfforddiant perthnasol a chefnogaeth sirol i roi unrhyw gynlluniau hyrwyddo'r Gymraeg ar waith.</p> <p>Mae angen rhoi statws gweladwy i'r iaith Gymraeg ym mhob ysgol. Mewn rhai ysgolion nad ydynt eisoes wedi meithrin ethos Gymraeg gadarn, dylid rhoi arweiniad ynghylch iaith cyfathrebu staff, iaith gwasanaethau boreol, a gweithgareddau ysgol-gyfan, dogfennaeth a gweinyddiaeth ynghyd â delwedd gorfforaethol fewnol/allanol yr ysgol.</p>		<p>Datganiad polisi o gydwledigaeth a chyd-genhadaeth ar sut i hybu'r Gymraeg.</p> <p>Rolau pawb yn yr ysgol wedi eu diffinio'n eglur. Hyfforddiant perthnasol ac effeithiol wedi ei gynnal</p> <p>Statws gweladwy parthed ethos, gan gynnwys defnydd amlwg o'r Gymraeg fel iaith gyfathrebu feunyddiol, gweithgareddau ysgol-gyfan, gweinyddiaeth a delwedd.</p>
--	---	--	---

<p>2.2 Datblygu cyfleoedd i alluogi a sbarduno pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol, gan gynnwys holl fudd-ddeiliaid yr ysgol yn rhan o'r strategaeth honno drwy'r roi iddynt ddyletswyddau penodol (isod):</p>			
<p>2.3 Sicrhau bod y disgyblion eu hunain yn chwarae rôl greiddiol yn y broses o hybu'r Gymraeg yn gymdeithasol o gylch yr ysgol.</p>	<p>Sefydlu fforwm defnydd iaith o blith y disgyblion (cynrychiolwyr o bob blwyddyn) i gynllunio a chreu syniadau ynghylch hybu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn yr ysgol. Er mwyn sicrhau perchnogaeth gan y bobl ifanc, rhaid rhoi hygredded i'r fforwm, a sicrhau bod syniadau'n cael sylw teg, eu blaenoriaethau a'u gweithredu. Y fforwm i gyfarfod yn rheolaidd a gwerthuso prosiectau ar ddiwedd y tymor/blwyddyn yn seiliedig ar farn disgyblion a holiaduron defnydd iaith.</p> <p>Dylid ystyried cael disgybl (o bersonoliaeth ac argyhoeddiadau cryf) i gario portffolio iaith Gymraeg ar Gyngor yr Ysgol, gan fwydo syniadau/adborth o'r Fforwm leuenctid uchod i Strategaeth iaith yr ysgol ac</p>	<p>Cynrychiolwyr y Fforwm Pencampwr y Gymraeg Urdd/Hunaniaith Cynrychiolydd o Gyngor yr Ysgol</p> <p>Cyngor yr Ysgol</p>	<p>Fforwm wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd. Gweithgareddau / ymgyrchoedd wedi'u creu a'u gwerthuso mewn cyfnod penodol. Newidiadau'n cael eu gwneud ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso ar gyfer y flwyddyn nesaf.</p> <p>Disgybl wedi ei d(d)ewis i gario portffolio iaith Gymraeg ar Gyngor yr Ysgol, ac wedi bwydo syniadau/adborth i Strategaeth iaith yr ysgol. Statws, dylanwad ac effeithiolrwydd y Cyngor wedi ei gryfhau yn gyffredinol.</p>

	<p>adrodd/cydweithio gyda'r llywodraethwyr dynodedig a Phencampwr y Gymraeg o blith y staff. Angen sicrhau statws, dylanwad ac effeithiolrwydd y Cyngor, ac ehangu ar y pynciau trafod i roi lle i ddefnydd iaith</p> <p>Er mwyn manteisio ar ddylanwad y disgyblion hŷn dros y rhai iau mewn perthynas â defnydd iaith, sefydlu system "bydis" seiliedig ar ddefnydd iaith yn benodol.</p> <p>Gall hyn fod yn gynllun rhwng disgyblion blwyddyn 12/13 a blynyddoedd iau yr ysgol, neu flwyddyn 10/11 a'r rhai iau yn yr ysgolion hynny nad oes ganddynt chweched dosbarth. Os oes gan ysgol chweched dosbarth, gellid hefyd ystyried cynnwys haen o ddisgyblion blwyddyn 10 fel 'bydis' iaith.</p> <p>Gweithio gyda 'chatalyddion'/criwiau dylanwadol o ddisgyblion mewn gwahanol flynyddoedd, er mwyn iddynt ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd iaith criwiau eraill o ddisgyblion. Y disgyblion eu hunain i benderfynu ar y dull</p>	<p>Yr Urdd/Hunaniaith Cydlynwyr ABCh/ Bagloriaeth Cymru yr ysgolion/ Hunaniaith/ Asiantaethau Allanol</p>	<p>System "bydis" seiliedig ar ddefnydd iaith wedi ei chyflwyno fel y bo'n briodol.</p> <p>Gwaith wedi digwydd gyda chatalyddion a chriwiau dylanwadol o ddisgyblion, a dylanwad cadarnhaol yn dilyn hynny o ran defnydd iaith disgyblion eraill</p>
--	---	---	--

	<p>gorau o wneud hyn/natur y gweithgareddau, a fedrai gynnwys trefnu rhaglen o weithgareddau anffurfiol bob tymor o gylch yr ysgol. Gellid defnyddio model Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (Llywodraeth Cymru). Gellid ystyried rhaglen o weithgareddau tebyg wedi'i harwain gan ddisgyblion, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Sefydlu Radio Ysgol (Gellid ymestyn gorsafoedd radio presennol ysgolion drwy sicrhau elfen gymunedol iddynt) - Gweithdai rapio/dj/bîtboacio - Cynnal clybiau allgyrsiol amrywiol - Gefeillio ag ysgolion eraill - Blogio/creu fideos/cyfryngau cymdeithasol <p>Mae angen trefnu sesiynau ymwybyddiaeth iaith/seicoleg iaith yn gyffredinol i ddisgyblion yr ysgol a chynnwys hanes a datblygiad yr iaith yn y cwricwlwm ABCH ynghyd â chyfleoedd i drafod yn onest â'i gilydd eu hunaniaeth a chyswllt hyn gyda dewis defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.</p>	Disgyblion hŷn yr ysgol Cymorth Cydlynnydd ABCH/Bac/	Sesiynau ymwybyddiaeth iaith/seicoleg iaith wedi eu darparu; cwricwlwm ABCH wedi ei gymhwyso
--	---	--	--

	<p>Rhoi cyfrifoldeb dros gynnal deialog onest am iaith a chynnal sesiynau ABCH ar ddefnydd iaith (blwyddyn 7 ac 8) i ddisgyblion h9n yr ysgol, er mwyn sicrhau eu dylanwad dros y disgyblion iau.</p> <p>Y disgyblion i gael eu hymbweru i beidio ag ildio i'r Saesneg mewn sefyllfaoedd gyda chriwiau penodol o ffrindiau.</p> <p>Datblygu Cymraeg Anffurfiol: sesiynau anffurfiol i ddisgyblion sgwrsio yn y Gymraeg.</p> <p>Lle y bo'n briodol, yr ysgol i ystyried cynnwys yr iaith fel rhan o'r system gymeradwyo ac/neu o wobrwo lwyddiannus sydd ganddi ar hyn o bryd, o leiaf gyda'r disgyblion iau. Os felly, rhaid cynnwys disgyblion yng ngweithrediad y system a sicrhau cysondeb gan bob aelod o staff sydd fod i weithredu'r system ar draws yr ysgol.</p>	<p>Disgyblion h9n yr ysgol</p> <p>Asiantaethau Allanol Fforwm Iaith Disgyblion yr ysgol/Cyngor Ysgol</p>	<p>Blynyddoedd h9n yr ysgol wedi eu hymbweru i gynnal sgyrsiau/sesiynau penodol am ddefnydd iaith gyda'r disgyblion iau. Disgyblion yn teimlo'n fwy hyderus i beidio ag ildio i'r Saesneg mewn sefyllfaoedd gyda chriwiau penodol o ffrindiau.</p> <p>Sesiynau anffurfiol wedi eu creu i gefnogi defnydd cymdeithasol disgyblion llai hyderus o'r Gymraeg</p> <p>System gymeradwyo ac/neu wobrwyo yn cynnwys yr iaith</p>
<p>2.4 Sicrhau rôl strategol ieithyddol i'r Corff Llywodraethol</p>	<p>Bod gan un Llywodraethwr ar bob corff gyfrifoldeb dros bortffolio'r Gymraeg fel iaith anffurfiol o gylch yr ysgol</p>	<p>Y Corff Llywodraethol</p> <p>Y Cyngor Ysgol</p>	<p>Un o'r Llywodraethwyr yn gweithredu cyfrifoldeb dros ddatblygiad y Gymraeg fel iaith anffurfiol o gylch yr ysgol ac yn adrodd ar gynnydd i'r Corff Llawn.</p>

	Y Corff Llywodraethol llawn i gadw llygad ar ddefnydd iaith yn rheolaidd.		Y Corff Llywodraethol yn llwyr ymwybodol o ddatblygiadau defnydd iaith Gymraeg o gylch yr ysgol, ac yn cynnig arweiniad a chymorth strategol ar ddatblygu hyn ar draws yr ysgol. Y Corff Llywodraethol i dderbyn adroddiadau rheolaidd a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau strategol yn ymwneud â defnydd o'r Gymraeg.
2.5 Sicrhau arweiniad ac ymrwymiad gan bob aelod o'r Tîm Rheoli Hîn	Y Tîm Rheoli Hîn yw'r prif ddylanwad ar ethos ac arfer yr ysgol. O ganlyniad i fabwysiadu strategaeth iaith i'r ysgol, bydd hyn yn cynnwys gwneud newidiadau strategol i'r cwricwlwm ffurfiol/anffurfiol ac ymgorffori egwyddorion perthnasol yng nghynlluniau datblygu'r ysgol. Rhaeadru'r egwyddorion hyn i holl staff yr ysgol a threfnu hyfforddiant, cefnogaeth a chanllawiau iddynt ar eu dyletswydd o safbwynt datblygu'r defnydd o'r Gymraeg o gylch yr ysgol.		Strategaeth iaith wedi ei mabwysiadu, ynghyd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r cwricwlwm ffurfiol/anffurfiol Cynllun Datblygu'r Ysgol i nodi'r thema a'r camau sydd i'w cymryd i'w gwireddu, a'r ysgol wedi arfarnu'r hyn a gyflawnwyd Yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant, cefnogaeth a chanllawiau ac yn cyflawni eu rôl o safbwynt datblygu'r Gymraeg o gylch yr ysgol

	<p>Cyfathrebu polisi defnydd iaith yr ysgol yn glir i staff, disgyblion a rhieni'r ysgol ac arwain drwy esiampl.</p> <p>Datblygu strategaeth fwy pendant i staff a disgyblion wrth groesawu hwyrddyfodiaid yn ôl o'r Ganolfan Drochi, er mwyn cynnal ac adeiladu ar y gwaith da a wneir yno, drwy gynnig pob cyfle i'r bobl ifanc hynny fagu rhagor o hyder wrth ddefnyddio'u Cymraeg gyda'u cyfoedion a chyda staff yr ysgol. Rhoi sylw yn ogystal i ddatblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Ystyried paru'r disgybl gydag aelod o staff dysgu/ategol er mwyn datblygu hyder wrth siarad yn gymdeithasol.</p>	Canolfannau Iaith Uwchradd	<p>Y polisi defnydd iaith wedi ei wneud yn glir i'r budd-ddeiliaid gwahanol</p> <p>Strategaeth cynnal hwyrddyfodiaid yn weithredol ac yn effeithiol</p>
<p>2.6 Diffinio yn fwy trylwyr rôl a chyfrifoldeb pob aelod o'r Staff Addysgu ynghylch datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol/ffurfiol ar draws yr ysgol.</p>	<p>Mae'r athrawon yn rôl-fodelau allweddol bwysig a phwerus er mwyn dylanwadu ar ddisgyblion, felly rhaid i ysgolion gyfathrebu negeseuon a disgwyliadau parthed defnydd iaith yn gwbl glir i athrawon. Mae diffyg ymrwymiad i ddefnyddio'r Gymraeg (staff-staff, staff-disgybl) yn medru gwrthweithio unrhyw ymdrechion eraill a wneir gan yr ysgol i hybu'r Gymraeg.</p>	<p>Cefnogaeth yr Adran Addysg Asiantaethau allanol/AALI/Hunaniaith Ysgolion sydd mewn sefyllfa ieithyddol debyg. Cyngor Gwynedd</p>	<p>Pob aelod o staff yn llwyr ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol parthed defnydd o'r Gymraeg gan staff a disgyblion mewn gwersi 'dwyieithog', gan fod arfer y tu mewn i'r dosbarth yn effeithio ar arfer y tu allan i'r dosbarth</p>

	<p>Rhaid i bob aelod o staff fod yn llwyr ymwybodol o ddisgwyliad yr ysgol parthed defnydd o'r Gymraeg gan staff a disgyblion mewn gwersi 'dwyieithog'. Mae angen strategaeth sirol ar yr hyn a olygir wrth wersi dwyieithog a bod hyn yn cael ei weithredu gan yr ysgolion.</p> <p>Gwneud disgwyliadau'r ysgol o ran defnydd iaith staff gyda staff eraill o gylch yr ysgol, a chyda disgyblion, yn gwbl glir.</p> <p>Bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ehangach i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth, ac yn deall sut mae gwneud hyn mewn modd cadarnhaol.</p> <p>Trefnu gwersi Cymraeg i staff di-Gymraeg, a gwersi Gloywi iaith i staff llai hyderus, wedi'u cefnogi gan yr ysgol yn yr amserlen. Argymhellir bod hyn yn digwydd gyda chefnogaeth Sirol hefyd.</p>		<p>Disgwyliadau'r ysgol o ran defnydd iaith staff gyda staff eraill o gylch yr ysgol, a chyda disgyblion, yn gwbl glir.</p> <p>Pob aelod o staff yn ymwybodol o ac yn gweithredu eu cyfrifoldeb ehangach i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth.</p> <p>Gwersi Cymraeg wedi eu darparu i staff di-Gymraeg, a gwersi Gloywi iaith i staff llai hyderus, wedi'u cefnogi gan yr ysgol yn yr amserlen. (Ynghyd â chefnogaeth Sirol).</p>
--	---	--	--

	<p>Sicrhau bod disgyblion, rhieni a staff yr ysgol yn ymwybodol pa aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg/sy'n dysgu Cymraeg, er mwyn cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol yn yr ysgol.</p> <p>Mae angen trefnu sesiwn ymwybyddiaeth iaith/seicoleg iaith i holl staff yr ysgol– rhaid sicrhau bod y sgwrs yma'n digwydd ar lefel staff cyn iddynt fynd ati i wneud y gwaith ar lefel disgyblion. Dylai hon fod yn rhaglen barhaus ac yn cael ei chyflwyno pan fydd staff newydd yn dechrau, ac yn ystod cyfnod staff yn yr ysgol. Gall staff wedyn gymhwyso'r naratif hwn i raglen ABCh/Balgoriaeth Cymru disgyblion o bob cyfnod allweddol.</p> <p>Athrawon i osod ffiniau clir i'r disgyblion parthed defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, gan gefnogi hynny â phecyn offer fyddai'n caniatáu i aelodau staff ymateb yn gyson i ofynion defnydd iaith. Byddai gweithredu'n gyson fel hyn yn cadarnhau cenhadaeth yr ysgol o safbwynt defnydd o'r</p>		<p>Disgyblion, rhieni a staff yr ysgol yn ymwybodol pa aelodau o staff sy'n medru'r Gymraeg/sy'n dysgu Cymraeg ac yn cyfathrebu â nhw yn Gymraeg</p> <p>Rhaglen barhaus o sesiynau ymwybyddiaeth iaith/seicoleg iaith wedi eu cynnal gyda holl staff yr ysgol.</p> <p>Pecyn offer wedi ei ddarparu i athrawon ac yn cael ei ddefnyddio i helpu gosod ffiniau clir i'r disgyblion parthed defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, gan gefnogi hynny â phecyn offer fyddai'n caniatáu i aelodau staff ymateb yn gyson i ofynion defnydd iaith. Y canllawiau hyn, neu rai cyfatebol,</p>
--	--	--	---

	<p>Gymraeg, gan sicrhau gweithrediad teg gan bob aelod o staff, yn hytrach na rhai unigolion yn unig. Yn atodol i hyn, cynigir bod angen rhannu'r canllawiau hyn, neu o bosibl greu rhai cyfatebol, gyda disgyblion yr ysgol a'u rhieni.</p> <p>Gwneud defnydd llawn o Bencampwyr y Gymraeg o fewn y strwythur staffio, a rhoi'r swyddogaeth honno i staff dylanwadol yn yr ysgol.</p> <p>Ffurio Gweithgor mewnol o staff a'i fryd ar ddatblygu Cymreictod a'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol fyddai'n bwydo Cymuned Ddysgu Proffesiynol mewn cytgor ag ysgolion tebyg, er mwyn taenu llwyddiannau cynnar ac arfer da ar draws ysgolion.</p> <p>Ystyried cyflwyno cymal ar y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yng Nghod Ymddygiad y disgyblion, a chynnwys hwn yn Llawlyfr yr Ysgol, yn y Cytundeb Cartref-Ysgol ac yn y Llyfr Cyswllt.</p>		<p>wedi eu rhannu gyda disgyblion yr ysgol a'u rhieni.</p> <p>Pencampwyr y Gymraeg wedi eu hadnabod o fewn y strwythur staffio, ac yn weithredol.</p> <p>Gweithgor mewnol o staff wedi ei sefydlu ac yn weithredol.</p> <p>Cymuned Ddysgu Proffesiynol mewn cytgor ag ysgolion tebyg wedi ei sefydlu ac yn weithredol.</p> <p>Cymal ar y defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yng Nghod Ymddygiad y disgyblion, a chynnwys hwn yn Llawlyfr yr Ysgol, yn y Cytundeb Cartref-Ysgol ac yn y Llyfr Cyswllt</p>
--	--	--	--

<p>2.7 Diffinio yn fwy trylwyr rôl a chyfrifoldeb pob aelod o'r Staff Atodol ynghylch datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol/ffurfiol ar draws yr ysgol.</p>	<p>Pob aelod o staff atodol yn llwyr ymwybodol o ddisgwyliad yr ysgol</p> <p>parthed eu defnydd o'r Gymraeg gyda staff eraill a chyda disgyblion o gylch yr ysgol, ac yn deall cenhadaeth yr ysgol parthed defnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Gwersi Cymraeg/Geirfâu Cymraeg i staff di-Gymraeg/Gloywi laith i staff llai hyderus, wedi'u cefnogi gan yr ysgol ar amserlen yr ysgol.</p>		<p>Pob aelod o staff atodol yn ymwybodol o ddisgwyliad yr ysgol parthed eu defnydd o'r Gymraeg gyda staff eraill a chyda disgyblion o gylch yr ysgol, ac yn deall cenhadaeth yr ysgol parthed defnyddio'r Gymraeg.</p> <p>Gwersi Cymraeg/Geirfâu Cymraeg wedi eu trefnu i staff di-Gymraeg/Gloywi laith i staff llai hyderus. Hyn wedi'i gefnogi gan yr ysgol ar amserlen yr ysgol.</p>
<p>2.8 cynnwys Rhieni yn ffurfiol yn natblygiadau'r ysgol parthed hybu'r Gymraeg yn gymdeithasol o gylch yr ysgol</p>	<p>Mae angen gwella cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref gan ddefnyddio rhieni eu hunain lle y bo modd gwneud hynny i ddangos gwerth dwyieithrwydd, o safbwynt addysgol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol o oed cynnar.</p> <p>Bydd hyn yn cynnwys sgwrs am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg yn y cartref os yw rhiant yn medru'r Gymraeg, er mwyn cefnogi arferion ac ymddygiad ieithyddol y plentyn cyn i'r disgybl gyrraedd yr ysgol.</p>	<p>Cefnogaeth Sirol/Hunaniaith</p>	<p>Sianeli cyfathrebu a negeseuon clir wedi eu sefydlu gyda rhieni o ran dilyniant a pharhad rhwng y cynradd a'r uwchradd ac o ran pontio i'r chweched parthed cyrsiau Cymraeg a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.</p> <p>Rhieni sy'n medru'r Gymraeg yn ymdrechu i ddefnyddio rhywfaint o'u Cymraeg gartref gyda'r plant. Cynhaliaeth wedi ei rhoi i rieni o ran darparu digon o wybodaeth, tystiolaeth a chefnogaeth</p>

	<p>O ystyried y berthynas agos rhwng cyfrwng addysgu ffurfiol yr ysgol a defnydd iaith anffurfiol y disgyblion â'i gilydd, mae angen i'r ysgol gyfathrebu'n agos â rhieni drwy gydol gyrfa'r disgyblion yn yr ysgol am ei disgwyliadau parthed defnydd iaith.</p> <p>Mae dilyniant a pharhad yn greiddiol i'r holl gysyniad o addysg. O safbwynt defnyddio'r Gymraeg, rhaid sicrhau bod yr ysgol yn cyfathrebu'n glir gyda rhieni yn ystod y cyfnodau pontio allweddol. Mae hyn yn cynnwys pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd, rhwng CA3 a CA4, ac wrth bontio i'r chweched dosbarth. Mae angen rhoi sylw i'r modd gorau o gefnogi'r disgybl i gyrraedd ei lawn potensial er mwyn dod yn gwbl rugl yn y Gymraeg ac i ysgwyddo cyfrifoldeb fel rôl-fodel dros yr iaith. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn</p> <p>gallu cefnogi'r rhieni â digon o wybodaeth, tystiolaeth gadarnhaol a chefnogaeth parthed:</p>	<p>Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd;</p> <p>Penaethiaid Ysgolion Cynradd dalgylch yr ysgol.</p> <p>Colegau Addysg Bellach</p> <p>Coleg Cymraeg Cenedlaethol</p>	<p>Yr ysgol wedi cyfathrebu disgwyliadau o'r fath a'r prosesau sy'n ymwneud â hynny yn ei holl ddogfennau mewnol ac allanol.</p> <p>Dulliau cyfathrebu clir wedi eu creu, gan gynnwys sgysiau, nosweithiau gwybodaeth, a defnydd priodol yn cael ei wneud o ddogfennau megis yr Adroddiad Ysgol a'r Llyfr Cyswllt</p>
--	--	---	---

	<p>a) amgog deglon i ddevis astud pynciau cyfrwng Cymraeg wrth bontio o'r cynradd i'r uwchradd</p> <hr/> <p>gyntaf yn yr uwchradd ar ôl cyrraedd y lefel briodol yn y cynradd</p> <p>c) dewis pynciau cyfrwng Cymraeg yn CA4</p> <p>ch) sefyll arholiadau allanol cyfrwng Cymraeg yn yr uwchradd.</p> <p>d) dewis pynciau cyfrwng Cymraeg yn CA5, lle bo chweched dosbarth, gan gplysu hynny gyda datblygiadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol</p> <p>dd) ystyried parhau â'u haddysg yn Gymraeg yn y Brifysgol os yn berthnasol</p> <p>Yn ogystal, dylid cyfathrebu'n gwbl glir gyda rhieni yn ystod y cyfnodau pontio allweddol uchod am ddisgwyliadau strategaeth yr ysgol o ran annog defnydd agos rhwng defnyddio'r Gymraeg</p>	<p>Canolfan leol Cymraeg i Oedolion</p>	<p>Gwersi dysgu Cymraeg wedi eu darparu i rieni</p>
--	---	---	---

	<p>a chyrraedd safonau addysgol uwch yn ogystal â'r cyfleoedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ehangach.</p> <p>Yn hyn o beth, ynghyd â threfnu cyfleoedd llafar ffurfiol, mae'n hollbwysig i'r ysgol gyfathrebu disgwyliaidau o'r fath a'r prosesau sy'n ymwneud â hynny yn ei holl ddogfennau mewnol ac allanol. Gellid defnyddio'r Adroddiad Ysgol a'r Llyfr Cyswllt i gymeradwyo disgyblion neu i ddwyn sylw at ddiffyg defnydd bwriadus/cyson o'r Gymraeg.</p> <p>Byddai'n gaffaeliad petai'r ysgol (ar y cyd efallai â Chanolfan Lleol Cymraeg i Oedolion) yn medru cynnig gwersi dysgu Cymraeg i rieni, o bosib ar y cyd ag ysgolion eraill ar draws ardal.</p>		
--	---	--	--

<p>2.9 Parhau i gynnal partneriaeth agos gyda'r sector cynradd a chanolbwyntio ymhellach ar drafod trosglwyddo, dilyniant a pharhad ieithyddol</p>	<p>Parhau i drefnu cyfarfodydd penodol gyda chlwstwr ysgolion cynradd yr ysgol i rannu gwybodaeth a phrofiad, ac i drafod trosglwyddo, dilyniant a pharhad ieithyddol y disgyblion mewn perthynas â nod y strategaeth hon. Gyda datblygiadau diweddar Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd mae yma gyfle i ail edrych ar y cyswllt cynradd/uwchradd o safbwynt y Gymraeg er mwyn sicrhau trosglwyddo a dilyniant effeithiol.</p>	<p>Hunaniaith/Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd; Penaethiaid Ysgolion Cynradd dalgylch yr ysgol.</p>	<p>Cyfarfodydd yn digwydd ac yn hwyluso rhannu gwybodaeth a phrofiad, yn ogystal ag esmwytho'r trosglwyddo, y dilyniant a'r parhad angenrheidiol parthed y Gymraeg.</p>
<p>3. Defnydd iaith a'r Cwricwlwm</p>			
<p>3.1 Mae angen eglurder ar ddisgwyliadau'r ysgolion mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi dwyieithog</p>	<p>Y Gymraeg fel iaith gymdeithasol yw ffocws yr ymchwil hon ond eto mae'r iaith gymdeithasol yn anorod yn dylanwadu ar gyrhaeddiad disgyblion. Rhaid rhoi sylw i ddefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y dosbarth. Angen i'r sir wneud ymchwiliad ar y sefyllfa a gosod canllawiau clir i bob ysgol, athro a disgybl o'r hyn sy'n cael ei ganiatáu yn y dosbarth.</p>	<p>AALI</p>	

	<p>Ennill mwy o eglurder ar y defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu, yn enwedig mewn cyrsiau ac arholiadau allanol.</p> <p>Mae angen trafod modd o gynnal a chryfhau'r Gymraeg ar lafar, i ddathlu cyfoeth y dafodiaith leol, ac amrywiaethau iddi, ynghyd â hyrwyddo ffurfiau safonol a gwneud hynny wrth gofio galw clir i gryfhau Saesneg o fewn y cwricwlwm. Gellir ystyried hyn oll o dan adain yr agenda sgiliau.</p>		<p>Mwy o eglurder wedi ei ennill ar y defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu, yn enwedig mewn cyrsiau ac arholiadau allanol.</p> <p>Yr agenda sgiliau wedi ei defnyddio i gynnal a chryfhau'r Gymraeg ar lafar, i ddathlu cyfoeth y dafodiaith leol ynghyd â hyrwyddo ffurfiau safonol a gwneud hynny wrth gofio'r galw clir hefyd i gryfhau Saesneg o fewn y cwricwlwm.</p>
<p>3.2 Mae angen eglurder pellach ar ddewis cyfrwng iaith astudio a sefyll arholiadau'r disgyblion gan werthu manteision dwyieithrwydd a darpariaethau addysg uwch cyfrwng Cymraeg</p>	<p>Cynyddu'n sylweddol y nifer sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer CA4 a Lefel Uwch; mae'n bwysig sicrhau bod yr ysgol yn rhoi'r arweiniad ac yn cydnabod rôl athrawon, yn hytrach na bod yn oddefol, gan ddibynnu'n unig ar ddewis rhieni a disgyblion. I'r perwyl hwn, mae angen edrych yn strategol ymhob ysgol ar bwy</p>		<p>Y nifer sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer TGAU a Lefel Uwch wedi cynyddu'n sylweddol; strategaeth wedi ei sefydlu ac eglurder ynghylch rôl yr ysgol ac athrawon wrth ddewis cyfrwng addysg ar gyfer CA4 a Lefel Uwch.</p>

	<p>sy'n cael dewis cyfrwng iaith astudio'r disgyblion.</p> <p>Mae angen ystyried polisi o safbwynt parhad y Gymraeg fel cyfrwng addysgu wrth i'r disgyblion wneud dewisiadau opsiwn (CA4 a CA5) a sut y gall erydu yn y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Gall astudio Gwyddoniaeth ee gael traweffaith niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu anffurfiol ymhlith myfyrwyr hŷn.</p> <p>O safbwynt dilyniant a pharhad addysg cyfrwng Cymraeg, rhaid gwella'r cyfathrebu rhwng sefydliadau megis y Mudiad Ysgolion Meithrin, Ysgolion, Addysg Bellach a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn egluro profiad cyflawn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyd y continwmm iaith, fel pecyn cyflawn.</p> <p>O safbwynt addysg uwch cyfrwng Cymraeg, mae angen marchnata yn gynharach yn yr ysgol, a chyn i'r disgyblion gyrraedd y chweched dosbarth.</p>	<p>Mudiad Ysgolion Meithrin, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Colegau Addysg Bellach</p> <p>Coleg Cymraeg Cenedlaethol Colegau Addysg Bellach</p>	<p>Polisi wedi ei ystyried o safbwynt parhad y Gymraeg fel cyfrwng addysgu wrth i'r disgyblion wneud dewisiadau opsiwn (CA4 a CA5).</p> <p>Y cyfathrebu rhwng sefydliadau megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol/Colegau Addysg Bellach a'r ysgolion wedi'i wella a'i atgyfnerthu; mwy o ddilyniant o ran addysg gyfrwng Cymraeg yn digwydd.</p>
--	---	--	--

<p>3.3 Cynnwys materion ieithyddol penodol mewn agweddau cwricwlaidd megis ABCh, ADCDFE a CEB (dan adain y Bac Cymreig)</p>	<p>Datblygu ymhellach ar waith yr ysgol wrth ddatblygu hunaniaeth, cariad at iaith, bro a chenedl, yng nghyd-destun dinasyddiaeth fyd eang y disgyblion, trwy gyfrwng y cwricwlwm ABCh, ADCDFE a CEB (o dan adain y Bac Cymreig).</p>		<p>Datblygu ymhellach ar waith yr ysgol wedi digwydd wrth ddatblygu hunaniaeth, cariad at iaith, bro a chenedl, yng nghyd-destun dinasyddiaeth fyd eang y disgyblion, trwy gyfrwng y cwricwlwm ABCh, ADCDFE a CEB (o dan adain y Bac Cymreig).</p>
<p>4: Defnydd iaith Disgyblion y Tu Hwnt i'r Dosbarth</p>			
<p>4.1 Mae angen sicrhau bod y disgyblion eu hunain yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros y sefyllfa, o safbwynt adnabod yr angen i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yn ogystal â chynnal gweithgareddau</p>	<p>Mae'n hanfodol bwysig bod cyfrifoldeb sylweddol yn nwylo'r disgyblion (Gweler 2.3)</p>	<p>Gweler 2.3</p>	<p>Gweler 2.3</p>
<p>4.2 Mae angen sicrhau dwysedd digonol o weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg a chlybiau cyn ac ar ôl ysgol gan ddatblygu ar y ddarpariaeth bresennol yn yr ysgolion</p>	<p>Yr ysgol i ymateb i ddyhead y disgyblion am ragor o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol, gan roi sylw teg i gyfleoedd addas i ddisgyblion h9n ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hybu a'i diogelu yn y gweithgareddau hyn.</p>	<p>Cydweithio ag asiantaethau perthnasol a chefnogaeth Sirol.</p>	<p>Yr ysgol wedi ymateb i ddyhead y disgyblion am ragor o weithgareddau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol; cyfleoedd addas gan ddisgyblion h9n i ddefnyddio'r Gymraeg; y Gymraeg yn cael ei hybu a'i diogelu fel cyfrwng iaith anffurfiol yn y gweithgareddau hyn.</p>

5: Y Ffactorau sy'n dylanwadu ar Ddefnydd iaith y Disgyblion

5.1 Cynyddu hyder yn nefnydd y Gymraeg gan ddisgyblion a staff yr ysgol

Normaleiddio'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan bob disgybl er mwyn iddynt ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg erbyn gadael yr ysgol. *Mae argymhellion y ddogfen hon yn gysylltiedig â gwella hyder i ddefnyddio iaith yn gymdeithasol.*

Gwella hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg drwy wersi priodol ar amserau addas (gweler uchod).

Gwella hyder staff i ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol heriol drwy hyfforddiant/canllawiau perthnasol yn rhan o'r CDY.

Rhoi mandad i brifathrawon fedru gweithredu'n gadarnhaol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel ysgol-gyfan, drwy dderbyn cefnogaeth sirol, a chefnogaeth gan y Llywodraethwyr a'r Tîm Rheoli.

Y defnydd o'r Gymraeg gan bob disgybl wedi ei normaleiddio dros gyfnod penodol o amser.

Hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg wedi ei wella drwy fod gwersi priodol wedi eu cynnal.

Hyder staff i ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol heriol wedi ei wella drwy hyfforddiant/canllawiau perthnasol yn rhan o'r CDY.

Mandad wedi ei roi i brifathrawon fedru gweithredu'n gadarnhaol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel ysgol-gyfan, drwy dderbyn cefnogaeth sirol, a chefnogaeth gan y Llywodraethwyr a'r Tîm Rheoli.

<p>5.2 Targeddu'r prif ddylanwadau ar ddefnydd iaith y disgyblion fel y nodwyd yn yr arolwg</p>	<p>Mae angen ystyried o'r newydd sut i fod yn gynhwysol o ran disgyblion sy'n dod o rannau o'r dalgylchoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, a'r rhai sy'n dod o'r ardaloedd sy'n tueddu i gyfathrebu yn y Saesneg. Mae tuedd i ystrydebu'r carfannau hyn.</p> <p>Heblaw am ddylanwad naturiol sefydliad yr ysgol-gyfan, targedu'r prif ddylanwadau eraill, a nodwyd yn yr arolwg, ar ddefnydd iaith y disgyblion. Mae cyfeiriad atynt drwy'r ddogfen hon.</p>		<p>Camau wedi eu cymryd i fod yn gynhwysol o ran y disgyblion sy'n dod o rannau o'r dalgylchoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg yn naturiol, a'r rhai sy'n dod o'r ardaloedd sy'n tueddu cyfathrebu yn Saesneg.</p> <p>Y prif ddylanwadau – gan gynnwys dylanwad naturiol sefydliad yr ysgol-gyfan - wedi eu targedu.</p>
<p>6. Agweddau tuag at y Gymraeg</p>			
<p>6.1 Sicrhau prosesau a gweithgareddau i feithrin agweddau iach tuag at y Gymraeg</p>	<p>Datblygu o'r newydd, neu ddatblygu ymhellach ar waith clodwiw mentoriaid a modelau rôl y Gymraeg yn yr ysgol (e.e. Blwyddyn 12/13 os oes chweched dosbarth) drwy gyfrwng yr arlwy allgyrsiol neu drwy fentrau megis cynlluniau darllen. Gellir cyflawni hyn drwy'r gydran sgiliau (GGE) o dan adain y Fagloriaeth Uwch.</p>	<p>Swyddogion Datblygu/leuenctid yr Urdd CFFI Gwasanaeth leuenctid y Cyngor Sir Asiantaethau allanol Llywodraeth Cymru</p>	<p>Gwaith mentoriaid a modelau rôl y Gymraeg yn yr ysgol wedi ei ddatblygu neu ei fireinio gan gynnwys datblygu mentoriaid iaith ifancach.</p>

	<p>Ystyried datblygu mentoriaid iaith iau e.e. defnyddio disgyblion o'r blynyddoedd canol ar gyfer agweddau o waith Llys yng nghystadlaethau Eisteddfod yr Ysgol, a/neu hyfforddi disgyblion BI.7/8 i fod yn fydis iaith i flwyddyn 6 sydd ar fin trosglwyddo i'r Ysgol.</p> <p>Datblygu o'r newydd, neu hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol mewn cyd-destunau cyfoes megis ym myd cyfryngau cymdeithasol, cerddoriaeth a thechnoleg aml-gyfrwng yn gyffredinol e.e. trwy ddatblygu gorsaf radio ysgol.</p> <p>Sbarduno prosiectau sydd yn ymgorffori'r disgyblion wrth sicrhau fod yr iaith yn parhau yn berthnasol iddynt hwy yn eu bywydau pob dydd e.e. gweithgaredd i ddatblygu ieithwedd tecstio.</p> <p>Creu cyfleoedd i'r disgyblion "fyw'r" Gymraeg er mwyn rhoi iddynt gyd-destun i'r Gymraeg.</p> <p>Gall hyn ddigwydd drwy</p>		<p>Defnydd o'r Gymraeg ym mhob ysgol mewn cyd-destunau cyfoes wedi ei ddatblygu o'r newydd neu ymhellach.</p> <p>Prosiectau wedi eu cyflawni sydd yn ymgorffori'r disgyblion wrth sicrhau fod yr iaith yn parhau yn berthnasol iddynt hwy yn eu bywydau pob dydd.</p> <p>Cyfleoedd wedi eu creu i'r disgyblion "fyw'r" Gymraeg er mwyn rhoi iddynt gyd-destun i'r Gymraeg.</p>
--	---	--	--

	<p>hysbysebu (a threfnu) gweithgareddau pobl ifanc, megis o fewn yr ysgol.</p> <p>Datblygu ymhellach ar waith yr ysgol wrth ddatblygu hunaniaeth, cariad at iaith, bro a chenedl, yng nghyd-destun dinasyddiaeth fyd eang y disgyblion, trwy gyfrwng y cwricwlwm ABCh, ADCDFE a CEB (o dan adain y Bac Cymreig).</p> <p>Sicrhau cyfleoedd i efeillio ysgolion ieithyddol tebyg yng Ngwynedd a thu hwnt.</p> <p>Archwilio potensial datblygu cysylltiadau rhyngwladol gydag ysgolion mewn gwledydd lle ceir ieithoedd lleiafrifol eraill e.e. Ysgolion Diwan yn Llydaw, Gwlad y Basg ac ati.</p> <p>Defnyddio detholiad o ddisgyblion a rhieni sydd wedi dysgu Cymraeg i roi cyflwyniadau ysgogol i ddarpar-rieni Bl.7 yn y nosweithiau pontio.</p>		<p>Datblygu ymhellach ar waith yr ysgol wedi digwydd wrth ddatblygu hunaniaeth, cariad at iaith, bro a chenedl, yng nghyd-destun dinasyddiaeth fyd eang y disgyblion, trwy gyfrwng y cwricwlwm ABCh, ADCDFE a CEB (o dan adain y Bac Cymreig).</p> <p>Cyfleoedd i efeillio ysgolion ieithyddol tebyg/annhebyg yng Ngwynedd a thu hwnt wedi eu sicrhau.</p> <p>Potensial datblygu cysylltiadau rhyngwladol gydag ysgolion mewn gwledydd lle ceir ieithoedd lleiafrifol eraill wedi ei archwilio a'i weithredu lle y bo'n briodol e.e. Ysgolion Diwan yn Llydaw, Gwlad y Basg ac ati.</p> <p>Detholiad o ddisgyblion a rhieni sydd wedi dysgu Cymraeg wedi cael eu defnyddio i roi cyflwyniadau ysgogol i ddarpar-rieni Bl.7 yn y nosweithiau pontio.</p>
--	--	--	---

<p>6.2 Creu cyfleoedd i gynnal deialog onest am hunaniaeth, Cymreictod a defnydd iaith ar lefel ysgol-gyfan</p>	<p>Cynnal hyfforddiant a thrafodaethau ysgol-gyfan ar onestrwydd ieithyddol a disgwyliadau'r ysgol a'r sir parthed defnyddio'r Gymraeg o gylch yr ysgol (staff-staff, staff-disgybl, disgybl-disgybl).</p> <p>Creu a defnyddio pecyn offer / teclynnau cynllunio iaith i'r ysgol-gyfan yn cynnwys dulliau hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gadarnhaol ac yn mesur cynnydd perthnasol.</p> <p>Datblygu, drwy hyfforddiant, arferion ymwybyddiaeth iaith/seicoleg iaith, drwy weithio gyda charfannau o ddisgyblion a chatalyddion penodol.</p> <p>Datblygu protocol cynhaliol ar gyfer annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, yn enwedig wrth ystyried gweddnewid arferion y rhai hynny sydd yn tueddu i beidio siarad Cymraeg yn anffurfiol. Dylid 'ymresymu ac annog, nid cosbi'.</p>	<p>Hunaniaith/Asiantaethau allanol</p> <p>Asiantaethau allanol</p>	<p>Hyfforddiant a thrafodaethau ysgol-gyfan ar onestrwydd ieithyddol wedi digwydd a disgwyliadau'r ysgol a'r sir parthed defnyddio'r Gymraeg o gylch yr ysgol (staff-staff, staff-disgybl, disgybl-disgybl) wedi eu gwneud yn glir.</p> <p>Pecyn offer / teclynnau cynllunio iaith i'r ysgol-gyfan wedi eu creu ac yn cael eu defnyddio sy'n cynnwys dulliau hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn gadarnhaol ac yn mesur cynnydd perthnasol.</p> <p>Arferion ymwybyddiaeth iaith/seicoleg iaith, wedi eu datblygu drwy weithio gyda charfannau o ddisgyblion a chatalyddion penodol.</p> <p>Protocol cynhaliol ar gyfer annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol wedi ei ddatblygu.</p>
--	---	--	---

	<p>Angen cymhathu disgyblion llai hyderus eu Cymraeg, a disgyblion o gefndiroedd a diwylliannau eraill fel bod gan bawb ymwybyddiaeth o hunaniaeth yn ogystal â defnydd o'r iaith Gymraeg, i leihau ar y syniad o 'garfanu ieithyddol'.</p> <p>Marchnata sensitif a chadarnhaol. Hybu manteision dwyieithrwydd drwy atgoffa'r plant o'r gwerth economaidd a chyfleoedd gwaith sydd yn codi o ddwyieithrwydd. Yn hyn o beth, datblygu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg, fel adnodd, cyfle a phrofiad i ehangu gornelion disgyblion.</p>		<p>Disgyblion llai hyderus eu Cymraeg yn cael eu cymhathu'n fwy llwyddiannus, a llai o garfanau.</p> <p>Marchnata sensitif a chadarnhaol wedi digwydd i hybu manteision dwyieithrwydd.</p>
<p>6.3 Sicrhau perchnogaeth a chefnogaeth y disgyblion am unrhyw faterion wrth fynd ati i weithredu er lles y Gymraeg</p>	<p>Mae'n hanfodol bwysig sicrhau perchnogaeth y disgyblion dros faterion yn ymwneud â'u defnydd iaith (Gweler 2.3)</p>	<p>Gweler 2.3</p>	<p>Gweler 2.3</p>
<p>7: Y Gymraeg y Tu Hwnt i'r Ysgol</p>	<p>Sicrhau cyswllt cadarn a strategol rhwng yr ysgol a mudiadau cymunedol eraill sy'n cynnig cyfle i fyw'r Gymraeg y tu allan i fywyd yr ysgol.</p>	<p>CFFI; Hunaniaith; Yr Urdd;</p>	<p>Asiantaethau perthnasol eraill. Profion o gyswllt cadarn a strategol rhwng yr ysgol a mudiadau cymunedol eraill.</p>
<p>7.1 Datblygu dimensiwn cymunedol ac esgor ar gyfleoedd i ddisgyblion, yn enw'r ysgol, i ryngweithio gyda</p>			

<p>chymdeithasau a mudiadau lleol, er mwyn i'r disgyblion gael pob cyfle i ddefnyddio'u Cymraeg (yn enwedig y llai sicr / llai hyderus) mewn sefyllfaoedd y tu allan i'r ysgol</p>	<p>Bod yn rhagweithiol wrth chwilio ac annog lleoliadau profiad gwaith cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys yn y prif drefi cyfagos.</p> <p>Gweithio gydag asiantaethau awyr agored a chlybiau chwaraeon lleol i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau antur a ffitrwydd i bobl ifanc; mae angen sylw penodol ar weithgareddau dŵr, gan fod cymaint o'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg.</p>		<p>Yr ysgol wedi bod yn rhagweithiol gan ddod o hyd i leoliadau profiad gwaith cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Gwaith wedi digwydd gydag asiantaethau awyr agored a chlybiau chwaraeon lleol i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau antur a ffitrwydd i bobl ifanc.</p>
<p>7.2 Hyrwyddo a marchnata'r darpariaethau cymunedol Cymraeg sydd ar gan Gyngor Gwynedd a mudiadau eraill</p>	<p>Creu a dosbarthu rhestr gyfredol o'r darpariaethau presennol sydd ar gael a sicrhau ei fod yn cael ei gylchredeg yn eang.</p>	<p>Mudiadau cymunedol perthnasol Cyngor Gwynedd</p>	<p>Gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n mynychu gweithgareddau Cymraeg.</p>

ATODIAD**Data Meintiol Cyfansawdd Blwyddyn 9 Iefel Gwynedd-gyfan (sampl o ddisgyblion blwyddyn 9 holl ysgolion Gwynedd)**

Rhif Sleid/ Cwestiwn	Cwestiwn	Atebion	Cyfan	Canran
1-4	Cwis			
5	Beth yw prif iaith dy gartref?	A) Cymraeg B) Saesneg C) Dwyieithog D) Mwy na dwy iaith	317 273 111 23	44% 38% 15% 3%
6	Os oes gen ti riant sy'n gallu siarad Cymraeg, wyt ti'n siarad Cymraeg gyda nhw fel arfer?	A)Ydw drwy'r amser B)Ydw yn unigol ond ddim pam mae'r teulu gyda'i gilydd C)Cymraeg/Saesneg cyfartal D)Weithiau ond Saesneg fel arfer E)Na-Saesneg fel arfer F)Nid oes gen i riant sy'n deall Cymraeg	354 32 43 83 102 95	50% 5% 6% 12% 14% 13%
7	Pa iaith sy'n dod yn naturiol iti? Siarad Cymraeg neu Saesneg?	A) Cymraeg B) Saesneg C) Dwi'r un mor hapus yn y ddwy iaith	300 272 155	41% 37% 21%
8	Beth wyt ti'n meddwl oedd y prif reswm i ti/dy deulu ddewis yr ysgol hon?	A) Addysg/Canlyniadau da B) Iaith yr ysgol C) Dilyn Ffrindiau D) Lleoliad Cyfleus E) Rheswm Arall	120 68 77 347 117	16% 9% 11% 48% 16%
9	Yn gyffredinol yn yr ysgol, faint o Gymraeg wyt ti'n ei siarad nawr i gymharu â dy gyfnod yn yr ysgol gynradd?	A) Mwy B) Dim newid C) Llai	224 298 193	31% 42% 27%
10	Pa mor falch wyt ti dy fod yn gallu siarad Cymraeg?	A) Balch iawn B) Balch C) Ddim yn poeni llawer D) Ddim yn poeni o gwbl	373 174 127 40	52% 24% 18% 6%

11 / Adran B				
12	Heblaw am y pwnc 'Saesneg', pa iaith wyt ti'n ei siarad gyda dy ffrindiau mewn gwersi fel arfer? (wrth sgwrsio, trafod y pwnc)	A) Cymraeg B) Mwy o Gymraeg na Saesneg C) Mwy o Saesneg na Chymraeg D) Saesneg	235 135 195 166	32% 18% 27% 23%
13	Pan nad oes athrawon yn agos, pa iaith wyt ti fel arfer yn ei siarad gyda dy ffrindiau ar iard yr ysgol?	A) Cymraeg B) Mwy o Gymraeg na Saesneg C) Mwy o Saesneg na Chymraeg D) Saesneg	221 126 129 268	30% 17% 17% 36%
14	Pan nad oes athrawon yn agos, pa iaith wyt ti fel arfer yn ei siarad gyda dy ffrindiau ar goridau'r ysgol?	A) Cymraeg B) Mwy o Gymraeg na Saesneg C) Mwy o Saesneg na Chymraeg D) Saesneg	233 123 137 240	32% 16% 19% 33%
15	Ar y coridor/iard, pa iaith wyt ti'n ei defnyddio yng nghlyw'r athrawon?	A) Cymraeg B) Mwy o Gymraeg na Saesneg C) Mwy o Saesneg na Chymraeg D) Saesneg	313 138 129 161	42% 19% 17% 22%
16	Yn gyffredinol, beth yw'r brif iaith sy'n cael ei defnyddio gan ddisgyblion yn y ffreutur amser cinio?	A) Cymraeg yn bennaf B) Saesneg yn bennaf C) Cymraeg a Saesneg cyfartal	194 214 318	27% 29% 44%
17	Wyt ti'n credu bod hi'n bwysig i dy rieni / warcheidwaid dy fod yn siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth yn yr ysgol?	A) Ydy B) Nac ydy C) Ddim yn siŵr	311 221 205	42% 30% 28%
18	Y tu allan i'r ystafell ddosbarth, faint o Gymraeg wyt ti'n ei siarad nawr i gymharu â dy gyfnod ym mlwyddyn 7?	A) Mwy o Gymraeg B) Dim newid C) Llai o Gymraeg	211 404 96	30% 57% 13%
19	Sut fyddet ti'n disgrifio naws ac awyrgylch cyffredinol yr ysgol?	A) Cymraeg/Cymreig yn bennaf B) Dwyieithog C) Saesneg/Seisnig yn bennaf	267 362 77	38% 51% 11%
20	Faint o gyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth yn yr ysgol? (e.e. clwb/gweithgareddau allgyrsiol Cymraeg)	A) Mae digon o gyfleoedd i bawb yn yr ysgol B) Mae'r cyfleoedd i'r disgyblion iau yn bennaf C) Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion hŷn yn bennaf D) Nid oes digon o gyfleoedd	426 79 46 168	60% 11% 6% 23%

21	A fyddet ti'n hoffi bod mwy o gyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth yn yr ysgol?	A) Byddwn B) Na fyddwn C) Dwi eisoes yn cael y cyfle hwn	298 229 196	41% 32% 27%
22	Oes gan yr ysgol reolau clir o ran siarad Cymraeg y tu hwnt i ffiniau'r dosbarth?	A) Oes B) Nac oes C) Ddim yn si*r	163 354 207	23% 49% 28%
23	Wyt ti'n meddwl bod gwobrwyo disgyblion am siarad Cymraeg yn eu helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y tymor hir?	A) Ydw B) Nac ydw C) Ddim yn si*r	312 280 153	42% 37% 21%
24	Beth wyt ti'n meddwl yw prif flaenoriaeth yr ysgol?	A) Canlyniadau Arholiadau B) Chwaraeon/Allgyrsiol C) Disgyblaeth D) Gwisg Ysgol E)Yr Iaith Gymraeg F)Rhywbeth arall	298 27 51 262 60 36	40% 4% 7% 36% 8% 5%
25	Yn gyffredinol, ydych chi'n credu bod gan ddisgyblion hŷn yr ysgol ddylanwad dros ddisgyblion iau?	A) Ydw B) Nac ydw C) Ddim yn si*r	295 317 155	38% 42% 20%
27	Pa mor aml wyt ti'n siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol?	A) Bob dydd B) Rhywfaint bob wythnos C) Rhywfaint bob mis D) Llai nag unwaith y mis E)Byth	420 112 45 60 99	57% 15% 6% 8% 14%
28	Ym mha sefyllfaoedd wyt ti'n siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol fel arfer? (gallwch ateb fwy nag un)	A) Gyda fy nheulu B) Gyda fy ffrindiau C) Clwb/gweithgaredd chwaraeon D) Clwb/gweithgaredd arall E) Gyda gweithwyr sy'n cynnig gwasanaeth yn yr (ee siop/sinema/banc/gyrrwr bws) F) Dwi byth yn siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol	469 447 301 227 365 127	SIART BAR

29	O'r holl oriau rwyd ti'n treulio yn edrych ar raglenni ar y teledu/y we, pa ganran o hynny sy'n rhaglenni Cymraeg?	A) 0% B) 25% C) 50% D) 75% E) 100% F) Dwi ddim yn gwylio rhaglenni mewn unrhyw iaith	39 5 22 5 55 16	54 % 31 % 8% 2%
30	Wrth ddefnyddio MSN/Twitter/Facebook pa iaith wyt ti'n ei defnyddio fel arfer gyda dy ffrindiau sy'n siarad Cymraeg?	A) Cymraeg B) Mwy o Gymraeg na Saesneg C) Mwy o Saesneg na Chymraeg D) Saesneg	126 128 192 84	17% 17% 26% 40%
31	Wrth anfon text at ffrindiau Cymraeg, pa iaith wyt ti'n debygol o'i defnyddio?	A) Cymraeg B) Mwy o Gymraeg na Saesneg C) Mwy o Saesneg na Chymraeg D) Saesneg	322 100 116 208	43% 13% 16% 28%
32	Y tu allan i'r ysgol, wyt ti'n meddwl bod rhai o'r canlynol yn dylanwadu ar dy ddewis di o iaith? (Gallwch ddewis fwy nag un)	A) Iaith y teulu B) Iaith ffrindiau agos C) Iaith pobl yr ardal leol D) Teledu/radio/y we E) Dylanwad arall F) Nac ydw	484 441 317 213 104 117	SIART BAR
33	Pan fyddi di'n 18 mlwydd oed, faint o Gymraeg wyt ti'n meddwl y byddi'n siarad i gymharu â nawr?	A) Mwy o Gymraeg B) Dim newid C) Llai o Gymraeg	167 334 241	23% 45% 32%
34	Wyt ti'n gobeithio y byddi di'n siarad Cymraeg pan fyddi di'n tyfu i fyny?	A) Ydw, gobeithio'n fawr B) Ddim yn si*r C) Nac ydw	489 179 84	65% 24% 11%
35	Wyt ti'n bwriadu byw yng Ngwynedd ar ôl gorffen yn yr ysgol?	A) Ydw B) Nac ydw C) Ddim yn si*r	184 269 298	25% 35% 40%

36/Adran C	Hyder			
37	Pa mor hyderus wyt ti yn siarad Cymraeg?	A) Hyderus iawn B) Eithaf hyderus C) Ansicr D) Ansicr iawn	376 196 111 51	51% 27% 15% 7%
38	Pa mor hyderus wyt ti yn darllen/ysgrifennu Cymraeg?	A) Hyderus iawn B) Eithaf hyderus C) Ansicr D) Ansicr iawn	287 274 90 64	40% 38% 13% 9%
39	Pa mor hyderus wyt ti yn siarad Saesneg?	A) Hyderus iawn B) Eithaf Hyderus C) Ansicr D) Ansicr iawn	468 166 95 25	62% 22% 13% 3%
40	Pa mor hyderus wyt ti yn darllen/ysgrifennu Saesneg?	A) Hyderus iawn B) Eithaf Hyderus C) Ansicr D) Ansicr iawn	417 245 65 25	55% 33% 9% 3%
41	Wyt ti'n fwy hyderus yn siarad Cymraeg mewn sefyllfa ffurfiol (ee gwrs/sgwrs gydag athro) neu mewn sefyllfa anffurfiol (ee sgwrs gyda ffrind)?	A) Ffurfiol B) Anffurfiol C) Dwi'n hyderus yn y ddwy sefyllfa D) Nid wyf yn hyderus yn y ddwy sefyllfa	138 244 256 92	19% 33% 35% 13%
42	Blanc			